



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

200
1822 - 2022

Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol cyfunol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth
i ben ar **31 Gorffennaf 2022**



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Prifysgol Cymru
University of Wales



coleg**sirgâr**



coleg**ceredigion**

Prifysgol Cymru:
Y Drindod Dewi Sant

Rhif elusen: **1149535**

www.uwtsd.ac.uk/cy



CYNNWYS

Aelodau	5
Manylion gweinyddu a chynghorwyr proffesiynol	6
Cyflwyniad gan yr Is-Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor	8
Adolygiad gweithredol ac ariannol	10
Datganiad llywodraethu corfforaethol	32
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i gyngor Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant	40
Datganiad cyfunol a datganiad y Brifysgol o incwm cynhwysfawr	44
Datganiad cyfunol a datganiad y Brifysgol o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn	45
Datganiadau cyfunol a datganiadau'r Brifysgol o'r sefyllfa ariannol	46
Datganiad cyfunol o lifoedd arian parod	47
Datganiad o'r polisiau cyfrifyddu	48
Nodiadau i'r cyfrifon	56



AELODAU A CHYNGHORWYR ALLANOL

Aelodau o gorff llywodraethu y Brifysgol, y Cyngor, yw ymddiriedolwyr y Brifysgol. Mae'r rheiny a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn (hyd at gyfarfod y Cyngor pan lofnodwyd y datganiadau ariannol) wedi'u rhestru isod. Mae eu presenoldeb (%) yng nghyfarfodydd y Cyngor yn ystod 2021-22 wedi'i nodi mewn cromfachau.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'n ffurfiol y diffiniad o annibyniaeth a gafodd ei ddatblygu gan y sector mewn ymateb i'r Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Prifysgolion Cymru. Nid yw'r aelodau annibynnol wedi'u cofrestru'n fyfyrwyr y Brifysgol nac yn aelodau o'i staff, ac mae eu penodiad a'u cyfrifoldebau yn gyson â'r diffiniad. Caiff Cofrestr o Fuddiannau Aelodau ei chyhoeddi, ei hadolygu a'i diweddarau bob blwyddyn, a disgwylir i'r aelodau nodi'n benodol ar ddechrau ac ar ddiwedd pob cyfarfod unrhyw faterion y gallai eu buddiant effeithio arnynt. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd) – annibynnol (100%)

Yr Athro Medwin Hughes (Is-Ganghellor) – gweithredol (100%)

Justin Albert – annibynnol (50%)

Tony Ball – annibynnol (Ymddiswyddodd 30.8.2022) (60%)

Pam Berry – annibynnol (Ymddiswyddodd 30.8.2022) (60%)

Andrew Curl – annibynnol (Ymddiswyddodd 30.8.2022) (60%)

Siwan Davies – annibynnol (50%)

Tania Davies – staff (Ymddiswyddodd 31.7.2022) (80%)

Margaret Evans – annibynnol (Ymddiswyddodd 30.8.2022) (60%)

Taya Gibbons – myfyrwraig (Penodwyd 1.7.2022)

Eifion Griffiths – annibynnol (Ymddiswyddodd 30.8.2022) (100%)

Uzo Iwobi – annibynnol (50%)

Rowland Jones – annibynnol (80%)

Vanessa Liverpool – myfyrwraig (60%)

Dr Conny Matera-Rogers – staff (80%)

Arwel Ellis Owen – annibynnol (80%)

Matthew Peake – staff (40%)

Liam Powell – myfyriwr (Ymddiswyddodd 25.03.2022) (66%)

Victoria Provis – annibynnol (60%)

Geraint Roberts – annibynnol (80%)

Emlyn Schiavone – annibynnol (75%)

Dr Liz Siberry – annibynnol (80%)

Dr Peter Spring – staff (Penodwyd 1.8.2022)

Maria Stedman – annibynnol (80%)

Dr Kerry Tudor – staff (80%)

AELODAU A CHYNGHORWYR ALLANOL**Manylion Gweinyddu**

Rhif Elusen	1149535
Rhif y Cwmni	RC000537
Prif Swyddfa	Campws Caerfyrddin, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP

Cynghorwyr Proffesiynol

Archwilydd Allanol	KPMG LLP	3 Sgwâr y Cynulliad, Cei Britannia, Caerdydd, CF10 4AX
Archwilydd Mewnol	Mazars LLP	90 Victoria Square, Bryste, BS1 6DP
Bancwyr	Barclays Bank Plc HSBC Plc Natwest Bank Plc	

Cwmpas y Datganiadau Ariannol

Mae datganiadau ariannol cyfunol Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yn cyfuno'r endidau canlynol:

Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant

Coleg Prifysgol y Drindod Cyfyngedig

Coleg y Drindod

Eclectica Drindod Cyfyngedig

Canolfannau Dysgu PCYDDS Cyfyngedig (Diddymwyd y cwmni 12 Hydref 2021)

Buddsoddiadau PCYDDS Cyfyngedig

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Coleg Sir Gâr

Coleg Ceredigion

Mentrau Creadigol Cymru

Canolfan Swp-gynhyrchu Uwch Prifysgol Cymru Cyfyngedig

OSTC Y Drindod Dewi Sant LLP (Menter ar y Cyd)

Canolfannau Arloesi PCYDDS Cyfyngedig

Ysgol Fusnes Abertawe Cyfyngedig

AELODAU A CHYNGHORWYR ALLANOL**Statws Cyfreithiol**

Mae Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn gorfforedig trwy Siarter Brenhinol. Y fersiwn ddiweddaraf o'i chyfansoddiad yw'r Siarter Atodol a seliwyd gan y Cyfrin Gyngor ar 28 Medi 2012, yn dilyn y broses gyfansoddiadol o uno â Phrifysgol Fetroplitan Abertawe.

Ystyrir bod Coleg Prifysgol y Drindod dan reolaeth PCYDDS gan mai PCYDDS yw ei unig aelod.

Mae Coleg y Drindod yn ymgorffori gwaddol gwreiddiol 1848, a, chan ei bod yn elusen addysg, mae'n ymgorffori asedau tir ac adeiladau, fel ei gilydd, ynghyd ag unrhyw arian elusennol y mae'r elusen wedi'i gronni. Nid oes yna gysylltiad perchnogaeth uniongyrchol rhwng PCYDDS a Choleg y Drindod. Fodd bynnag, ystyrir ei fod yn cael ei reoli gan PCYDDS yn rhinwedd y ffaith mai Coleg Prifysgol y Drindod yw'r unig ymddiriedolwr.

Mae Eclectica Drindod yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant heb unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau, a sefydlwyd i ymgymryd â rôl sy'n cyflawni gweithgarwch Trydedd Genhadaeth ar gyfer PCYDDS mewn modd mwy effeithiol. Ystyrir bod Eclectica Drindod dan reolaeth PCYDDS gan mai Coleg Prifysgol y Drindod (y mae PCYDDS yn unig aelod ohono) yw ei unig aelod ac am fod ganddo bŵer i benodi cyfarwyddwyr.

Mae Canolfannau Dysgu PCYDDS Cyfyngedig yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i PCYDDS.

Mae Buddsoddiadau PCYDDS Cyfyngedig yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i PCYDDS.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant heb unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Mae'n ymgymryd â'r gwaith o bennu'r cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion, gan ddarparu arweinyddiaeth i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion. PCYDDS yw unig aelod y cwmni.

Mae Coleg Sir Gâr yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant heb unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau, sy'n ymgymryd â'r gwaith o ddarparu addysg bellach ac addysg uwch. PCYDDS yw unig aelod y cwmni.

Mae Coleg Ceredigion yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant heb unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau, sy'n ymgymryd â'r gwaith o ddarparu addysg bellach. Coleg Sir Gâr yw unig aelod y cwmni, ac ystyrir ei fod dan reolaeth PCYDDS, sef unig aelod Coleg Sir Gâr.

Mae Mentrau Creadigol Cymru Cyfyngedig yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i PCYDDS. Cafodd ei sefydlu i weithredu canolfan cyfryngau digidol yng Nghanolfan S4C yr Egin, sydd ger campws y Brifysgol yng Nghaerfyrddin. Cwblhawyd y gwaith o adeiladu'r ganolfan yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019.

Mae Canolfan Swp-gynhyrchu Uwch Prifysgol Cymru Cyfyngedig yn gwmni preifat; mae gan y Brifysgol fuddiant llywodraethol o 51% yn y cwmni, ac mae'r 49% sy'n weddill yn nwylo Prifysgol Cymru.

Mae OSTC Y Drindod Dewi Sant LLP yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig; mae'r Brifysgol yn berchen ar 50% o'r endid, ac mae'r 50% arall yn eiddo i OSTC cyfyngedig.

Mae Canolfannau Arloesi PCYDDS Cyfyngedig yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i PCYDDS, ac ni fasnachodd yn ystod y flwyddyn.

Paratoi'r datganiadau ariannol cyfunol

Paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021 yn unol â'r gyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019, y Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gyfer 2020-21 a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a Safon Adrodd Ariannol 102 – y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021 ar sail busnes hyfyw, fel y manylir ar dudalen 39.

200
1822 - 2022

Man geni Addysg Uwch yng Nghymru



Ned Thomas, Emma Jane Bolam, Yr Athro Medwin Hughes, Arglwydd Griffiths o Borth Tywyn a Patrick Holden, CBE.



Y Cyng. Selwyn Walters, Arglwydd Raglaw Ei Fawrhidi Ms Sara Edwards, Yr Athro Medwin Hughes a'r Hybarch Randolph Thomas.



Yr Athro Elin Haf Gruffudd Jones, Natalie Williams, Yr Athro Medwin Hughes, Dr Martin Crampin.



Yr Athro Medwin Hughes
Is-ganghellor



Yr Hybarch Randolph Thomas
Cadeirydd

CYFLWYNIAD GAN YR IS-GANGHELLOR A CHADEIRYDD Y CYNGOR

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Gweithredu Ariannol ar gyfer y flwyddyn 2021-22, a darparu trosolwg o gyflawniadau'r Brifysgol yn ystod blwyddyn pan fu i ni nodi ein Daucanmlwyddiant.

Mae'r Daucanmlwyddiant yn coffáu gosod y garreg sylfaen ar gyfer Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan ar 12 Awst 1822. Trwy nodi'r garreg filltir hon yn ein hanes, rydym yn dathlu sefydlu addysg uwch yng Nghymru a rôl y coleg gwreiddiol, sef Coleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan, yn y stori honno. Fodd bynnag, mae dathliadau'r daucanmlwyddiant wedi bod yn gyfle i ddathlu llwyddiannau a chyflawniadau'r Brifysgol ar ei newydd wedd. Mae wedi cynnig cyfle strategol i ailddatgan brand y Brifysgol a'i rôl barhaus o ran llesiant a ffyniant Cymru yng nghyd-destun ehangach y DU, yn enwedig mewn perthynas â datblygiad campysau Llundain a Birmingham.

Yn ystod y flwyddyn, croesawyd rhanddeiliaid y Brifysgol i'r amrywiaeth o ddigwyddiadau i ddathlu'r Daucanmlwyddiant, yn cynnwys gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llanbedr Pont Steffan, yn ogystal â gwasanaethau a gorymdeithiau yng Nghaerfyrddin, Abertawe a Llanbedr Pont Steffan.

Yn rhan o'n dathliadau, roeddem yn falch iawn o groesawu Ei Fawrhidi y Brenin Charles i gyflwyno doethuriaethau anrhydeddus i bedwar unigolyn am eu cyflawniadau eithriadol. Cafodd Emma Jane Bolam ei chydnabod am ei chyfraniad sylweddol i arloesedd meddygol a'r gwaith o gynhyrchu'r brechlyn AstraZeneca; cydnabuwyd yr Arglwydd Griffiths o Borth Tywyn am ei gyflawniad oes o wasanaeth cyhoeddus ac am fod yn eiriolwr dros gynhwysiant a diwygio cymdeithasol; cydnabuwyd Ned Thomas am ei wasanaeth eithriadol o ran hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac am hyrwyddo statws a datblygiad ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop; a chydabuwyd Patrick Holden, CBE, am ei arweinyddiaeth arloesol ym maes cynhyrchu bwyd cynaliadwy a ffermio organig.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi cynnal cynadleddau, darlithoedd ac arddangosfeydd yn amlygu'r casgliadau arbennig a ddelir yn ein Llyfrgell a'n Harchifau, yn ogystal â darlithoedd agoriadol athrawiaethol ar gyfer ein hathrawon newydd.

O ganlyniad i'r prosiect *200 o Goed am 200 Mlynedd*, cafodd coed brodorol eu plannu ar gampws Llanbedr Pont Steffan, gan gyd-daro â menter Canopi Gwyrdd Jiwbilf Platinwm y Frenhines. Y nod yw gwella bioamrywiaeth a chryfhau'r cysylltiad â natur, gan hefyd ddathlu amgylchedd arbennig y campws. Roeddem hefyd wedi cyhoeddi Trysorau: Casgliadau Arbennig Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a olygwyd gan yr Athro John Morgan-Guy, a ddyluniwyd gan Dr Martin Crampin o'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, ac a argraffwyd gan Wasg Prifysgol Cymru, yn rhan o'n dathliadau. Cyhoeddir ail gyfrol, Gwireddu Gweledigaeth: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant 1822-2022, yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd y Daucanmlwyddiant yn thema fawr ar gyfer y flwyddyn wrth gwrs, ond ailgydiwyd yn rhythm arferol bywyd prifysgol yn dilyn y pandemig wrth i ni barhau i gyflawni ein cenhadaeth o drawsnewid addysg a thrawsnewid bywydau'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu. Er i COVID-19 barhau i daflu ei gysgod, aethom ati i sicrhau bod iechyd a diogelwch ein cymuned bob amser yn flaenoriaeth wrth i ni ddychwelyd i'r campws ac ailgysylltu â'n myfyrwyr a'n cyd-weithwyr wyneb yn wyneb.

Rydym yn ddiolchgar i'r staff, i'r myfyrwyr ac i aelodau Cyngor y Brifysgol am eu cymorth parhaus a gwerthfawr.

Yr Athro Medwin Hughes, DL
Is-Ganghellor

Yr Hybarch Randolph Thomas
Cadeirydd

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL**Datganiad budd y cyhoedd**

Mae'r Brifysgol yn elusen gofrestrdedig a'i rhif elusen yw 1149535.

Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau'r Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar adrodd am fudd y cyhoedd, ac yn arbennig i'w ganllawiau atodol ar fudd y cyhoedd mewn perthynas â hyrwyddo addysg.

Nodir amcanion y Brifysgol yn ei Siarter:

'datblygu addysg a lledaenu gwybodaeth trwy addysgu, ysgolheictod ac ymchwil er budd y cyhoedd, sy'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: (a) Y pŵer i ddyfarnu a dirymu graddau o unrhyw lefel o'r Brifysgol ac anrhydeddau eraill ... yn ei enw ei hun a/neu yn ddeuol neu ar y cyd â sefydliadau addysg eraill; a (b) Darparu a chynnal presenoldeb ffisegol sylweddol mewn perthynas â'r Brifysgol yn Abertawe, Caerfyrddin, a Llanbedr Pont Steffan (neu leoedd eraill o'r fath y gellir eu pennu), sy'n hwyluso amcanion y Brifysgol; ac (c) Bydd amcanion y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth i dreftadaeth alwedigaethol, ddwyieithog ac Anglicanaidd endidau hanesyddol.'

Trwy ein gweithgareddau rydym yn cefnogi'r canlynol:

Addysgu rhagorol sy'n cael ei lywio gan ysgolheictod ac arfer proffesiynol, ac ymchwil gymhwysol sy'n dylanwadu ar wybodaeth a pholisi yng Nghymru a thu hwnt.

Cynwysoldeb, trwy ddileu rhwystrau rhag cymryd rhan a chefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiad i gyflawni eu potensial.

Cyflogadwyedd a chreadigrwydd, trwy gynnig rhaglenni addysgol sy'n datblygu sgiliau entrepreneuriaidd a chreadigol, gan alluogi dysgwyr i gael y cyfleoedd gorau i gael gwaith a chyfrannu at ffyniant eu cymunedau.

Cydweithio trwy berthnasau strategol, gan weithio gydag eraill i ddarparu cyfleoedd addysgol a masnachol, a sicrhau bod Cymru wedi'i chysylltu â'r byd ehangach.

Datblygiad cynaliadwy, trwy ymddwyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a thrwy ymgorffori'r egwyddor hon yn systematig yn ein hymagwedd at addysgu a dysgu.

Y cysyniad o ddinasyddiaeth fyd-eang, trwy ddatblygu gweithgareddau a chyfleoedd rhyngwladol i'n dysgwyr, ein staff a'n partneriaid.

Cymru a'i harwahanrwydd, trwy ymgorffori nodau *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu diwylliant, treftadaeth ac iaith egniol Cymru. Wrth wraidd cynllun strategol y Brifysgol y mae ymrwymiad i'w holl ddysgwyr ac yn benodol i Gymru – i'w diwylliant, i'w threftadaeth a'i hiaith, ac i ffyniant ac iechyd hirdymor ei phobl. Mae'n cydnabod ei rôl leol, genedlaethol, ryngwladol a dinesig o fod yn ddarparwr addysg uwch, ynghyd â'r cyfrifoldebau y mae'n eu hysgwyrddo. I adlewyrchu'r ymrwymiad hwn, mae saith nod a phum ffordd o weithio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* wedi cael eu gosod wrth wraidd y broses gynllunio, ac mae ei gobeithion yn gyson iawn â rheiny a fynegir gan Lywodraeth Cymru yn *Symud Cymru Ymlaen 2016-21*.

Yn allweddol i werthoedd y Brifysgol y mae hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cynyddu cyfranogiad, a chael effaith gadarnhaol ar economi, cymdeithas a diwylliant Cymru a thu hwnt. Mae strategaeth addysgu a dysgu y Brifysgol a datblygiad canolfannau dysgu newydd yn amlygu ei hymagwedd at gefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial, ac at gyfrannu at ofynion cymdeithasol ac economaidd a'r agenda sgiliau ehangach. Mae'n mynd i'r afael ag agenda Llywodraeth Cymru a amlinellir yn *Er Mwyn Ein Dyfodol* a blaenoriaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'r Brifysgol wedi meithrin cysylltiadau cadarn â chymunedau lleol i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu canolfannau dysgu newydd.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL**Amcanion a Gweithgareddau**

Yng nghyd-destun Cymru, mae gan y Brifysgol rôl amlwg i'w chwarae mewn addysg uwch. Mae ei chenhadaeth, ei chymeriad addysgol a'i phortffolio academaidd yn tystio i'w phwysigrwydd strategol o ran datblygu dwyieithrwydd a chefnogi datblygiad y Gymraeg a diwylliant Cymru.

Y Genhadaeth

Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau.

Y Weledigaeth

Ein gweledigaeth yw bod yn Brifysgol ar gyfer Cymru, gydag ymrwymiad i lesiant a threftadaeth y genedl wrth wraidd popeth a wnawn. Yn ganolog i'n gweledigaeth y mae hyrwyddo a sefydlu system addysg sector deuol sy'n addysgu dysgwyr o bob oed a chefnidir, ac sy'n ysgogi datblygiad economaidd yn ein hardal, ledled Cymru a thu hwnt.

Cyflawniadau Allweddol

Ym mis Medi 2017, lansiodd y Brifysgol Gynllun Strategol ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2022.

Yn dilyn hynny, ym mis Gorffennaf 2022, cymeradwyodd y Cyngor estyniad i'r Cynllun i gwmpasu'r cyfnod 2017-2024. Mae yna bedwar blaenoriaeth strategol ar gyfer y cyfnod cynllunio:

1. Rhoi dysgwyr gyntaf;
2. Cynnal rhagoriaeth o ran addysgu, ysgolheictod ac ymchwil gymhwysol;
3. Creu cyfleoedd trwy bartneriaethau; a
4. Cynnal Prifysgol i Gymru;

At hynny, mae'r Cynllun Strategol yn nodi saith galluoogydd allweddol i'w cyflawni i gefnogi'r broses o ddwyn y blaenoriaethau strategol i ben. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Cynnal diogelwch ariannol;
2. Cefnogi, annog a datblygu ein pobl;
3. Gwella ein hystad a'n seilwaith;
4. Cynnal trefniadau llywodraethu da;
5. Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol;
6. Hyrwyddo cydraddoldeb; a
7. Ceisio gwella'n barhaus.

Mae yna gynlluniau penodol, mesurau llwyddiant, a dangosyddion perfformiad allweddol ynghlwm wrth bob un o'r blaenoriaethau strategol a'r galluoogydd.

Caiff perfformiad y sefydliad ei fonitro mewn modd systematig yn unol â'r 'mesurau llwyddiant' ar gyfer y pedwar blaenoriaeth strategol a nodir yng Nghynllun Strategol y Brifysgol. Mae Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad y Cyngor a'r Cyngor ei hun yn cael adroddiad blynyddol ar berfformiad. Yn yr adroddiad blynyddol, caiff pob mesur llwyddiant ei rannu i ddangos y targed a'r lefelau perfformiad 'gwirioneddol', a rhoddir cod lliw iddo i ddangos a yw wedi cael ei gyflawni ai peidio. Mae gwybodaeth naratif yn darparu cyd-destun ac esboniadau lle nad yw'r targedau wedi cael eu cyflawni. Roedd yr adroddiad ar gyfer 2020-21, a gyflwynwyd yn 2021-22, yn dangos perfformiad da yn y rhan fwyaf o feysydd.

Ar ran y Cyngor, mae'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad hefyd yn goruchwylio perfformiad yn unol â deg Dangosydd Perfformiad Allweddol. Darperir adroddiadau monitro ym mhob cyfarfod, a chyflwynir asesiad a naratif blynyddol yng nghyfarfod olaf bob blwyddyn. Roedd asesiad 2021-22 yn dangos perfformiad da neu foddhaol yn naw Dangosydd Perfformiad Allweddol a pherfformiad gwannach mewn un maes.

Lle bo hynny'n bosibl, caiff perfformiad ei fesur yn feintiol gan ddefnyddio HESA neu ddata eraill a feincnodwyd ac a ddilyswyd yn allanol.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL**Polisiau buddsoddi a bancio moesegol**

Disgwylir i Gyngor y Brifysgol (sef ymddiriedolwyr cronfeydd gwaddol y Brifysgol) weithredu er budd pennaf buddiolwyr y cronfeydd y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r buddiolwyr yn cynnwys y Brifysgol ei hun, y staff, a'r myfyrwyr. Polisi'r Cyngor yw anelu at yr enillion ariannol gorau posibl ar fuddsoddiadau, sy'n gyson â phroffil risg priodol, a gall gau buddsoddiadau allan o'r portffolio buddsoddiadau os nad yw nodau'r cyrff dan sylw yn gydnaws â'i amcanion.

Cyfleoedd cyfartal

Mae ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i nodi yn y *Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20*, ac yn gyson â'i chenhadaeth i Drawsnewid Addysg a Thrawsnewid Bywydau. Cynwysoldeb yw un o'i phrif themâu cynllunio; mae wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm ac yn gyson â Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, sef Cymru fwy cyfartal. Nod y Brifysgol yw creu diwylliant o ddidwylledd a pharch lle caiff rhwystrau i'r rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig eu nodi a'u chwalu. Mae am i'w phobl deimlo'n ddiogel ac y rhoddir gwerth arnynt, ac mae am iddynt gyflawni eu llawn botensial er budd yr unigolyn, y sefydliad a chymunedau ehangach. Mae am hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, arferion gweithio teg, a pherthnasoedd rhyngpersonol da ymhlith ei staff a'i myfyrwyr.

Polisi cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd y modd y mae'r Brifysgol yn cynnal busnes. Mae'r Brifysgol yn credu mai cynaliadwyedd amgylcheddol yw sylfaen cynaliadwyedd economaidd a chymdeithasol ehangach, a'i fod yn rhan annatod o arfer sefydliadol da. Mae ganddi ddyletsydd i'w bodloni ei hun fod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r amgylchedd wrth iddi gynnal ei holl weithrediadau a gweithgarwch.

Mae INSPIRE (Sefydliad Arfer Cynaliadwy, Arloesi, Ymchwil a Menter) wedi parhau i gefnogi'r broses o wreiddio cynaliadwyedd yng nghwricwlwm y Brifysgol ar bob lefel, yn ogystal â pharhau i ymgysylltu â'r nifer mwyaf o sefydliadau i ddatblygu arfer cynaliadwy ledled pob sector yng Nghymru a thu hwnt.

Ffioedd dysgu

Ym mis Awst 2022, cyhoeddodd y Brifysgol ei Chynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2023-2025, gan bennu ffi dysgu o £9,000 ar gyfer israddedigion llawn-amser. Mae'r lefel hon yn gyson â'r ffioedd a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol o fewn paramedrau Llywodraeth Cymru.

Polisi tâl blynyddol

Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi ei pholisi tâl blynyddol ar ei gwefan a gellir ei weld drwy'r ddolen ganlynol: [annual-pay-policy-statement-2020-21-final-june-2021-cym.pdf](https://www.uwtsd.ac.uk/annual-pay-policy-statement-2020-21-final-june-2021-cym.pdf) (uwtsd.ac.uk)

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL**Trosolwg o'r Flwyddyn 2021-2022**

Mae'n bleser gennyf ddarparu trosolwg o gyflawniadau allweddol y Brifysgol yn ystod 2021-2022. Roedd dathlu'r Daucanmlwyddiant yn thema amlwg wrth i ni barhau i wneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r cynllun strategol. Mae i Gynllun Strategol y Brifysgol bedair blaenoriaeth: Rhoi Dysgwyr Gyntaf; Rhagoriaeth mewn Addysgu, Ysgolheictod ac Ymchwil Gymhwysol; Creu Cyfleoedd trwy Bartneriaethau; a Phrifysgol i Gymru. Trawsnewid sydd wrth wraidd y cynllun, gan adeiladu ar werthoedd craidd ein sefydliadau hanesyddol ac ailddiffinio'r rheiny i adlewyrchu anghenion Cymru 'nawr ac yn y dyfodol.

Un o lwyddiannau mawr y flwyddyn oedd canlyniad adolygiad yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd (QAA) o'r sefydliad ym mis Mehefin. Nododd yr adolygiad fod gan y Brifysgol drefniadau cadarn ar waith i ddiogelu safonau academiaidd, i reoli ansawdd academiaidd, ac i wella profiad y myfyriwr. Roedd hefyd yn canmol cyflawniadau'r Brifysgol mewn sawl maes, er enghraifft gwneud penderfyniadau a gwella'r dysgu a'r addysgu ar sail data.

Roedd canlyniadau'r Brifysgol yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF2021) yn eithriadol o galonogol gan i PCYDDS gael ei chydabod am gynhyrchu ymchwil sy'n arwain y byd ac sy'n rhagorol yn rhyngwladol. O bwys yw'r ffaith bod y Brifysgol wedi cael ei sgorio'n bedwaredd yng Nghymru ar gyfer effaith, ac y barnwyd bod 74% o ymchwil y Brifysgol yn cael effaith eithriadol a sylweddol iawn ar gymdeithas, diwylliant, a diwydiant. Dyfarnwyd gradd 4* (yn arwain y byd) neu 3* (yn rhagorol yn rhyngwladol) i 49% o'r ymchwil, a hynny ym meysydd Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, Celf a Dylunio, Addysg, Ieithoedd a Llenyddiaeth Celtaidd, a Seicoleg. Cafodd 100% o'r ymchwil a gyflwynwyd ar gyfer Ieithoedd a Llenyddiaeth Celtaidd radd 4* (eithriadol) neu 3* (sylweddol iawn) o ran ei heffaith.

Mae enw da hirsefydlog y Brifysgol am Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn darparu nifer o gyfleoedd i arwain newid trawsnewidiol a chefnogi polisiau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig ag addysg athrawon, diwygio'r cwricwlwm, a gwella ysgolion. Ym mis Mehefin, lansiodd Llywodraeth Cymru brosiect tair blynedd newydd ar y cyd â'r Brifysgol a Phrifysgol Glasgow, ac iddo'r nod o gefnogi ysgolion trwy'r broses o drawsnewid y cwricwlwm, a hynny gan ganolbwyntio ar gynnydd ac asesu. Nod Camau i'r Dyfodol yw helpu i ddatblygu gwybodaeth newydd, a chefnogi'r broses o wireddu Cwricwlwm i Gymru trwy ddwyn athrawon, partneriaid addysgol, ac ymchwilwyr ynghyd i gyd-

ddatblygu galluoedd, ffyrdd o feddwl ac adnoddau newydd i adeiladu ar arferion presennol. Yn ganolog i'r broses hon fydd integreiddio cynnydd mewn dysgu, cwricwlwm, asesu ac addysgeg.



Yr Athro Medwin Hughes, Jeremy Miles, AS, Yr Athro Dylan Jones

Roedd llesiant myfyrwyr a staff yn parhau i fod yn thema ganolog yn ein cynlluniau trwy gydol y flwyddyn, ac roeddem yn falch o lansio Uned Llesiant Myfyrwyr yn rhan o'n Strategaeth Iechyd a Llesiant Myfyrwyr. Mae'r Uned yn darparu cymorth iechyd a llesiant meddwl ar gyfer myfyrwyr, gan ddilyn dull sydd wedi'i fabwysiadu gan y GIG a'i gymeradwyo gan Fframwaith StepChange, ac a gynhyrchwyd gan Universities UK a Student Minds. Mae'r fframwaith yn annog myfyrwyr i gymryd rhan lawn yn eu taith cymorth, ac mae'n adlewyrchu arfer gorau ledled y GIG a'r sector Addysg Uwch. Mae'r model a fabwysiadwyd yn sicrhau bod gennym amrywiaeth o wasanaethau ar gael i'r myfyrwyr yn unol â'r angen, gan gynnwys Cwnsela, Cyngor ar Lesiant, Atal, Hunangymorth â Chefnogaeth, a Gwasanaethau Mynediad Agored. Buddsoddiwyd yn sylweddol yn y gwaith o ddatblygu adnoddau a galluoedd yn ein Huned Gwasanaethau Myfyrwyr er mwyn galluogi dull Prifysgol gyfan o ymdrin â llesiant a diogelu. Mae ymagwedd newydd at y Fforwm Diogelu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, hefyd wedi cael ei mabwysiadu, a sefydlwyd rhwydwaith o swyddogion diogelu.



Gwilym Dyfri Jones, Yr Athro Medwin Hughes, yr Hybarch Randolph Thomas a James Barrow, gyda myfyrwyr St Vincent a'r Grenadines.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Ym mis Medi, croesawodd y Brifysgol fyfyrwyr o St Vincent a'r Grenadines (SVG) i astudio amrywiaeth o raglenni a nodwyd gan eu llywodraeth yn rhai a fyddai o fudd i ddatblygiad eu gwlad yn y dyfodol. Mae'r rhaglenni'n cynnwys Hanes, Datblygu Rhyngwladol, a Gwleidyddiaeth Fyd-eang, yn ogystal ag Addysg Plant yn y Blynnydoedd Cynnar, Mesur Meintiau, a Pheirianneg Sifil. Roeddem yn falch iawn o ddatblygu cynllun ysgoloriaeth gyda Dr Ralph Gonsalves, Prif Weinidog SVG, yn dilyn trafodaethau â'i Fawrhydi, y Brenin Charles – Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru ar y pryd – yn dilyn ffrwydrad y llosgfynydd ar St Vincent ym mis Ebrill 2021. Roedd y myfyrwyr, sydd wedi'u lleoli ar gampws Llanbedr Pont Steffan, hefyd yn rhan o gynhyrchiad arbennig o Songs of Praise ar y BBC, a ddarlledwyd ym mis Chwefror i ddatlhu'r daucanmlwyddiant. At hynny, mae'r Brifysgol wedi meithrin cysylltiadau ymchwil â Dr Adrian Fraser, hanesydd amlwg yn SVG ar hanes Thomas Phillips, sef un o gymwynaswyr Coleg Dewi Sant a oedd yn berchen ar blanhigfa Camden Park ar yr ynsoedd. Mae ymchwil Dr Fraser yn defnyddio cofnodion lleol i archwilio gwaddolion modern y blanhigfa yn rhan o'i ymchwil ei hun i gaethwasiaeth. Mae'r gwaith yn cael ei gynhyrchu ar ffurf ffilm gan y gwneuthurwr ffilmiau o St Vincent, Akley Olton.

Roeddem hefyd yn falch o gyhoeddi ysgoloriaethau ôl-raddedig i alluogi myfyrwyr o Wcráin, sydd wedi cael eu dadleoli gan y rhyfel yn eu gwlad, i barhau â'u hastudiaethau ar gampws Llanbedr Pont Steffan y Brifysgol. Am ei bod yn gymuned academiaidd ryngwladol, mae'r Brifysgol yn croesawu myfyrwyr a staff o bob cwr o'r byd, ac mae ganddi gysylltiadau gweithredol â gwledydd ledled y byd, gan gynnwys ein partneriaeth gydweithredol â Phrifysgol Alfred Nobel yn Dnipro, Wcráin, y mae ei myfyrwyr a'i staff yn ein meddyliau a'n gweddïau.

Gwnaeth y Brifysgol gynnydd yn achos nifer o fentrau a atgyfnerthodd ei henw da am ei chynnig galwedigaethol berthnasol sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth. Ein nod yw gwella cyflogadwyedd graddedigion a nifer y busnesau newydd a gychwynnir gan raddedigion, a hynny trwy greu rhagor o gyfleoedd i fyfyrwyr weithio gydag academyddion a busnesau i archwilio syniadau a chreu busnesau, cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy newydd. Rwy'n hynod o falch bod y Brifysgol wedi cael ei henwi'n Brifysgol Entrepreneuriaidd y Flwyddyn yn Ewrop yn Seremoni Wobrwyo E Driphlyg Ewrop 2022 yn Florence, yr Eidal, a bod yr Athro David Kirby hefyd wedi cael gwobr Cyfraniad Oes i gydnabod ei arweinyddiaeth yn y maes a'i waith parhaus yn cefnogi myfyrwyr yn y Brifysgol.

Yn ystod y flwyddyn, hyrwyddwyd enw da'r Brifysgol ymhellach o ran ymgysylltu â chyflogwyr, a hynny trwy gyfrwng mentrau megis Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru, yr Academi Sgiliau Gweithgynhyrchu Uwch, a'r rhaglen Gweithgynhyrchu Peirianneg Dylunio Uwch (MADE) a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhaglenni hyn yn arwain y ffordd o ran mynd i'r afael â diffyg sgiliau ac anghenion hyfforddi, a hynny trwy ddod â chwmnïau i mewn i'r Brifysgol i fanteisio ar arbenigedd ein staff a'r cyfleusterau celf o'r radd flaenaf. At hynny, mae rhaglenni megis prentisiaethau gradd yn allweddol i hyrwyddo rhyngweithiad rhwng diwydiant a'r byd academiaidd. Mae'r Brifysgol wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr sy'n ymgymryd â phrentisiaethau gradd trwy raglenni arloesol megis y prentisiaethau gradd digidol, sydd â'r nod o fynd i'r afael â phrinder sgiliau digidol yn y gweithlu. Mae cynlluniau o'r fath, sydd hefyd yn cynnwys rhaglenni cydweithredol gyda heddluoedd yng Nghymru, yn darparu sgiliau a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chyfleoedd real o ran gyrfa.



Yr Athro David Kirby, Yr Athro Cysylltiol Kath Penaluna, Nicola Powell a Dr Shehla Kahn.

Yn ystod y flwyddyn, ail-lansiwyd y Sefydliad Arfer Cynaliadwy, Arloesi, Ymchwil a Menter (INSPIRE) i ddarparu ffocws ar gyfer ymgysylltu â busnes yn y Brifysgol. Y nod yw cysylltu staff, myfyrwyr a chanolfannau arbenigol y Brifysgol â busnes a chymunedau i greu effaith. Mae cylch gwaith INSPIRE yn cynnwys ymgysylltu â busnes, datblygu ymchwil, menter, ac ymgysylltu dinesig.

Ar y cyd â phartneriaid allweddol, mae'r Brifysgol wedi datblygu portffolio o raglenni a gwasanaethau iechyd a llesiant ar draws ein disgyblaethau. Ym mis Medi, llofnodwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddarparu cyfleoedd ymchwil ac arloesi ar gyfer Canolbarth a Gorllewin

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL



Steve Moore a'r Athro Medwin Hughes gyda chyd-weithwyr y Brifysgol a BIP Hywel Dda.

Cymru. Mae'r Brifysgol yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid, gan gynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghylch menter Pentre Awel. Bydd y datblygiad, sy'n rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, yn darparu cyfleusterau cyhoeddus, academiaidd, busnes ac iechyd ar un safle yn Llanelli i hybu cyflogaeth, addysg, darpariaeth hamdden, ymchwil a darpariaeth iechyd, a sgiliau a hyfforddiant. Bydd yn cynnwys canolfan sgiliau sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant iechyd a gofal, yn ogystal â chyfleusterau ymchwil a chanolfan gyflenwi glinigol i ddarparu gofal amlddisgyblaethol.

Roedd y Brifysgol yn falch o fod yn rhan o fenter a gafodd arian trwy Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Nod Hwb Caerfyrddin yw dod â gwasanaethau iechyd, llesiant, dysgu a diwyllianol ynghyd o dan yr un to. Bu i Gyngor Sir Caerfyrddin, yn gweithio gyda'r Brifysgol, Cyngor Sir Penfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a darparwyr gwasanaethau eraill, sicrhau £19.9 miliwn i greu hybiau canol tref er budd pobl a busnesau lleol, ac i greu cymysgedd o ffyrdd mwy amrywiol a chynaliadwy o ddefnyddio canol trefi. Mae'n dal i fod yn gynnar iawn yn natblygiad y fenter gyffrous hon, a rhagwelir y bydd yn cynnwys gofod hamdden, diwylliant ac arddangos o'r radd flaenaf, ochr yn ochr â gwybodaeth am iechyd a thwristiaeth a gwasanaethau cwsmeriaid, yn ogystal â mynediad at addysg bellach ac uwch a ddarperir gan Grŵp PCYDDS, sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr yn goleg cyfansoddol.

Mae lleoliad ein campysau yn galluogi'r Brifysgol i chwarae rhan sylweddol ym mywyd yr ardal. Mae ein campysau'n gweithredu fel angorau economaidd, diwyllianol a chymdeithasol strategol, gan atgyfnerthu ymdeimlad o le a chreu'r amodau lle y gall pobl a chymunedau ffynnu. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y profostiaid a'u cyd-weithwyr i weithio gydag ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol i ddiffinio'r hyn a



Lansio Canolfan Tir Glas.

gynigir gan bob campws, a hynny er mwyn hyrwyddo eu cymeriad unigryw a'u harwahanrwydd, yn ogystal â sicrhau bod darpariaeth y Brifysgol yn mynd i'r afael â'r sgiliau gofynnol yn eu hamgylchedd uniongyrchol.

Lansiwyd Canolfan Tir Glas yn ystod y flwyddyn, sef menter ac iddi'r nod o ddarparu gweledigaeth newydd gyffrous ar gyfer dyfodol campws Llanbedr Pont Steffan, menter sy'n adeiladu ar enw da byd-enwog y campws o fod yn ganolfan ar gyfer astudio'r Dyniaethau ac ar gyfer cynnal deialog amlddiwyllianol a rhyng-grefyddol. Roeddem yn falch o gael cymorth gan Gyngor Sir Ceredigion a Rhaglen Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y fenter. Bydd y Brifysgol a'i phartneriaid yn datblygu canolfannau rhagoriaeth i gyflwyno ystod o raglenni sy'n gysylltiedig â sgiliau, cynaliadwyedd, a chydnerthedd gwledig. Bydd hyn yn cynnwys mentrau gwledig a chanolfannau bywd cymunedol, Canolfan Cydnerthedd a Harmoni Cymru mewn partneriaeth â Hwb Cydnerthedd Llanbedr Pont Steffan, yn ogystal â chanolfan bren Cymru mewn partneriaeth â Wood Knowledge Wales i hyrwyddo dulliau modern a chynaliadwy o adeiladu ac iddynt y nod o ddatgarboneiddio'r diwydiant adeiladu yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd 2021, roeddem yn falch o lansio Sefydliad y Ddynoliaeth Fyd-eang dros Heddwch mewn partneriaeth â Sefydliad Heddwch Guerrand-Hermès (GHFP), a hynny o dan Gyfarwyddiaeth yr Athro Scherto Gill, a enillodd Wobr Sefydliad Heddwch Schengen a Heddwch Lwcsembwrg yn ddiweddar.

Roeddwn yn eithriadol o drist o glywed am farwolaeth yr Hybarch Feistr Chin Kung, sef sefydlydd Sefydliad Addysgol Amlddiwyllianol Chin Kung. Mae partneriaeth y Brifysgol â'r Sefydliad wedi arwain at ddatblygu'r Academi Sinoleg a nifer o fentrau rhyngwladol sy'n ymwneud â harmoni a deialog rhyng-grefyddol, at fuddsoddiad yn seilwaith campws

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL



Dr Jeremy Smith, Yr Athro Medwin Hughes, Yr Hybarch Randolph Thomas, Mr Sharif Horthy, Yr Athro Scherto Gill.

Llanbedr Pont Steffan, yn ogystal ag at bartneriaethau â sefydliadau megis UNESCO.

Mae cynnig nodedig campws Caerfyrddin yn canolbwyntio ar themâu addysg, plant a phobl ifanc, iechyd, gofal a llesiant, creadigrwydd, a natur wledig. Mae meithrin sgiliau entrepreneuriaidd a sgiliau menter ein myfyrwyr, ynghyd â'u hymgysylltiad â busnes a diwydiant, yn allweddol i'r hyn a gynigir trwy fentrau megis Canolfan S4C yr Egin. Mae'r Egin, sy'n gartref i S4C, yn ogystal ag amrywiaeth o gwmnïau yn y diwydiannau creadigol a digidol, eisoes wedi'i sefydlu ei hun ym mywyd yr ardal. Bu'r Brifysgol yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o gwmnïau yn Yr Egin i ddatblygu ein darpariaeth ac i goleddu heriau'r bedwerydd chwyldro diwydiannol, sy'n dibynnu'n fawr ar gydweithredu a datblygiadau cyflym mewn technoleg.

Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn falch o lansio'r Academi Chwaraeon, sy'n fenter ar y cyd rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i gefnogi myfyrwyr sy'n ymwneud â chwaraeon perfformiad uchel i gynnal a datblygu eu perfformiad. Bydd yr Academi yn galluogi myfyrwyr ar draws campysau a rhaglenni PCYDDS i gyrchu cyfleusterau arbenigol y Brifysgol, ac i gystadlu yng nghyngreiriau Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS).

Mae gan Gampws y Brifysgol yn Abertawe enw da am arloesedd a menter. Yn benodol, mae'r portffolio yn galluogi'r Brifysgol i gynnig dewis amrywiol o wasanaethau – o ymchwil ac arloesedd trawsfudol, i sgiliau a menter technegol cymhwysol, gan gefnogi cyflogwyr, hwyluso'r broses o greu swyddi, a denu buddsoddiad i'r ardal.

Un o'r datblygiadau allweddol yn Abertawe yw'r Matrics Arloesi, sef y cam nesaf yn Ardal Arloesi y Brifysgol. Y nod yw creu cymdogaeth fywiog lle y gall y



Yr Olympiad, y chwaraewr rygbi rhyngwladol a'r cyn-fyfyriwr Jaz Joyce yn lansio'r Academi Chwaraeon.

Brifysgol gydleoli a chydweithredu â busnesau arloesol a chanolfannau ymchwil. Mae'r datblygiad yn ganolog i uchelgais y Brifysgol, a bydd yn darparu llwyfan newydd i ymchwil a chyfnewid gwybodaeth gysylltu â mentrau rhyngwladol traws-sector, busnesau bach a chanolig, micro-fentrau, entrepreneuriaid, a buddsoddwyr, a'u cefnogi, i ysgogi twf masnachol ar gyfer economi Cymru sy'n ehangu ac yn cael ei grymuso'n ddigidol. Bydd y Matrics Arloesi, a ariennir trwy bartneriaeth strategol rhwng y Brifysgol a Bargen Ddinesig Bae Abertawe, yn annog ac yn cefnogi'r broses o ddatblygu economi gynaliadwy, dan arweiniad arloesedd, a fydd yn sicrhau cynnydd sylweddol yng ngallu Cymru i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o adeiladu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth, arloesedd ac entrepreneuriaeth.

Roeddwn yn falch bod y Brifysgol wedi parhau i ddarparu cymorth ymarferol i gyflogwyr, er gwaethaf heriau'r pandemig. Ym mis Gorffennaf, trefnodd MADE Cymru Uwchgynhadledd Diwydiant, i archwilio'r modd y gall busnesau gweithgynhyrchu Cymru newid heriau ôl-COVID yn gyfleoedd trwy gydweithio â'r byd academiaidd. Agorwyd yr Uwchgynhadledd gan Julie James, AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd, a draddododd y brif araith, 'Beth yw rôl diwydiant Cymru o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd? A sut y gall bod yn gynaliadwy fod yn dda ar gyfer busnes?'

Parhaodd Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru i gynhyrchu gwaith arobryn. Rwy'n hynod o falch bod y tîm a ddatblygodd y system cymorth anadlu jet printiau 3D i helpu'r GIG yn ei frwydr yn erbyn COVID-19, wedi ennill Gwobr Arloesedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg 2022 yn seremoni fawreddog Gwobrau Dewi Sant yng Nghaerdydd.

Parhaodd campysau'r Brifysgol yn Llundain a Birmingham i ffynnu trwy gefnogi amrywiaeth eang o bobl i gyrchu addysg uwch yn eu cymunedau.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL



Tim buddugol PCYDDS gyda'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, AS.

Yn ystod y flwyddyn, agorodd y Brifysgol ail gampws yn Birmingham.

Roedd seremonïau graddio eleni yn dathlu llwyddiant ein myfyrwyr yn 2020, 2021 a 2022. Roedd y rhain yn ddigwyddiadau arbennig iawn ac yn ddathliad gwirioneddol o benderfyniad ein myfyrwyr i gyflawni eu dyfarniadau yn yr amgylchiadau heriol a achoswyd gan y pandemig. Yn dilyn absenoldeb o ddwy flynedd, roeddwn yn falch o allu cyflwyno gwobrau i'r myfyrwyr hynny a oedd wedi graddio o'r sefydliad hwn yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Roedd hefyd yn bleser gallu trefnu seremonïau graddio yn Llundain a Birmingham am y tro cyntaf, a alluogodd teuluoedd a ffrindiau rhagor o'n myfyrwyr i ymuno yn y dathliadau yn y lleoliadau hyn.

Roeddwn hefyd yn falch iawn o'r cyfle i gyflwyno Cymrodoriaeth Connop Thirlwall i'r Athro Catrin Thomas am ei harweinyddiaeth eithriadol ac amlwg yn y Brifysgol. Yr Athro Thomas oedd y Dirprwy Is-Ganghellor a ymddeolodd ddiwedd y flwyddyn academiaidd ar ôl gwasanaethu'r Brifysgol a'i rhagflaenydd, Coleg y Drindod Caerfyrddin, am dros 30 mlynedd.

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi cipolwg ar gyflawniadau'r staff a'r myfyrwyr yn ystod y flwyddyn. Rwy'n ddiolchgar iddynt, ac i Gorff Llywodraethu y Brifysgol, am eu cymorth parhaus a gwerthfawr, ac, wrth i ni 'nawr symud ymlaen i gam nesaf ein taith, edrychwn ymlaen yn hyderus at y dyfodol ac at lwyddiant ein myfyrwyr, ein staff a'n cyn-fyfywyr.

Yr Athro Medwin Hughes, DL
Is-Ganghellor



Yr Athro Catrin Thomas yn cael Cymrodoriaeth Connop Thirlwall.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Prif risgiau ac ansicrwyddau

Mae'r prif risgiau ac ansicrwyddau sylfaenol y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu ac sy'n parhau'n gyson â blynyddoedd blaenorol fel a ganlyn:

- Rheoli llifau arian yn ystod y flwyddyn, yn arbennig yn sgil effaith amseriad taliadau'r ffioedd dysgu ar y balansau arian parod a ddelir yn y Grŵp ar unrhyw adeg, er bod y balansau arian parod yn parhau i fod yn sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn (£26.1 miliwn);
- Yn unol â'r uchod, rheoli'r llifau arian a balans net yr asedau i fodloni'r cyfamodau bancio a bennwyd yn rhan o'r trefniadau benthyca diogel gyda banc yr HSBC;
- Recriwtio a chadw myfyrwyr cartref a myfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd, o ystyried yr amgylcheddau gwleidyddol ac economaidd ansicr a'r tueddiadau demograffig;
- Rheoli perfformiad ledled holl endidau a lleoliadau cymhleth ac amrywiol y Grŵp, a chysoni gweithgarwch, lle bo hynny'n briodol, i gyflawni enillion strategol; a
- Datblygu Strategaeth Ystadau y Grŵp i gefnogi'r broses barhaus o integreiddio a datblygu'r Brifysgol ar gyfer y dyfodol.

Gwelodd 2021-2022 y Brifysgol yn symud i amgylchedd ôl-COVID lle cafodd y cyfyngiadau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ystod 2020 a 2021 eu llacio ac yna eu dileu. Mae canlyniadau 2021-2022 yn adlewyrchu'r amgylchedd newidiol hwn a'r broses o ddychwelyd at fodolau ar y campws a hybrid o ddarparu'r addysgu.

Er nad yw risgiau sylfaenol COVID-19 yn brif risgiau i'r Brifysgol mwyach, mae'r rheolwyr yn cydnabod y gallai'r sefyllfa hon newid, ac yn dal gafael ar gynlluniau lliniaru rhag ofn y byddant yn ofynnol.

Mae effeithiau tymor hwy COVID-19 a'r rhyfel yn Wcráin yn parhau i ddarparu risgiau i fodel gweithredu'r holl ddarparwyr Addysg Uwch, ac mae'r pwysau chwyddiannol sylweddol ar gyfleustodau, costau staff a gwariant gweithredu cyffredinol yn effeithio ar gyllidebau ar gyfer 2022-2023 a rhagolygon ar gyfer 2023-2024 a thu hwnt.

Mae'r Brifysgol yn prynu ei hynni trwy'r consortiwm prynu TEC, ac mae wedi sicrhau contractau pris sefydlog trwy gydol 2022-2023; bydd hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ac yn golygu risg ar gyfer blynyddoedd i ddod wrth i'r contractau hyn ddod i ben. Mae'r Brifysgol o'r farn y bydd ei buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni a newidiadau i arferion gweithio i leihau'r defnydd yn helpu i liniaru rhywfaint ar y risg hon.

Yn achos costau eraill, mae'r Brifysgol yn cynnal polisi o bennu cyllideb ddarbodus a phroses rheoli costau fanwl i sicrhau bod cyllid y Brifysgol yn cael ei wario yn y modd cywir ac mewn ffordd sy'n cefnogi darpariaeth y gwasanaeth presennol ac anghenion y Brifysgol yn y dyfodol.

Wrth i'r Brifysgol ddechrau'r flwyddyn academaidd ac ariannol newydd, ystyrir mai'r tair prif risg ariannol yw:

- Recriwtio a chadw myfyrwyr;
- Sicrhau bod cyfleusterau campysau'r Brifysgol yn cael eu cynnal mewn cyflwr diogel o ran COVID-19 wrth i weithgarwch ar y campysau gynyddu;
- Sicrhau bod pwysau chwyddiannol yn cael ei reoli yn y modd cywir.

Roedd y broses recriwtio yn nhymor cyntaf 2022-2023 yn cyd-fynd â'r gyllideb; fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod y risgiau cadw yn achos myfyrwyr sy'n ymuno yn y flwyddyn gyfredol a hefyd yn achos y rheiny a oedd wedi cwblhau blynyddoedd 1 a 2 erbyn mis Gorffennaf 2022. Mae'r Brifysgol yn gweithio mewn modd rhagweithiol gyda phoblogaeth ei myfyrwyr a'i chyflogeion i ddarparu profiad dysgu boddhaus ac ystyrlon. Mae arolygon pwls myfyrwyr yn cael eu defnyddio i fesur effeithiolrwydd model y Brifysgol.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Mae'r rhagolygon uniongyrchol ar gyfer recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yn llai sicr, ac mae cyfyngiadau parhaus yn rhwystr i fyfyrwyr rhag dod i mewn i'r DU. Mae incwm y Brifysgol gan fyfyrwyr rhyngwladol yn gymharol isel ond mae'n dal i fod yn ffrwd incwm bwysig ac yn un a fydd yn ysgogi twf ar gyfer y Brifysgol yn y dyfodol. Mae'r Brifysgol o'r farn bod y galw am addysg yn y DU yn parhau'n gryf ac mai digwyddiad dros dro fydd unrhyw ddiffygion mewn incwm yn 2020-2021 a 2021-2022. Cymerwyd camau lliniaru trwy gyflwyno cyrsiau newydd a mynediad at farchnad rhyngwladol newydd i wrthweithio'r gostyngiad a ragwelir yn incwm rhyngwladol traddodiadol y Brifysgol.

Wrth reoli cyfleusterau campws y Brifysgol, mae'r tîm ystadau yn parhau i flaenoriaethu ymdrechion i sicrhau bod y safleoedd amrywiol yn bodloni'r lefelau gofynnol o ran bod yn ddiogel rhag COVID, a'u bod yn cael eu haddasu i fanteisio'n llawn ar fodel darparu hybrid ac iddo fwy o ddefnydd o dechnoleg.

Mae holl adrannau'r Brifysgol yn gweithio tuag at reoli'r risgiau a achosir gan COVID-19 a'r amgylchedd ôl-COVID, a hynny i sicrhau bod trefniadau addysgu, gweithrediadau a phrosesau cymorth y Brifysgol yn parhau ac yn caniatáu iddi gyflawni ei datblygiadau strategol yn y dyfodol agos ac yn yr hirdymor.

Rhagolygon y dyfodol

Mae'r amgylchedd presennol yn y sector yn heriol, ond mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei hystad ac mewn gwella ansawdd profiad ei myfyrwyr, fel yr adlewyrchir yn ei pherfformiad yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr. At hynny, mae'n datblygu darpariaeth a dulliau cyflwyno newydd a anelir at ddatblygu canolfannau dysgu newydd, ac mae'r rhain yn sicrhau twf i wneud iawn am rywfaint o'r gostyngiad a brofwyd yn incwm ffioedd arall. Mae hyn yn trawsnewid portffolio'r Brifysgol, a bydd, yn y tymor canolig i'r hirdymor, yn sicrhau ei chynaliadwydd a'i llwyddiant. Yn y byrdymor, mae cynhyrchu gwargedion arian parod yn amcan allweddol, ac, i gyflawni hyn, mae'r Brifysgol wedi cymryd camau penodol i leihau costau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â lefelau incwm.

Datgan gwybodaeth i'r archwilydd

O ran pob un o'r aelodau a oedd yn dal swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn:

- a) nid oes yna unrhyw wybodaeth archwilio nad yw archwilydd y Brifysgol yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod wedi cymryd yr holl gamau sy'n ofynnol ganddo i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilydd y Brifysgol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL**Adolygiad Ariannol**

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol a Chadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Chynllunio yn cyflwyno adolygiad o berfformiad ariannol y grŵp ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2022.

Mae crynodeb o'r perfformiad ariannol i'w weld yn y tabl isod.

Crynodeb o'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	Symudiad
	£'000	£'000	£'000
Incwm	180,870	173,871	6,998
Gwariant	(197,185)	(165,667)	(31,518)
Elw o Werthu Asedau	232	36	197
Gostyngiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi	(27)	(1,872)	1,845
Colled o fuddsoddiadau	(254)	811	(1,066)
Cyfran o'r golled gweithredu mewn perthynas â chwmnïau cyswllt	-	-	-
Trethiant	(9)	(46)	37
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	(16,373)	7,134	(23,507)
Enillion/(colledion) actiwaraid mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	53,538	20,880	32,658
Enillion mewn perthynas ag ailbrisiadau treftadaeth	-	-	-
Cyfanswm yr incwm/(y golled) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	37,165	28,014	9,151

Mae £10.4 miliwn o gyfanswm yr incwm cynhwysfawr wedi'i briodoli i ganlyniadau'r Brifysgol, mae £27.2 miliwn wedi'i briodoli i'r colegau AB ac mae (£0.5 miliwn) wedi'i briodoli i'r is-gwmnïau eraill yn y grŵp.

Roedd y canlyniadau cyfunol wedi nodi diffyg o £16.4 miliwn ar gyfer y flwyddyn (2021: gwaged o £7.1 miliwn), ynghyd â chyfanswm incwm cynhwysfawr o £37.2 miliwn (2021: £28.0 miliwn). Mae'r canlyniad hwn yn cwmpasu pob gweithgarwch, ac eithrio Undeb y Myfyrwyr, sy'n gorff annibynnol.

Fel y nodir o dan adran pensiynau yr adolygiad ariannol, mae'r diffyg a gofnodir yn bodoli ar ôl cydnabod cynnydd o £23.9 miliwn (2021 £2.6 miliwn) yn narpariaeth pensiwn Cynllun Blwydd-daliadau y Prifysgolion (USS), ac mae cyfanswm yr enillion cynhwysfawr yn bodoli ar ôl cydnabod cynnydd actiwaraid o £53.5 miliwn (2021: £20.1 miliwn) mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r rhwymedigaethau pensiwn mewnol.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth ac, yn hynny o beth, mae yna nifer o weithgareddau anghreiddiol ac eitemau nad ydynt yn arian parod sy'n dylanwadu ar y gwaged a gofnodir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Mae natur yr eitemau hyn yn gyson â'r flwyddyn flaenorol, fel y gwelir yn y tabl isod; fodd bynnag, mae gwerth yr eitemau yn amrywio ar hyd y blynyddoedd.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Mae'r brifysgol o'r farn bod y sefyllfa weithredu sylfaenol yn fesur priodol o'i pherfformiad, a cheir crynodeb o effaith y rhain yn y tabl isod:

Perfformiad Gwaelodol wedi'i Addasu

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021
	£'000	£'000
Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	37,165	28,014
Ychwanegu symudiad actiwaraid ar y cynlluniau pensiwn	(53,538)	(20,880)
Didynnu incwm nad yw'n incwm craidd		
Grantiau cyfalaf a gafwyd	(1,050)	(5,165)
Y gwaged ar ôl cael gwaged ar asedau sefydlog	(232)	(36)
Ychwanegu gwariant nad yw'n wariant craidd		
Costau ac addasiadau pensiwn net nad ydynt yn arian parod	26,875	4,980
Ailbrisiadau rhwymedigaeth ddeilliannol	(1,564)	(855)
Costau ailstrwythuro	246	155
Taliadau amhariad ar eiddo	-	3,206
Gostyngiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi	27	1,872
Colled o fuddsoddiadau	254	(811)
(Diffyg)/gwaged gwaelodol	8,633	10,480

Pennodd y Brifysgol gyllideb a chynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn, a oedd yn adlewyrchu'r broses o ddychwelyd at ddarparu mwy o'r gwasanaethau ar y campws a model gweithrediadau hybrid gwirioneddol wrth i'r DU symud i amgylchedd ôl-COVID. Roedd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yn adlewyrchu'r angen i sefydlu sylfaen gostau briodol i gefnogi'r model gweithrediadau hybrid hwn ac i sicrhau bod twf incwm y Brifysgol yn y blynyddoedd diwethaf yn gynaliadwy ac yn cael ei ategu gan fuddsoddiad mewn costau staff a gwariant gweithredol.

Mae'r Brifysgol wedi blaenoriaethu gwariant ar ddarpariaeth academaidd a chynnal ei hystad (gan gynnwys sicrhau bod diogelwch o ran COVID-19 yn cael ei gynnal wrth i weithgarwch ar y campws gynyddu).

Roedd y gyllideb hefyd yn adlewyrchu natur newidiol cymorth cyrff cyllido a gostyngiad disgwylidig yn y cyllid a gafwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â newid yn natur y cyllid i fwrdd oddi wrth gymorth uniongyrchol ac i feysydd megis cynnydd tuag at sero net a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Roedd y gyllideb a bennwyd yn darparu gwaged o £5 miliwn, ynghyd â threfniadau i gynhyrchu £5 miliwn o arian parod yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Brifysgol yn falch o'r perfformiad ariannol a fesurwyd yn unol â'r gyllideb, ac er bod rhai dulliau arfaethedig o waredu cyfalaf wedi cael eu gohirio tan 2022-2023, mae'r gwaged sylfaenol yn adlewyrchu perfformiad y gyllideb, ac mae'r sefyllfa o ran arian parod yn unol â'r disgwyliadau.


Mae incwm y Brifysgol o ffioedd dysgu yn parhau i fod y sbardun ar gyfer ei thwf, yn arbennig o ran y cyrsiau Tystysgrif AU a gynigir. Nid yw'r trefniadau ar gyfer darparu'r cyrsiau hyn yn dilyn proffil traddodiadol y flwyddyn academaidd, a derbynir myfyrwyr ar sawl achlysur trwy gydol y flwyddyn. O ganlyniad i hyn, caiff cyfran o'r incwm gan fyfyrwyr a dderbynir yn ystod y flwyddyn ei gohirio ar 31 Gorffennaf a'i chydabod yn y flwyddyn ddilynol. Wrth i nifer y myfyrwyr ar y cyrsiau hyn gynyddu, mae'r incwm gohiriedig hefyd yn cynyddu. Ar 31 Gorffennaf 2022 roedd yr incwm myfyrwyr gohiriedig yn £19.9 miliwn (2021: £16.2 miliwn).

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Incwm

Roedd cyfanswm yr incwm cyfunol ar gyfer y flwyddyn yn £180.9 miliwn (2021: 173.9 miliwn). Mae'r cynnydd yn yr incwm yn barhad o dueddiad yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, lle mae'r incwm wedi cynyddu 39% o incwm o £130 miliwn yn 2017-2018. Mae incwm y Brifysgol yn yr un cyfnod wedi cynyddu 47% o £78 miliwn i £115 miliwn yn y flwyddyn gyfredol.


Twf incwm 5 mlynedd




Mae manylion yr incwm wedi parhau'n weddol gyson o flwyddyn i flwyddyn, a cheir crynodeb isod.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	£ miliwn	%	£ miliwn	%
Incwm Cyfunol				
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	91.6	51%	87.0	50%
Grantiau cyrff cyllido – CCAUC	12.9	7%	12.3	7%
Grantiau cyrff cyllido – Arall	51.4	28%	46.7	27%
Grantiau a chontractau ymchwil	0.4	0%	0.6	0%
Incwm arall	22.9	13%	26.2	15%
Incwm o fuddsoddiad	1.7	1%	1.1	1%
TOTAL	180.9	100%	173.9	100%

Cyfanswm Incwm 2021/2022



Cyfanswm Incwm 2020/2021



ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL


Mae 'Grantiau cyrff cyllido – Arall' yn adlewyrchu grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru a ddaeth i law Coleg Sir Gâr, Coleg Ceredigion a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol (YGDCG).

Mae incwm arall yn deillio o amrywiaeth eang o ffynonellau, sy'n cynnwys: preswylfeydd myfyrwyr, arlwyo a chyllid grant ar gyfer prosiectau a rhaglenni.

Incwm Myfyrwyr

Yn ystod y flwyddyn, gwelodd y grŵp gynnydd o 4% yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio ar gysiau israddedig, cynnydd o 7% yn achos cysiau ôl-raddedig, a chynnydd o 50% o ran cysiau addysg bellach.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfansoddiad poblogaeth myfyrwyr y Brifysgol.



Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau corff myfyrwyr sy'n gytbwys ac yn amrywiol o ran cefndir a phrofiad, gyda'r holl fanteision addysgol a diwylliannol a ddaw yn sgil hynny. Mae'n annog ceisiadau gan bawb sydd â'r cymhelliant a'r gallu academaidd i ffynnu yn ei lleoliadau yn ardal De-orllewin Cymru, ar ei champws yn Llundain, yng Nghanolfan Dysgu Birmingham, ac yn ei chanolfannau allgymorth eraill, ni waeth beth yw eu cefndir.

Mae manylion yr incwm o'r ffioedd dysgu, a gynhyrchir trwy'r proffil myfyrwyr a nodir uchod, yn cael eu crynhoi isod.

7 Incwm Cyfunol

Llawm-amser – Cartref a'r Undeb Ewropeaidd
 Rhyngwladol Llawm-amser
 Rhan-amser
 Contractau Addysg (Colegau AB)

	2021-2022 £ miliwn	2020-2021 £ miliwn	Symudiad £ miliwn	Symudiad %
Llawm-amser – Cartref a'r Undeb Ewropeaidd	78.1	76.6	1.5	2%
Rhyngwladol Llawm-amser	7.8	5.0	2.8	56%
Rhan-amser	3.2	3.8	(0.6)	(16%)
Contractau Addysg (Colegau AB)	2.5	1.6	0.9	56%
TOTAL	91.6	87.0	4.6	5%

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL


Gwariant

Roedd cyfanswm y gwariant cyfunol ar gyfer y flwyddyn yn £197.1 miliwn (2021: £165.7 miliwn).

Mae'r gwariant wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf i gefnogi twf mewn incwm, ac roedd mesurau darbodus ar waith i reoli costau yn ystod 2019-2020, 2020-2021 a 2021-2022 i frwydro yn erbyn effeithiau pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig a oedd yn weithredol.

Aed hefyd i linellau gwariant yn benodol wrth ddefnyddio'r cyllid ychwanegol gan CCAUC yn ystod yr un cyfnod ac maent, yn gyffredinol, wedi arwain at batrwm gwariant cymharol wastad tra bo lefelau'r incwm wedi bod yn cynyddu. Mae'r cynnydd yn 2021-2022 yn ganlyniad yn bennaf i dâl USS sylweddol o £24.0 miliwn.

Twf incwm 5 mlynedd




Mae manylion y gwariant yn cael eu crynhoi isod;


Gwariant Cyfunol	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	£ miliwn	%	£ miliwn	%
Costau staffio	87.8	45%	82.1	50%
Symudiad ar ddarpariaeth yr USS	24.0	12%	2.6	1%
Costau gweithredu eraill	72.9	37%	66.2	40%
Dibrisiant ac amhariad	9.6	5%	11.7	7%
Llog a chyllid	2.8	1%	3.1	2%
Total	197.1	100%	165.7	100%

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Cyfanswm Gwariant 2021/2022



Cyfanswm Gwariant 2020/2021



Mae'r costau staffio yn cynrychioli 62% o gyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn (2021: 49%). Mae'r cynnydd o £27.1 miliwn yn y costau staffio yn cynnwys cynnydd o £21.4 miliwn yn y symudiad ar ddarpariaeth yr USS o flwyddyn i flwyddyn. Mae hepgor yr eitem hon nad yw'n arian parod yn rhoi cyfanswm costau staffio o £87.8 miliwn (2021: £82.1 miliwn) sy'n cynrychioli 48.9% o'r incwm (2021: 51.5%). Mae'r costau staffio yn cynnwys £0.1 miliwn mewn costau ailstrwythuro sylfaenol (2021: £0.1 miliwn).

Mae'r cynnydd yn y costau gweithredu eraill yn bennaf yn ganlyniad i gynnydd yng nghostau comisiwn asiantau yr aed iddynt oherwydd y cynnydd yn nifer y myfyrwyr a recriwtiwyd i gyrsiau nas llywiwyd gan UCAS, ynghyd â gwariant ar yr ystad i wella profiad y myfyriwr wrth i'r Brifysgol ddychwelyd at fodel o ddarpariaeth ar y campws.

Mae costau dibrisiant ac amhariad yn cynnwys dibrisiant (£9.6 miliwn) a thaliadau amhariad £dim (2021: £8.5 miliwn a £3.2 miliwn). Mae'r rheolwyr wedi cynnal adolygiadau o'r defnydd disgwylidig o adeiladau allweddol y Brifysgol yn y dyfodol, ac wedi dod i'r casgliad bod y gwerth cario ymlaen yn briodol ac nad oes unrhyw daliadau amhariad yn ofynnol yn y flwyddyn gyfredol.

Mae'r llog a chostau chyllid yn cynnwys taliadau llog y cynllun pensiwn o £1.1 miliwn (2021: £1.2 miliwn) a llog o £1.5 miliwn ar fenthyciadau (2021: £1.6 miliwn).

Y Fantolen

Mae'r Fantolen gyfunol yn datgelu bod y sefyllfa o ran asedau net yn £114.1 miliwn ar 31 Gorffennaf 2022 (2021: £77.0 miliwn). Mae'r cynnydd yn yr asedau net yn deillio'n bennaf o'r gostyngiad yn y rhwymedigaethau pensiwn o £27.1 miliwn i £50.0 miliwn (2021: £77.1 miliwn). Pan gaiff y rhwymedigaethau pensiwn eu hepgor, y sefyllfa o ran asedau net yw £164.2 miliwn ar 31 Gorffennaf 2022 (2021: £151.5 miliwn).

Roedd balansau'r arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn £59.5 miliwn ar 31 Gorffennaf 2022 (2021: £54.9 miliwn), gyda'r cynnydd yn adlewyrchu'r cynnydd yn y gweithgarwch cynhyrchu incwm yn ystod y flwyddyn, ynghyd â phroses ragweithiol o reoli dyled.


Mae'r gwariant cyfalaf o £14.2 miliwn yn uwch nag yn 2021 (£9.3 miliwn), sy'n adlewyrchu buddsoddiad parhaus yn yr ystad, yn enwedig mewn perthynas â mentrau technoleg werdd a'r broses bontio i sefyllfa sero net yn y dyfodol.

Roedd cyfanswm y credydwyr (yn daladwy cyn pen blwyddyn) yn £68.9 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn (2021: £63.6 miliwn). Mae'r cynnydd yn ganlyniad yn bennaf i gynnydd ym malans y credydwyr masnach, sy'n adlewyrchu llawer iawn o weithgarwch prynu yn chwarter olaf y flwyddyn.

Roedd cyfanswm y credydwyr (yn daladwy ar ôl blwyddyn) yn £32.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn (2021: £34.7 miliwn). Mae'r gostyngiad hwn yn ganlyniad i'r ad-daliad o £2 miliwn a drefnwyd ar gyfer benthyciad diogel gan HSBC.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL**Llif Arian**

O ganlyniad i weithgareddau gweithredu, roedd y mewnlif arian cyfunol net yn £17.1 miliwn ar gyfer y flwyddyn (2021: £32.0 miliwn), ac roedd y mewnlif arian cyffredinol yn £4.7 miliwn (2021: £27.8 miliwn).

Twf Arian 5 Mlynedd

Mae cydnabyddiaeth o'r costau pensiwn anariannol positif o £26.9 miliwn (2021: £5.0 miliwn) yn effeithio ar lif arian o weithgareddau gweithredu.

Mae llif arian o weithgareddau buddsoddi yn cynnwys enillion o £3.5 miliwn o ganlyniad i werthu asedau sefydlog (2021: £0.2 miliwn), a derbyniadau grant cyfalaf gwerth £1.1 miliwn (2021: £8.1 miliwn) llai taliadau o £14.2 miliwn a wnaed i gaffael asedau sefydlog (2021: £9.3 miliwn).

Mae llif arian o weithgareddau ariannu yn cynnwys lesioedd cyllid newydd gwerth £0.6 miliwn i ariannu'r broses o brynu cyfarpar (2021: £0.5 miliwn) llai taliadau o £0.5 miliwn a wnaed yn erbyn lesioedd cyllid (2021: £0.3 miliwn), sy'n rhoi symudiad net o £0.1 miliwn (2021: (£0.2 miliwn)) a thaliadau llog o £1.7 miliwn (2021: £1.7 miliwn).

Cydymffurfio â chyfmodau bancio

Y tri chyfmod sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022 a 31 Gorffennaf 2021 yw

- Ni ddylai cymhareb y llif arian sydd ar gael i dalu costau gwasanaethu dyled am y 12 mis blaenorol fod yn llai nag 1.1 gwaith y costau gwasanaethu dyled;
- Ni ddylai cymhareb y ddyled net i gyfanswm yr incwm fod yn fwy na 50%; ac
- Ni ddylai lefel yr asedau net cyfunol, ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn, fod yn is na £105 miliwn.

Cafodd y cyfamodau hyn eu profi ar 31 Hydref 2021, 31 Ionawr 2022, 30 Ebrill 2022, 31 Gorffennaf 2022, a bu iddynt lwyddo. Mae'r gyllideb a'r rhagolygon a baratowyd yn dynodi y byddant yn llwyddo ym mhob cam am weddill tymor cynnyrch y benthyciad, ac mae'r rhagolygon, a fu'n destun prawf straen ac a baratowyd ar gyfer asesiad busnes hyfyw, hefyd yn nodi digon o hyblygrwydd i lwyddo yn y profion hyd at fis Hydref 2023.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL**Rheoli'r Trysorlys**

Yn unol â Pholisi Rheoli Trysorlys y Brifysgol, yr amcan buddsoddi yw sicrhau'r enillion gorau posibl ar yr un pryd â lleihau risg. Ar 31 Gorffennaf 2022 roedd cyfanswm cyfunol y buddsoddiadau, yr adneuon, a'r arian parod yn £65.4 miliwn (2021: £60.7 miliwn). Roedd £10.3 miliwn o'r swm hwn (2021: £9.0 miliwn) yn gronfeydd gwaddol. Roedd yr incwm llog a'r incwm difidend o'r holl fuddsoddiadau ac adneuon (gwaddol a heb fod yn waddol) yn £0.1 miliwn (2021: £0.3 miliwn), tra oedd y colledion o fuddsoddiadau yn £0.2 miliwn (2021: enillion o £0.8 miliwn).

Hylifedd

Cymhareb gyfredol y Grŵp ar 31 Gorffennaf 2022 oedd 1.49 (2021: 1.37). Mae'r Brifysgol wedi paratoi rhagolygon llif arian misol manwl ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023, ac mae o'r farn y bydd ganddi ddigon o adnoddau arian parod a hylifedd yn ystod y cyfnod hwn i reoli ei materion a'i gweithrediadau arfaethedig mewn modd priodol. Mae'r rhagolygon hyn yn dynodi llif arian positif yn ystod y flwyddyn.

Swm y credydwy'r sy'n daladwy cyn pen blwyddyn yw £68.6 miliwn (2021: £63.5 miliwn), gyda'r cynnydd yn deillio'n bennaf o gynydd mewn incwm gohiriedig (£3 miliwn), gostyngiad mewn cronadau eraill (£3 miliwn), a chynnydd mewn credydwy'r masnach (£6 miliwn).

Caiff y cynnydd yn yr incwm gohiriedig ei ysgogi gan y cynnydd yn nifer y myfyrwyr a dderbynnir yn ystod y flwyddyn, fel y nodir uchod (£4 miliwn), wedi'i wrthbwysu â gostyngiad yn yr incwm grant gohiriedig gan CCAUC (£1 miliwn) am i'r cronfeydd hyn gael eu cydnabod yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cynnydd yn y credydwy'r masnach yn ganlyniad i amseriad trafodiadau; ni ddiwygiwyd polisi taliadau'r credydwy'r yn ystod y flwyddyn, sy'n parhau i ddilyn arfer gorau. Mae polisi taliadau'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol anelu at dalu pob anfoneb ddiarheul erbyn y dyddiad dyledus neu cyn pen 30 diwrnod i gael y nwyddau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r diweddaraf.

Pensiynau

Manylir ar y symudiad ar y ddarpariaethau ar gyfer y cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio sydd ar gael (gan gynnwys cynlluniau caeedig) yn nodyn 28. Mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol gydnabod ei hymrwymadau i gyfrannu at y diffyg yng Nghynllun Blwydd-daliadau y Prifysgolion (USS); mae'r rhwymedigaeth hon wedi'i chynnwys yn y ddarpariaeth pensiwn a chaiff costau ychwanegol eu prosesu trwy gostau staff yn y datganiad cyfunol o incwm a gwariant. Roedd cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn wedi gostwng £26.7 miliwn yn ystod y flwyddyn i £47.8 miliwn (2021: £74.5 miliwn).

Caiff effaith symudiadau'r cynllun pensiwn ar y datganiad o berfformiad ariannol ei adlewyrchu ar ffurf tâl o £24.0 miliwn yng nghostau'r gyflogres (2021: tâl o £2.6 miliwn) ac enillion actiwaraid o £53.5 miliwn (2021: enillion o £20.9 miliwn). At hynny, cydnabuwyd £1.1 miliwn (2021 £1.2 miliwn) trwy gost y llog.

Fel y nodir yn nodyn 27, cwblhawyd proses brisio 2020 ar gyfer cynllun yr USS ym mis Hydref 2020. Defnyddiwyd y cynnydd sylweddol a amlygwyd mewn allbynnau amodol cynnar yn sail i gyfrifo'r diffyg yn y ddarpariaeth ar 31 Gorffennaf 2022; fodd bynnag, yn dilyn casgliad terfynol y prisiad yn 2022, nid yw'r cynnydd disgwylidig yn y cyfraniadau wedi digwydd, a chynyddodd cyfraniadau'r cyflogwyr 0.2% ym mis Ebrill 2022. Nid yw'r Brifysgol yn rhagweld cynnydd pellach yn y cyfraniadau yn ystod oes prisiad 2020.

Cynhaliodd y rheolwyr adolygiad o'r rhagdybiaethau sylfaenol yn yr adroddiadau actiwaraid ar gyfer pob un o'r canlynol: y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, y Cynllun Pensiwn Athrawon, a'r Cynlluniau Mewnol. Roedd yr holl ragdybiaethau o ran chwyddiant, y gyfradd ddisgownt a symudiad cyflogau yn dod o fewn yr ystod ddisgwylidig yn seiliedig ar adolygiad gan gymheiriaid o wyth o gynlluniau sefydliadau eraill. Mae'r rheolwyr yn nodi mai'r prif ysgogwr yn achos y sefyllfa oedd atebolrwydd is yn ystod y flwyddyn yw'r cynnydd yn y cyfraddau disgownt a ddefnyddir yn y modelau priso.

Nid yw'r Brifysgol yn rhagweld y bydd yna unrhyw fudd economaidd yn deillio o'r sefyllfa warged mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Abertawe) na'r cynllun mewnol, ac felly nid yw wedi cydnabod y gwarged ar y fantolen. Cofnodir effaith hyn yn nodyn 27 ar dudalen 72.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Iechyd Ariannol

Mae'r Brifysgol yn gweithredu mewn amgylchedd economaidd heriol, amgylchedd y mae'n mynd ati mewn modd rhagweithiol i'w reoli.

Mae'r dangosyddion allweddol mewn perthynas â gwarged, llif arian a hyblygrwydd yn y cyfamodau bancio i gyd yn rhoi barn gadarnhaol ar statws cyfredol iechyd ariannol y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr angen i fynd ati i reoli'r sefyllfa hon yn y dyfodol, ac mae'r meysydd allweddol ar gyfer ffocws y rheolwyr yn cynnwys:

- cynnal y broses o recriwtio a chadw myfyrwyr a chymryd rhan ragweithiol ynddi;
- rheoli newid yn natur busnes craidd, gan ddibynnu llai ar raglenni israddedig tair blynedd traddodiadol a datblygu rhagor o raglenni cyflenwi newydd ac arloesol;
- cynnal lefel ddigonol o arian wrth gefn i gefnogi gweithrediadau, a defnyddio arian dros ben i'w fuddsoddi yn strategaeth ystadau y Brifysgol sydd ar ei newydd wedd;
- rheoli llifau arian, sy'n cynnwys casglu derbynebau gan y cwmni benthyciadau myfyrwyr mewn modd amserol i sicrhau cydymffurfedd â chyfamodau bancio;
- bod yn rhagweithiol wrth ymateb i'r gostyngiadau mewn cyllid craidd gan CCAUC a Llywodraeth Cymru;
- ymateb i gyd-destun gwleidyddol cyfnewidiol Addysg Uwch yng Nghymru;
- arallgyfeirio ffrydiau incwm ymhellach; a
- rheoli cynnydd yn y costau pensiwn mewn modd cadarn.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022, roedd gweithgarwch addysgu cynyddol y Brifysgol wedi arwain at lifau arian gweithredu positif, a bydd arallgyfeirio parhaus i feysydd addysgu newydd a disgwyliad i'r gweithgarwch masnachol gynyddu yn ystod 2022-2023 yn ychwanegu ymhellach at y broses o gynyddu llif arian gweithredu y Grŵp.

Mae'r sefyllfa ariannol ar 31 Gorffennaf 2022 yn galluogi gwariant cyfalaf sylweddol yn 2022-2023 wrth i'r Brifysgol ei rhoi ei hun mewn sefyllfa i dyfu ymhellach yn y blynyddoedd i ddod. Felly, rhagwelir y bydd y cronfeydd arian parod wrth gefn yn gostwng yn 2022-2023 cyn adfer yn gyflym yn 2023-2024.

Busnes Hyfyw

Fel y nodir uchod ac yn y Datganiad Cyfunol o Lifau Arian, cynhyrchwyd £4.6 miliwn yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022 gyda mewnlif arian net gwerth £17.1m o weithgareddau gweithredu. Mae'r arian hwn a gynhyrchwyd yn cefnogi'r dadansoddiad o berfformiad sylfaenol ar ddechrau'r adolygiad ariannol hwn.

Mae'r gyllideb a bennwyd gan y Brifysgol ar gyfer 2022-2023 a 2023-2024 yn adlewyrchu'r angen i ofalu bod yna ddigon o gyllid ar gyfer y lefelau incwm uwch, ac i sicrhau bod yr incwm yn gynaliadwy ac â rhagor o botensial i gynyddu heb gyfaddawdu ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r dull hwn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn costau cyflogau, gyda chostau nad ydynt yn gyflogau yn cael eu rheoli i gynhyrchu gwargedion ac arian parod gweithredol ar lefelau'r targedau a bennwyd gan y rheolwyr a'r llywodraethwyr.

Er bod gwerth absoliwt costau cyflogau yn cynyddu, mae cymhareb costau'r cyflogau i'r incwm yn parhau i fod yn is na 55%, ffigur sydd, ym marn y rheolwyr, yn darparu digon o hyblygrwydd o ran costau yn ôl disgrisiwn nad ydynt yn gyflogau i reoli unrhyw amrywiadau yn yr incwm.

Disgwylir y bydd y Sector Addysg Uwch yn parhau i brofi nifer o heriau ac ansicrwyddau yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac mae'r Brifysgol yn parhau i fonitro unrhyw effaith y gallai hyn ei chael o safbwynt gweithredol ac ariannol, fel ei gilydd.

Mae'r Brifysgol wedi llunio rhagamcanion llifau arian ar gyfer y 12 mis o ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol, sy'n dangos, hyd yn oed yn achos nifer o senarios anfanateisiol mewn perthynas â'r perfformiad disgwyliedig, y bydd digon o arian parod yn cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod i wasanaethu'r gwariant a'r rhwymedigaethau sy'n dod yn ddyledus yr un cyfnod, ac i fodloni tri chylfaenol y benthyciadau.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Mae'r senarios a ddefnyddiwyd yn rhoi hyder pellach yng ngallu'r Brifysgol i reoli unrhyw ansicrwydd a fydd yn dod i'r amlwg yn y 12 mis o ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol hyn, a llunnir y cyfrifon ar sail busnes hyfyw i adlewyrchu'r pwyntiau a nodir uchod.

Cynaliadwyedd

Mae'r Brifysgol yn ystyried mai cynaliadwyedd yw un o'r risgiau allweddol y mae'n eu hwynebu, a chynnal sicrwydd ariannol yw'r galluogwr cyntaf a nodir i gyflawni ei chynllun strategol.

Mae'r Brifysgol yn ystyried mai creu incwm a throir incwm hwn yn arian parod yw'r dull mwyaf priodol o gynnal cynaliadwyedd.

Yn sail i'r sicrwydd ariannol hwn y mae arallgyfeirio o ran ffrydiau incwm y Brifysgol, a hynny trwy lansio llwybrau dysgu newydd arloesol i gefnogi'r cyrsiau israddedig tair blynedd a'r cyfleoedd ôl-raddedig traddodiadol. Mae'r cymwysterau Tystysgrif AU yn elfen allweddol o incwm ffioedd dysgu y Brifysgol ac yn faes ffocws a thwf disgwyliedig.

Mae proffil y myfyrwyr a dderbynnir i'r Brifysgol hefyd yn esblygu, gyda nifer cynyddol o'r myfyrwyr yn ymuno â'r Brifysgol yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag ar yr adeg gofrestru draddodiadol ym mis Medi. Mae hyn yn darparu proffil mwy gwastad o'r arian a gynhyrchir trwy ffioedd dysgu ac yn caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd wrth reoli all-lifau arian parod.

Nid yw'r arallgyfeirio hwn er anfantais i'r llwybrau incwm traddodiadol, ac mae'r Brifysgol yn ceisio cynyddu ei chynnydd craidd yn barhaus. Yn hyn o beth, mae yna hefyd gydnabyddiaeth bod llwyddiant parhaus y Brifysgol yn dibynnu ar ansawdd ei haddysgu a'i seilwaith.

Wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2022-2023, mae'r rheolwyr wedi myfyrio ar y pwysau cynyddol o ran costau yn sgil darparu model addysgu gwirioneddol hybrid, yn ogystal ag ar y pwysau economaidd allanol sy'n deillio o'r costau cyfleustodau uchel, pwysau ar gostau cyflogion, ac effaith costau benthyca cynyddol. Wrth wneud hynny, mae cyllideb sy'n darparu llif arian gweithredol a gwarged positif wedi cael ei chymeradwyo, gyda chostau cyfleustodau yn sefydlog hyd at chwarter olaf y flwyddyn, a darpariaeth ddigonol yn cael ei gwneud ar gyfer ariannu gweithrediadau'r Brifysgol.

Ym mhroses y gyllideb, mae'r Brifysgol wedi gosod targedau ar gyfer enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddio (EBITDA), ynghyd â dulliau i gynhyrchu arian parod a fydd yn helpu i reoli ei phrif fetrig cynaliadwyedd – sef sefyllfa'r Brifysgol o ran arian parod a'i hamcanestyniadau. Ynghyd â gofyniad i sicrhau digon o arian wrth gefn i fodloni ei rhwymedigaethau, mae gan y Brifysgol dri chylfaenol â'i bancwyr, HSBC, sy'n gysylltiedig â benthyca. Mae dau o'r cyfamodau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu arian parod.

Mae rheoli llif arian yn golygu rheolaeth fanwl ar y llif arian misol, ynghyd â darparu diweddariadau rheolaidd ar berfformiad i Gyngor y Brifysgol, diweddariadau sy'n cynnwys risgiau neu gyfleoedd gweladwy. Mae'r brifysgol wedi cael benthyciad tymor gan HSBC, ac mae'n defnyddio offer megis lesioedd cyllid i gydbwysu ei llif arian ag anghenion gwariant cyfalaf. Ar ddyddiad y fantolen ac ar y dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon, fel ei gilydd, nid oes gan y Brifysgol unrhyw gynlluniau i ymrwymo i unrhyw rwymedigaethau ariannol ychwanegol perthnasol.

Disgwylir i'r benthyciad tymor gael ei ailgyllido yn 2024; mae'r offeryn cyfnewid sydd ar waith gyda'r benthyciad hwn yn darparu cyfradd llog sefydlog ar gyfer y cyfnod dan sylw.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2022-2023 yn cynnwys gwariant cyfalaf sylweddol ar draws tri safle, a fydd yn cael eu hariannu trwy gyfuniad o gyllid grant allanol a chronfeydd wrth gefn presennol y Brifysgol. Lle mae gwariant yn canolbwyntio ar gynyddu gallu myfyrwyr, disgwylir cael ad-daliad ar y buddsoddiad arian parod cyn pen 18 mis. Felly, disgwylir i falans yr arian parod ym mis Gorffennaf 2023 fod yn is na'r flwyddyn gyfredol, ond bydd y sefyllfa hon yn adfer yn ystod 2023-2024. Mae gan y Brifysgol ddigon o arian parod a chynlluniau gweithredol cadarn i allu edrych i'r tymor canolig gyda hyder y bydd yn gallu goroesi'r amgylchedd economaidd cythryblus a pharhau i fuddsoddi yn ei dyfodol.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Adrodd Amgylcheddol

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ymgorffori cynaliadwyedd yn egwyddor graidd. Ceir tystiolaeth o hyn yn y Cynllun Strategol a'r Datganiad Polisi Amgylcheddol sy'n mynegi ei gwerthoedd o ran Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae cynaliadwyedd wedi'i wreiddio yn y Cynllun Gweithredu Strategol (2022-2025) ac mae gan yr adran Ystadau a Seilwaith ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd; mae'r rhain yn cynnwys: y defnydd o ynni, cost cyfleustodau craidd, allyriadau Cwmpas 2. Caiff cynnydd ei fonitro trwy adroddiad blynyddol ar y cynllun strategol ac Adroddiad ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a ddarperir i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a Chyngor y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo'n benodol i weithredu Cynllun Rheoli Carbon ar gyfer y Brifysgol gyfan i gyflawni Sero Net erbyn 2030.

Ym mis Gorffennaf 2014, mabwysiadodd y Brifysgol Strategaeth Rheoli Carbon i ddangos yn glir ei hymrwymiad i reoli a lleihau ei hallyriadau carbon, ac i amlinellu cynllun ar gyfer gwneud hynny. Gwnaed cynnydd sylweddol yn hynny o beth. Mae hyn wedi cynnwys: llofnodi Siarter Teithio Llesol Abertawe a gohebiaeth allanol ynghylch prosiectau dan arweiniad myfyrwyr; gosod cyfarpar solar; mynd 'nôl i osod opsiynau effeithlon o ran ynni yn yr ystad, megis goleuadau LED, pypmiao gwres carbon isel, ac ati.

Trwy adolygu'r cynllun hwn mewn modd systematig, bydd y Brifysgol yn gallu parhau ar hyd y daith i Garbon Sero Net, gan hefyd gynnal amrywiaeth o asesiadau a fydd yn llywio'r gwaith o lunio cynllun tair blynedd i gydnabod y cynnydd hyd yma mapio ymhellach y llwybr i Garbon Sero Net.

Mae'r meysydd gweithredu a nodwyd ar gyfer lleihau carbon yn perthyn i'r tri phrif biler canlynol:

1. Gweithredu Rhaglen Fonitro i sicrhau bod y defnydd o ynni a'r defnydd o ddŵr yn cael eu monitro'n gywir, a hynny trwy ddarparu a defnyddio System Rheoli Ynni a alluogir gan becyn meddalwedd priodol;
2. Pontio i sicrhau bod pob prosiect cyfalaf newydd yn cyrraedd sgôr 'Rhagorol' BREEAM o ran Carbon Sero Net, a bod yna ostyngiad cysylltiedig yn effeithiau'r gadwyn gyflenwi;
3. Gwella effeithlonrwydd ynni gweddill yr ystad yn sylweddol, gan roi ystyriaeth lawn i gynlluniau gwresogi newydd sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy, ac i roi'r gorau i ddefnyddio nwy. Rhaid i gynlluniau i ddatblygu'r campysau flaenoriaethu cyfleoedd i ddatgarboneiddio, er enghraifft pennu hyd a lled prosiectau peilot i greu Gwres Carbon Isel/Heb Garbon, a gwneud cynnydd amlwg o ran deall a gweithredu'r cyfleoedd effeithlonrwydd ynni sy'n weddill, sy'n cynnwys defnyddio rheolaethau effeithiol i reoli adeiladau.

At hynny, bydd y Brifysgol yn:

- Datblygu model darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar bobl ac yn lleihau'r angen i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr deithio, sy'n hyrwyddo teithio llesol a dulliau teithio sy'n cynhyrchu allyriadau isel, ac sy'n annog mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau cymudo mewn ceir a theithio ar gyfer busnes;
- Cymhwyso egwyddorion economi gylchol i'n gweithgareddau caffael, gan ymgorffori cam lleihau carbon cadarn sy'n asesu effaith carbon nwyddau a gwasanaethau ar hyd eu hoes;
- Defnyddio marchnadoedd y DU ar gyfer gwerthoedd dal a storio carbon i ddatblygu cyfrifiad o asedau tir;
- Datblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy i leihau ein hól troed carbon, gan liniaru risgiau busnes o ran gorlwytho'r Grid Cenedlaethol a thoriadau yn y cyflenwad pŵer;
- Ymgysylltu â staff a myfyrwyr trwy ddull cyfunol sy'n cynnwys digwyddiadau digidol ac wyneb yn wyneb, gyda'r nod o hyrwyddo newid mewn ymddygiad i greu Cymru sy'n ymwybodol o'r hinsawdd.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Yn ganolog i hyn y mae'r Grŵp Datblygu Cynaliadwy a sefydlwyd gan y Brifysgol i ddwyn ynghyd unigolion o bob athrofa ac uned gwasanaethau proffesiynol i hybu a chyfleu cynaliadwyedd ledled y sefydliad cyfan. Mae hyn wedi arwain at gyfathrebu negeseuon i staff ynghylch nifer o fentrau'n ymwneud â Sero Net, megis ein menter "Un Campws, Un Diwrnod" sydd â'r nod o leihau teithiau rhwng campysau, yn ogystal ag at ddarparu fforwm ymgynghori ar gyfer datblygu, gwirio a herio polisi.

Arwel Ellis Owen
(Cadeirydd, y Pwyllgor Adnoddau a Chynllunio)

Gavin Bessant
(Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol)

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Trefniadau Llywodraethu

Yn unol â Siarter Brenhinol Atodol y Brifysgol, fel y'i diwygiwyd yn 2012, y Cyngor yw corff llywodraethu y Brifysgol, ac mae'n gyfrifol, trwy Statud, am gymeradwyo'r cynlluniau strategol ar gyfer y Brifysgol ac am lywodraethu a rheoleiddio ei chyllid, ei chyfrifon, ei buddsoddiadau, ei heiddo, ei busnes a'i materion. Nodir ei Brif Gyfrifoldebau yn Ordinhadau'r Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn cynnwys llywodraethwyr annibynnol, staff-lywodraethwyr a myfyriwr-lywodraethwyr a benodir o dan Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol; mae'r rhan fwyf ohonynt yn anweithredol. Mae aelodau'r Cyngor hefyd yn ymddiriedolwyr y Brifysgol. Caiff swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol eu hysbysebu'n allanol, a gwneir penodiadau yn dilyn cwblhau cyfweiliad a phroses ddethol. Caiff rôl Cadeirydd y Cyngor ei gwahanu oddi wrth rôl Prif Weithredwr y Brifysgol, yr Is-ganghellor. Gwasanaethir y Cyngor gan glerc sy'n atebol i'r Cadeirydd.

Mae'r Cyngor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, a hefyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau trwy'r rheolwyr gweithredol a nifer o bwyllgorau sefydlog. Mae Cynllun Dirprwyo yn nodi pwy sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau yn enw'r Cyngor neu ar ei ran, i le y gellir dirprwyo'r awdurdod hwn, ac i le y mae'r awdurdod hwn wedi cael ei ddirprwyo. Cadeirir y pwyllgorau sefydlog gan aelodau annibynnol o'r Cyngor, ac mae pob un yn cynnwys mwyafrif o aelodau annibynnol. Er 2019-20, mae staff a myfyriwyr sy'n aelodau o'r Cyngor wedi bod yn aelodau o bob pwyllgor sefydlog, ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae uwch-swyddogion y Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen.

Caiff cofrestr buddiannau ei chynnal a'i chyflwyno'n flynyddol ar gyfer holl aelodau'r Cyngor a'r pwyllgorau sefydlog, ynghyd ag uwch-swyddogion y Brifysgol a'i his-gwmnïau. Mae Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau'r Cyngor yn darparu gwybodaeth am y gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai gwrthdrawiad buddiannau neu deyrngarwch yn codi.

Roedd pwyllgorau sefydlog y Cyngor yn 2021-22 fel a ganlyn:

Y Pwyllgor Academaidd

Sefydlwyd y Pwyllgor Academaidd yn 2019-20 ac mae'n cynghori'r Cyngor ar ei ddull o bennu siarter addysgol y Brifysgol.

Roedd y Pwyllgor wedi cwrdd ar dri achlysur yn 2021-22. Bu'n ystyried amrywiaeth o faterion yng nghwmpas ei gylch gwaith, yn cynnwys adroddiadau ar brofiad y myfyriwr, yr amgylchedd dysgu, gweithgareddau rhyngwladol, a sicrwydd ansawdd; strategaeth y Brifysgol ar gyfer datblygu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; ac adroddiadau gan Goleg Sir Gâr ar ddysgwyr a safonau.

Ffocws allweddol ar gyfer y flwyddyn oedd gwaith paratoi'r Brifysgol ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ym mis Mawrth 2022, a chanlyniadau'r adolygiad hwnnw. Cafodd y Pwyllgor amrywiaeth o wybodaeth arall am gynnal ansawdd a safonau academaidd, gan gynnwys Datganiad o Ganlyniadau Graddau y Brifysgol, a bu'n ystyried nifer o gynlluniau a strategaethau newydd, yn cynnwys rhai'n ymwneud â Chydraddoldeb o ran Hil, Llwyddiant Academaidd a'r Coleg Doethurol.

Roedd yr aelodaeth fel a ganlyn (gyda'r presenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Geraint Roberts (Cadeirydd) (100%); Yr Athro Medwin Hughes (66%); Uzo Iwobi (33%); Matthew Peake (66%); Liam Powell (ymddiswyddodd Mawrth 2022; 50%); Victoria Provis (100%); Randolph Thomas (100%); Dr Kerry Tudor (66%); Deris Williams (cyfnod o absenoldeb awdurdodedig; 0%).

Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwyllo gweithgarwch archwilio a risg ledled Grŵp PCYDDS, ac mae ei gylch gorchwyl wedi'i seilio ar gylch gorchwyl enghreifftiol a nodir yn Cod Ymarfer Pwyllgorau Archwilio Addysg Uwch a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion. Mae'r Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Roedd y Pwyllgor wedi cwrdd ar bedwar achlysur yn 2021-22. Bu'n ystyried amrywiaeth o faterion yng nghwmpas ei gylch gwaith, yn cynnwys cynlluniau a chanfyddiadau archwilio mewnol ac allanol; y datganiadau

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

ariannol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cyngor; adroddiadau ar y dulliau o reoli gwariant a sefydlwyd ar gyfer cyllid ychwanegol CCAUC a ddaeth i law mewn ymateb i'r pandemig; y gofrestr risgiau corfforaethol; adroddiad tryloywder ddwywaith y flwyddyn ar amrywiaeth o faterion, yn cynnwys caffael a rhyddid gwybodaeth; adroddiad blynyddol ar chwythu'r chwiban; adroddiadau ariannol yn ymwneud ag Undeb y Myfyriwyr; ac adroddiadau gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Coleg Sir Gâr.

Un o'r prif weithgareddau ar gyfer y flwyddyn oedd y broses o dendro er mwyn penodi archwilwyr mewnol ac allanol, a bu'r Pwyllgor yn ystyried cynigion dilynol ar gyfer penodi ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor yn unol â hynny.

Roedd yr aelodaeth fel a ganlyn (gyda'r presenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Arwel Ellis Owen (Cadeirydd) (100%); Tony Ball (100%); Nigel Roberts (100%); Dr Liz Siberry (75%); Deris Williams (cyfnod o absenoldeb awdurdodedig; 25%); Jayne Woods (cyfetholwyd; 100%).

Cadeiriwyd y Pwyllgor Archwilio a Risg gan Arwel Ellis Owen yn ystod y flwyddyn, a bydd yn cael ei gadeirio gan Nigel Roberts ar gyfer 2022-2023.

Nid yw'r un unigolion yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

Pwyllgor Craffu y Grŵp

Mae Pwyllgor Craffu y Grŵp yn goruchwyllo is-gwmnïau y Brifysgol, gan ganolbwyntio'n benodol ar strategaethau'n ymwneud â'r berthynas rhwng y Brifysgol a Choleg Sir Gâr.

Roedd y Pwyllgor wedi cwrdd ar un achlysur yn 2021-22. Bu'n ystyried amrywiaeth o faterion yng nghwmpas ei gylch gwaith, yn cynnwys adroddiad blynyddol ar yr is-gwmnïau, gan ganolbwyntio ar gadarnhad o gydymffurfedd a pherthnasedd strategol i'r Grŵp. Bu hefyd yn ystyried y cyd-ddatganiad blynyddol o fwriad strategol gyda Choleg Sir Gâr.

Roedd yr aelodaeth fel a ganlyn (gyda'r presenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Rowland Jones (Cadeirydd) (100%); Pam Berry (100%); Yr Athro Medwin Hughes (100%); Liam Powell (ymddiswyddodd Mawrth 2022; 0%); Dr Stuart Robb (100%); Maria Stedman (100%); Randolph Thomas (100%); Jayne Woods (cyfetholwyd; 100%).

Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn gyfrifol am fonitro galluedd llywodraethu corfforaethol y Cyngor a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Brifysgol a'r Grŵp PCYDDS ehangach. Mae'n monitro anghenion y Cyngor o ran cyfansoddiad ac aelodaeth, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer penodiadau i bwyllgorau a chyrrff eraill.

Roedd y Pwyllgor wedi cwrdd ar dri achlysur yn 2021-22. Bu'n ystyried amrywiaeth o faterion yng nghwmpas ei gylch gwaith, yn cynnwys cynnydd mewn perthynas â chynllun gweithredu'r Brifysgol sy'n deillio o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu Prifysgolion Cymru (Review of Governance of the Universities in Wales); yr adolygiad dwyflynyddol o gydymffurfedd â Chod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion; cynllunio ar gyfer olyniaeth a'r strategaeth recriwtio ar gyfer llywodraethwyr annibynnol newydd; adroddiadau llywodraethu gan Goleg Sir Gâr; cynigion ar gyfer diwygiadau i strwythur y pwyllgorau sefydlog; adroddiadau ar gŵynion; ac enwebiadau ar gyfer gwobrau er anrhydedd.

Roedd yr aelodaeth fel a ganlyn (gyda'r presenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Pam Berry (Cadeirydd) (100%); Andrew Curl (33%); Tania Davies (66%); Margaret Evans (100%); Yr Athro Medwin Hughes (100%); Vanessa Liverpool (33%); Maria Stedman (66%); Randolph Thomas (100%); Deris Williams (cyfnod o absenoldeb awdurdodedig; 66%).

Cadeiriwyd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu gan Pam Berry yn ystod y flwyddyn; bydd y pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Siwan Davies ar gyfer 2022/2023.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yn pennu, yn flynyddol, gyflogau, telerau ac amodau a, lle bo hynny'n briodol, amodau diswyddo yr Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion, y Pro Is-gangellorion, a Chlerc y Cyngor. Yn rhan o'r broses hon, mae'r Pwyllgor yn ystyried amrywiaeth o fesurau cyd-destunol a chymharol allanol wrth bennu dyfarniadau cyflog, fel y nodir yn y Datganiad ar Bolisiau Tâl.

Roedd y Pwyllgor wedi cwrdd ar dri achlysur yn 2021-22. Bu'n ystyried amrywiaeth o faterion yng nghwmpas ei gylch gwaith, yn cynnwys mapio polisi ac arferion y Brifysgol mewn perthynas â Chod Taliadau Cydnabyddiaeth Uwch-staff Addysg Uwch diwygiedig Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion; penodiad a thaliadau cydnabyddiaeth aelodau newydd o'r uwch-dîm, a materion cyfrinachol eraill sy'n effeithio ar y staff yn ei gylch gwaith; datganiad polisi cyflogau blynyddol y Brifysgol; ac adolygiadau blynyddol o'r cyflogau ar gyfer staff yn ei gylch gwaith, ynghyd â'r wybodaeth ategol gysylltiedig berthnasol. Roedd y pwyllgor hefyd wedi comisiynu a chymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi dwy ran ynghylch taliadau cydnabyddiaeth i uwch-staff, a gyflwynwyd gan QCG Consulting.

Roedd yr aelodaeth fel a ganlyn (gyda'r presenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Pam Berry (Cadeirydd) (100%); Justin Albert (33%); Andrew Curl (100%); Eifion Griffiths (66%); Vanessa Liverpool (66%); Dr Conny Matera-Rogers (100%); Randolph Thomas (100%).

Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi ei pholisi cyflogau blynyddol ar ei gwefan, a gellir ei weld yn y ddolen ganlynol: [uwtsd-annual-pay-policy-statement-july-2022.pdf](#)

Cadeiriwyd y Pwyllgor Tâl gan Pam Berry yn ystod y flwyddyn; Justin Albert fydd yn cadeirio'r pwyllgor ar gyfer 2022/2023.

Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad

Mae'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn goruchwyllo gwaith cynllunio strategol a materion ariannol y Brifysgol.

Roedd y Pwyllgor wedi cwrdd ar bedwar achlysur yn 2021-22. Bu'n ystyried amrywiaeth o faterion yng nghwmpas ei gylch gwaith, yn cynnwys datblygiadau strategol a chydffederal; asesiadau o berfformiad mewn perthynas â mesurau llwyddiant y Cynllun Strategol, Dangosyddion Perfformiad Allweddol y sefydliad, a thargedau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad; adroddiadau ar recriwtio a chadw myfyrwyr; perfformiad ariannol o gymharu â'r rhagolygon a'r cyllidebau, a chynaliadwyedd y sefydliad; pensiynau; adroddiadau gan Grŵp Strategaeth yr Adran Ystadau a sefydlwyd gan y Cyngor i oruchwyllo datblygiad strategol yr ystad; adroddiadau ariannol gan Undeb y Myfyrwyr; materion adnoddau dynol, yn cynnwys cymeradwyo'r dyfarniad cyflog blynyddol a'r adroddiadau gan y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol; ac adroddiadau'n ymwneud â chyllid ac adnoddau gan Goleg Sir Gâr. Roedd elfennau penodol o'i waith yn ystod y flwyddyn yn cynnwys ystyried Strategaeth Ymchwil ac Arloesi newydd a monitro'r gwariant mewn perthynas â Chronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch. Yn rhan o'i waith, roedd y Pwyllgor wedi gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch gwelliannau i Gynllun Strategol y Brifysgol ac estyniad iddo i gwmpasu 2023-2024.

Roedd yr aelodaeth fel a ganlyn (gyda'r presenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Andrew Curl (Cadeirydd) (50%); Pam Berry (75%); John Edge (cyfetholwyd; 100%); Margaret Evans (100%); Eifion Griffiths (75%); Yr Athro Medwin Hughes (50%); Rowland Jones (100%); Vanessa Liverpool (50%); Dr Conny Matera-Rogers (75%); Maria Stedman (100%); Dr Geoffrey Thomas (cyfetholwyd; 100%); Randolph Thomas (cadeiriodd ar ddau achlysur yn absenoldeb y Cadeirydd; 100%).

Cadeiriwyd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad gan Andrew Curl yn ystod y flwyddyn, a bydd yn cael ei gadeirio gan Arwel Ellis Owen ar gyfer 2022-2023.

At hynny, mae'r **Senedd**, sef awdurdod academaidd y Brifysgol, y daw ei haelodau'n bennaf o blith staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad, hefyd yn adrodd i'r Cyngor. Ei rôl yw cyfarwyddo a rheoleiddio gwaith addysgu ac ymchwil y Brifysgol.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Ar y lefel weithredol, mae **Grŵp yr Uwch-gyfarwyddiaeth** yn cwrdd yn rheolaidd mewn rôl ymgynghorol i gefnogi'r Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-gangellorion i ffurfio cynigion ar gyfer cyfeiriad strategol y Brifysgol. Cynhaliwyd 15 o gyfarfodydd yn 2021-22. Trafodir amrywiaeth eang o bynciau yn y cyfarfodydd – yn rhai strategol a gweithredol.

Yn 2021-22, roedd aelodaeth yr Uwch-gyfarwyddiaeth fel a ganlyn: Yr Athro Medwin Hughes (Cadeirydd), Stephen Baldwin, Gavin Bessant, Sarah Clark, Shone Hughes, Yr Athro Dylan Jones, Barry Liles, Jane O'Rourke, Yr Athro Mirjam Plantinga, Yr Athro Catrin Thomas, Iestyn Davies (ymunodd 9 Mai 2022). Roedd y gyfradd presenoldeb yn 96%.

Cod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion

Mae'r Brifysgol yn anelu at safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol. A hithau'n gorfforaeth a sefydlwyd trwy Siarter Frenhinol, ac iddi statws elusennol, nid yw'r Brifysgol yn gaeth i ofynion adrodd llywodraethu corfforaethol Marchnad Stoc Llundain, ond mae'n ceisio dangos bod ei threfniadau llywodraethu yn cael eu cynnal mewn modd agored ac atebol, a'i bod yn anelu at arfer gorau yn y sector addysg uwch. Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Cyngor lofnodi *Cod Ymarfer Aelodau'r Cyngor* yn flynyddol, sy'n nodi'r safonau ymddygiad ac atebolrwydd a ddisgwylir ganddynt yn eu rôl o fod yn llywodraethwyr y Brifysgol ac yn ymddiriedolwyr yr elusen; egwyddorion a gwerthoedd y Brifysgol a gwasanaeth cyhoeddus yn fwy cyffredinol; a dull y Brifysgol o ymdrin â materion megis cyfrinachedd a datgan buddiannau.

Lluniwyd trefniadau llywodraethu y Brifysgol i adlewyrchu'r egwyddorion a'r arferion a nodir yn *Cod Llywodraethu Addysg Uwch* Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion, a chyhoeddwyd fersiwn ddiweddaraf y cod hwn ym mis Medi 2020. Trwy'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, mae'r Cyngor wedi adolygu ei arferion yng nghyd-destun y Cod, ac wedi cadarnhau bod yr holl Elfennau Sylfaenol ar waith. Yn 2019, cynhaliodd y Cyngor Adolygiad o Effeithiolrwydd y Trefniadau Llywodraethu, gyda mewnbyn allanol, a oedd yn cynnwys rhoi ystyriaeth gyfannol i'r broses o lynu wrth y Cod, ac arweiniodd hyn at gyhoeddi cynllun gweithredu. Mae'r Adolygiad o Effeithiolrwydd nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 2022-23.

Trwy ei Bwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth, aeth y Cyngor ati i adolygu cydymffurfedd â Chod Taliadau Cydnabyddiaeth Uwch-staff Addysg Uwch (Mehefin 2018) Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion yn 2018-19. Cynhaliwyd adolygiad arall yn 2020 yn sgil argymhellion Adolygiad Camm, ac yn 2022 yn dilyn cyhoeddi Cod wedi'i ddiweddarau. Mae arferion y Brifysgol yn glynu'n llawn wrth ddisgwyliadau'r Cod. Trwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg, mae'r Cyngor hefyd wedi cadarnhau bod holl elfennau *Cod Ymarfer Pwyllgorau Archwilio Addysg Uwch* (Mai 2020) Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion wedi cael eu mabwysiadu.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol o ddull y Grŵp o ymdrin â Llywodraethu Corfforaethol yn ystod haf 2022, ac mae hyn yn darparu sicrwydd sylweddol o ddigonoldeb yr amgylchedd rheoli ac effeithiolrwydd rheolyddion mewnol.

Review of Governance of the Universities in Wales gan Camm

Mae'r Cyngor wedi croesawu *Review of Governance of the Universities in Wales* gan Gillian Camm ('Adolygiad Camm'), y cyhoeddwyd yr adroddiad arno ym mis Chwefror 2020. Ym mis Gorffennaf 2020, aeth y Cyngor ati i fabwysiadu'n ffurfiol y Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Gadeiryddion Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Cymru, ac i gytuno ar gynllun gweithredu mewn ymateb i'r Ymrwymiad i Weithredu cysylltiedig. Erbyn mis Hydref 2022, roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r cynllun, gan gynnwys trwy gyflawni'r canlynol:

- mynd ati'n ffurfiol i adolygu data meintiol ac ansoddol a oedd yn berthnasol i ddiwylliant sefydliadol;
- cadarnhau ei ddisgwyliadau mewn perthynas â maint a siâp y corff llywodraethu a chyfrifoldebau ac ymddygiadau'r llywodraethwyr;
- gweithredu strategaeth recriwtio a sefydlu ac iddi ffocws ar amrywiaeth;

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

- adolygu strwythur y pwyllgorau sefydlog;
- cadarnhau ei ddull gweithredu mewn perthynas ag annibyniaeth llywodraethwyr a rheoli gwrthdaro;
- adolygu ei drefniadau ar gyfer llywodraethu taliadau cydnabyddiaeth;
- cwblhau adolygiad o'r polisi rheoli risgiau;
- adolygu'r broses archwilio mewnol;
- comisiynu adroddiad blynyddol ar chwythu'r chwiban;
- cymeradwyo'r datganiadau ar annibyniaeth, rôl yr Ysgrifennydd, a'r adrodd blynyddol a ddatblygwyd trwy Grŵp Clercod ac Ysgrifenyddion Cymru;
- cymeradwyo dull o gynllunio ar gyfer olyniaeth arweinwyr;
- mabwysiadu'r templed newydd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol;
- drafftio cynllun datblygu a chadw llywodraethwyr;
- cymryd rhan mewn gweithdai AU Uwch sy'n berthnasol i gydraddoldeb ac amrywiaeth, a dechrau gweithio ar ei gynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ei hun.

Elfen ffocws allweddol i'r Cyngor yn dilyn Adolygiad Camm fu mynegi, atgyfnerthu a gwella'r trefniadau ar gyfer sefydlu a datblygu llywodraethwyr. Mae trefniadau sefydlu ffurfiol a chynhwysfawr, sy'n cynnwys cynllun 'bydi' ar gyfer llywodraethwyr annibynnol newydd, wedi cael eu sefydlu, ac mae cynllun datblygu a chadw wedi cael ei ddrafftio ar gyfer yr holl lywodraethwyr, sy'n nodi'r cyfleoedd (gorfodol a dewisol, fel ei gilydd) sydd ar gael. Mae'r broses cadw cofnodion wedi cael ei ffurfioli, ac felly hefyd y ffordd o ymdrin ag arfarnu.

Disgwylir i weddill gwaith y Cyngor mewn perthynas ag Adolygiad Camm gael ei gwblhau yn 2022-23, a hynny'n dilyn cyhoeddi'r canllawiau sector cyfan ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chwblhau gwaith arall ledled y sector i gefnogi datblygiad llywodraethwyr a chynllunio ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL**Datganiad Rheolaeth Fewnol**

Yn ei rôl o fod yn gorff llywodraethu y Brifysgol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni cynllun strategol a nodau ac amcanion y sefydliad, a hefyd am ddiogelu'r cronfeydd ac asedau cyhoeddus a'r cronfeydd ac asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt, a hynny'n unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd ar gyfer y Cyngor yn y Siarter a Statudau a'r Telerau ac Amodau Cyllido blynyddol a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys polisiâu, rheoliadau a chynlluniau; monitro perfformiad ariannol a gweithredol; gwahanu dyletswyddau; gweithdrefnau awdurdodi a chymeradwyo; systemau gwybodaeth; a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol effeithiol. Mae hefyd yn cynnwys proses barhaus a luniwyd i nodi'r prif risgiau i gyflawni'r cynlluniau a'r amcanion strategol, i werthuso natur a hyd a lled y risgiau, ac i reoli'r risgiau hynny mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae'r systemau hyn wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol. Mae'r system yn cyd-fynd â chanllawiau perthnasol gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethiant o ran cyflawni amcanion busnes; felly mae'n rhoi sicrwydd rhesymol ond nid pendant o effeithiolrwydd, ac nid yw'n rhoi sicrwydd pendant yn erbyn camdatganiad neu golled berthnasol.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Risg awdurdod penodol a ddirprwywyd gan y Cyngor i fonitro ac adolygu materion rheolaeth fewnol ar ei ran ac i adrodd i'r Cyngor ar y materion hyn. Mae Archwilwyr Mewnol Annibynnol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r systemau rheolaeth fewnol; mae cwmpas eu gwaith yn cael ei bennu, ymlaen llaw, gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, y rhoddir eu hadroddiadau a'u hargymhellion iddo. Caiff y meysydd i'w hadolygu eu pennu yn ôl eu harwyddocâd i weithrediadau'r Brifysgol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â methiant y gweithrediadau hynny; maent yn cynnwys materion gweithredol a materion chydymffurfedd, yn ogystal â risg ariannol. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor ac yn cwrdd yn breifat ag aelodau annibynnol ar bob achlysur. Adroddir ar drafodaethau'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhob cyfarfod o'r Cyngor.

Mae'r Brifysgol wedi sefydlu methodoleg gadarn ar gyfer gwerthuso a rheoli risg yn barhaus, sy'n gysylltiedig yn benodol â chyflawni amcanion y sefydliad. Mae cofrestr risgiau Grŵp PCYDDS a chofrestr risgiau corfforaethol y Brifysgol gyfan, sy'n rhoi sgôr i debygolrwydd ac effaith risgiau a nodir, yn cael eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd gan yr Uwch-gyfarwyddiaeth. Mae cofrestrau risgiau adrannol yn cael eu llunio a'u hadolygu ar lefel leol, gyda risgiau'n cael eu huwchgyfeirio i'r gofrestr risgiau corfforaethol fel y bo'n briodol. Cynhelir cofrestrau hefyd ar gyfer prosiectau a gweithgareddau mawr arwahanol. Mae cofrestr risgiau y Grŵp a'r gofrestr risgiau corfforaethol yn cael eu hystyried ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a rhoddir gwybod i'r Cyngor am unrhyw newidiadau. Cafodd Polisi Rheoli Risg y Grŵp a'r broses o lunio'r gofrestr risgiau eu hadolygu'n llwyr yn 2021-22, a chymeradwywyd y diwygiadau arfaethedig gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022. Cynhaliwyd archwiliad mewnol o ddull y Grŵp o Reoli Risgiau yn ystod haf 2022, a rhoddodd hyn sicrwydd digonol mewn perthynas â digonolrwydd rheolaethau mewnol, a sicrwydd sylweddol mewn perthynas ag effeithiolrwydd rheolaethau mewnol. Erbyn mis Hydref 2022, roedd cynnydd da wedi cael ei wneud o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad.

Mae adolygiad y Cyngor o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol hefyd yn cael ei lywio gan waith uwchswyddogion yn y Brifysgol, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a chan sylwadau a wneir gan yr Archwilwyr Allanol yn eu llythyr diwedd blwyddyn at y rheolwyr, a'u hadroddiadau eraill.

Ni ddaeth unrhyw wendidau neu fethiannau sylweddol o ran rheolaeth fewnol i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ariannol nac ar ôl y flwyddyn ariannol ond cyn i'r datganiadau ariannol hyn gael eu llofnodi.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Rheoli Risgiau/Y Gofrestr Risgiau

Mae'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn nodi'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli risgiau, gan gynnwys y broses barhaus o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau.

Mae'r Brifysgol yn cynnal cofrestr risgiau gynhwysfawr, a chaiff risgiau penodol eu dyrannu i'r uwch-reolwyr a'r penaethiaid adran priodol. Perchnogion y risgiau hyn sy'n gyfrifol am nodi a gweithredu camau lliniaru i amddiffyn y Brifysgol.

Rhoddir 'sgôr' cychwynnol i risgiau yn seiliedig ar y tebygolrwydd y byddant yn digwydd a'u heffaith ar y Brifysgol. Ceir diweddariadau ym mhob cyfarfod pwyllgor neu gyfarfod cyngor perthnasol, sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chamau lliniaru/chamau newydd a nodwyd, a chaiff y sgôr ei diweddaru yn dilyn y camau lliniaru.


Cyflwynir diweddariad llawn ar y gofrestr i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Casgliad

Mae'r sector Addysg Uwch yn addasu i amgylchedd ôl-COVID-19 lle bydd y dull traddodiadol o addysgu yn esblygu i ffurfio model hybrid gwirioneddol, a lle bydd anghenion a disgwyliadau'r myfyrwyr yn debygol o fod yn wahanol i'w hanghenion a'u disgwyliadau cyn COVID-19. Bydd yr heriau y mae'r sector yn eu hwynebu yn parhau trwy gydol 2022-2023.

Mae'r Brifysgol yn parhau i atgyfnerthu ei gweithrediadau craidd a darparu amrywiaeth o ran cynhyrchion a marchnadoedd.

Mae rheoli costau yn parhau i fod yn brif ffocws ar gyfer y Brifysgol, ac mae'r camau a gymerwyd mewn blynyddoedd blaenorol wedi darparu sail gadarn y gall y Brifysgol ei defnyddio i liniaru unrhyw heriau a ddaw i'r amlwg yn ystod y flwyddyn a darparu *sefyllfa weithredu iach i fodloni heriau yn y dyfodol*.



Yr Hybarch Randolph Thomas
Cadeirydd Cyngor y Brifysgol

DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyngor Mewn Perthynas â'r Adroddiad Blynyddol A'r Datganiadau Ariannol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol, ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion y Telerau ac Amodau Cyllid a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd gan CCAUC, y Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae'n ofynnol iddo baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon a gofynion Deddf Elusennau 2011. Mae'r Telerau ac Amodau Ariannu hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019, yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-Brifysgol ac o'u hincwm a gwariant, eu henillion a cholledion, a newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dethol polisiau cyfrifyddu addas, a'u cymhwyso mewn modd cyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol y DU a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir wedi cael eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-Brifysgol i barhau i fod yn fusnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw; a
- chyfrifyddu ar sail busnes hyfyw oni bai ei fod naill ai'n bwriadu datod y Grŵp neu'r rhiant-Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu am nad oes ganddo ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cymwys sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodiadau'r rhiant-Brifysgol a datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y rhiant-Brifysgol. Mae'n gyfrifol am y cyfryw reolaeth fewnol ag y mae'n pennu sy'n angenrheidiol i alluogi i ddatganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, gael eu paratoi, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am gymryd y camau hynny sy'n rhesymol ar gael iddo i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod cronfeydd o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael eu defnyddio'n briodol at y dibenion hynny a'u rheoli'n unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- bod incwm, lle bo hynny'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 o God Rheolaeth Ariannol CCAUC;
- bod grantiau'r Cyngor Cyllido wedi cael eu defnyddio yn unol â'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrthynt a'u defnyddio at y dibenion y daethant i law ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau ac Amodau Cyllido;
- bod yna reoliadau ariannol a rheolaethol priodol ar waith i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill; a
- bod adnoddau a gwariant y Brifysgol yn cael eu rheoli mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. .

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal cywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar wefan y Brifysgol. Gall deddfwriaethau yn y DU sy'n llywodraethu'r broses o baratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaethau mewn awdurdodaethau eraill.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CYMRU: Y DRINDOD DEWI SANT

Adroddiad Yr Archwilydd Annibynnol I Gyngor Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant Adroddiad Ar Yr Archwiliad O'r Datganiadau Ariannol

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (“y Brifysgol”) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022, sy’n cynnwys Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, Mantolen Gyfunol a Mantolen y Brifysgol, Datganiad Cyfunol o Lifau Arian a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y Grŵp a’r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2022 ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion, a newidiadau yng nghronfeydd wrth gefn y Grŵp a’r Brifysgol, ac o lifau arian y Grŵp, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi’n briodol, yn unol â safonau cyfrifyddu y DU, sy’n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy’n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, ac â’r Datganiad o’r Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail ar gyfer y farn

Rydym wedi cael ein penodi’n archwilydd o dan Siarter a Statudau y Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenydd), ac rydym yn adrodd yn unol â’r rheoliadau a luniwyd o dan adran 154 o’r Ddeddf honno.

Rydym yn cynnal ein harchwiliad yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (“ISAs (UK)”) a’r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU, sy’n cynnwys Safon Foesebol yr FRC, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â’r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi’i chasglu yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Busnes hyfyw

Mae’r Cyngor wedi paratoi’r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw gan nad yw’n bwriadu datod y Grŵp na’r Brifysgol na rhoi’r gorau i’w gweithrediadau, ac am ei fod wedi dod i’r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a’r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Mae hefyd wedi dod i’r casgliad nad oes yna unrhyw ansicrwyddau perthnasol a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar eu gallu i barhau i fod yn fusnes hyfyw am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo’r datganiadau ariannol (“cyfnod y busnes hyfyw”).

Yn ein gwerthusiad o gasgliadau’r Cyngor, roeddem wedi ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp a dadansoddi’r modd y gallai’r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a’r Brifysgol neu eu gallu i barhau â’u gweithrediadau dros gyfnod y busnes hyfyw.

Ein casgliad yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym o’r farn bod defnydd y Cyngor o’r broses cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi nodi ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda’i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r Grŵp neu’r Brifysgol i barhau i fod yn fusnes hyfyw ar gyfer cyfnod y busnes hyfyw, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor nad oes ansicrwydd perthnasol o’r fath yn bodoli.

Fodd bynnag, gan na allwn rag-weld pob digwyddiad neu sefyllfa yn y dyfodol, a chan y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy’n anghyson â’r farn a oedd yn rhesymol ar yr adeg y’i mynegwyd, nid yw’r casgliadau uchod yn warant y bydd y Grŵp neu’r Brifysgol yn parhau i weithredu.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CYMRU: Y DRINDOD DEWI SANT

Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i’w canfod

Nodi ac ymateb i risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll

Er mwyn nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll (“risgiau o dwyll”), roeddem wedi asesu digwyddiadau neu sefyllfaoedd a allai fod yn arwydd o gymhelliant neu bwysau i dwyllo neu a allai ddarparu cyfle i dwyllo. Roedd ein gweithdrefnau ar gyfer asesu risgiau yn cynnwys y canlynol:

- Holi’r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y broses archwilio mewnol a’r broses o adolygu dogfennaeth polisi ynghylch polisiau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a dulliau’r Grŵp ar gyfer “chwythu’r chwiban”, yn ogystal â pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y pwyllgor ystadau a phwyllgorau eraill.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansodol i nodi unrhyw berthnasoddedd anarferol neu annisgwyl.
- Cael copi o gofrestr twyll y Grŵp.
- Bu i ni gyfleu unrhyw risgiau o dwyll a nodwyd ledled y tîm archwilio, a chadw’n effro trwy gydol yr archwiliad i unrhyw arwyddion o dwyll.

Fel sy’n ofynnol gan y safonau archwilio, a chan ystyried pwysau posibl i fodloni cyfamodau benthyciadau, rydym yn cyflawni gweithdrefnau i fynd i’r afael â’r risg bod y rheolwyr yn diystyru’r rheolaethau, a’r risg y gallai rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol. Yn ystod yr archwiliad hwn, nid oeddem wedi nodi risg o dwyll mewn perthynas â chydabod refeniw oherwydd y meini prawf anghymhleth i gydnabod refeniw, sy’n cyfyngu ar y cyfleoedd i drin refeniw mewn modd twyllodrus.

Nid oeddem wedi nodi unrhyw risgiau ychwanegol o dwyll.

Wrth bennu’r gweithdrefnau archwilio, roeddem wedi ystyried canlyniadau ein proses o werthuso a phrofi effeithiolrwydd gweithredu rheolaethau’r cwmni drwyddo draw o ran rheoli risgiau o dwyll.

Roeddem hefyd wedi cyflawni gweithdrefnau a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Nodi cofnodion mewn dyddlyfrau i’w profi yn seiliedig ar feini prawf risg, a chymharu’r cofnodion a nodwyd â dogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion mewn dyddlyfrau a oedd yn cynnwys geiriau allweddol penodol, dyddlyfrau refeniw a fewnbynnyd i gyfrifon anghysylltiol, cofnodion anarferol mewn dyddlyfrau o ran arian parod a benthyciadau, a dyddlyfrau perthnasol a fewnbynnyd ar ôl dyddiad cau’r cyfrifyfr.
- *Nodi ac ymateb i risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau*

O’n profiad masnachol a sectoraidd cyffredinol, a thrwy drafod â’r cyfarwyddwyr (fel sy’n ofynnol gan safonau archwilio), bu i ni nodi adrannau o gyfreithiau a rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol, a thrafodwyd y polisiau a’r gweithdrefnau â’r cyfarwyddwyr mewn perthynas â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Bu i ni gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau a nodwyd ledled ein tîm, a chadw’n effro trwy gydol yr archwiliad i unrhyw arwyddion o beidio â chydymffurfio.

Mae effaith bosibl y cyfreithiau a’r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio’n sylweddol.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CYMRU: Y DRINDOD DEWI SANT

Mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, yn cynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol, deddfwriaeth trethiant, deddfwriaeth pensiynau, deddfwriaeth elusennau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a rheoliadau addysg uwch, gan gynnwys y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac aethom ati i asesu i ba raddau y cydymffurfir â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn yn rhan o'n gweithdrefnau mewn perthynas â'r eitemau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau peidio â chydymffurfio gael effaith berthnasol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol; mae enghreifftiau'n cynnwys gosod dirwyon neu ymgyfreitha neu'r angen i gynnwys darpariaethau sylweddol. Nodwyd gennym mai'r meysydd canlynol a oedd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol addysg uwch Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gydnabod natur reoledig gweithgareddau'r Grŵp. Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi achosion o beidio â chydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, i holi'r cyfarwyddwyr a'r rheolwyr eraill, ac i arolygu unrhyw ohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol sy'n bodoli. Felly, os na chaiff achos o dorri rheoliadau gweithredol ei ddatgelu i ni, neu os nad yw'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod yr achos hwnnw.

Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu achosion o dorri'r gyfraith neu reoliadau

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae yna risg anochel na fyddwn, o bosibl, wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er i ni gynllunio a chynnal ein harchwiliad mewn modd priodol yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf i ffwrdd o'r digwyddiadau a'r trafodiadau a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol y mae'r achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, lleiaf tebygol yw hi y byddai'r gweithdrefnau cynhenid gyfyngedig sy'n ofynnol gan y safonau archwilio yn eu canfod.

At hynny, fel yn achos unrhyw archwiliad, roedd risg uwch yn dal i fodoli na fyddai twyll yn cael ei ganfod gan y gallai achosion o dwyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ganfod camddatganiad perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfedd neu dwyll, ac ni ellir disgwyl i ni ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfedd â phob cyfraith a rheoliad.

Gwybodaeth arall

Y Cyngor (y mae ei aelodau yn Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion cyfraith elusennau) sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr Adolygiad Gweithredol a'r Adolygiad Ariannol, a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o gasgliad o ran sicrhau'r datganiadau hynny, ac eithrio fel y nodir yn benodol isod.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried, yn seiliedig ar ein gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol, a yw'r wybodaeth honno yn cael ei chamddatgan mewn modd perthnasol neu a yw'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth am yr archwiliad. Mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os yw'r canlynol yn wir:

- ein bod, yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr wybodaeth arall; neu
- fod yr wybodaeth a roddir yn yr Adolygiad Gweithredol neu Ariannol ac Adroddiad y Llywodraethwyr a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol, yn ein barn ni, yn anghyson mewn unrhyw fodd perthnasol â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt trwy eithriad

O dan Ddeddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os yw'r canlynol yn wir yn ein barn ni:

- nad yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gydnaws â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CYMRU: Y DRINDOD DEWI SANT

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel yr eglurir yn llawnach yn ei ddatganiad a nodir ar dudalen 38, mae'r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg; unrhyw reolaeth fewnol y mae'n penderfynu ei bod yn angenrheidiol i alluogi'r broses o baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-Brifysgol i barhau i fod yn fusnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw; cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw oni bai ei fod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant-Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu am nad oes ganddo ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol, yn gyffredinol, yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, p'un a yw'r rheiny'n ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilio. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio y Deyrnas Unedig bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo un yn bresennol. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr yn seiliedig ar y datganiadau ariannol.

Darperir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan yr FRC: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Adroddiad Ar Ofynion Cyfreithiol A Rheoleiddiol Eraill

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion canlynol a ragnodir yng Nghod Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC') a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ac yn y Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd gan CCAUC ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon").

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r canlynol yn wir:

- bod cronfeydd o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael eu defnyddio'n briodol at y dibenion hynny a'u rheoli'n unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- bod incwm, lle bo hynny'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 o God Rheolaeth Ariannol CCAUC;
- bod grantiau'r Cyngor Cyllido wedi cael eu defnyddio'n unol â'r telerau ac amodau cysylltiedig, a'u defnyddio at y dibenion y'u cafwyd ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau ac Amodau Cyllido; a
- bod gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC wedi cael eu bodloni.

Diben Ein Gwaith Archwilio, Ac I Bwy Yr Ydym Yn Gyfrifol

Llunnir yr adroddiad hwn ar gyfer y Cyngor yn unig, yn unol ag Ordinadau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a'r rheoliadau a luniwyd o dan adran 154 o'r Ddeddf. Gwnaed ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu nodi wrth Lywodraethwyr y Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac nid i unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r Brifysgol a'r Cyngor am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y barnau yr ydym wedi'u llunio.

Rees Batley (ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol)

Mae Cyfrifwyr Siartredig KPMG LLP yn gymwys i weithredu yn rôl archwilydd o ran adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006
Cyfrifwyr Siartredig
3 Sgwâr y Cynulliad
Ceir Britannia
Caerdydd
CF10 4AX
25 Tachwedd 2022

DATGANIAD CYFUNOL A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O INCWM CYNHWYSFAWR

Nodiadau	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
Incwm				
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	2	91,568	85,392	87,021
Grantiau cyrff cyllido	3	64,278	12,941	58,903
Grantiau a chontractau ymchwil	4	378	378	617
Incwm arall	5	22,929	13,938	26,202
Incwm o fuddsoddiad	6	1,717	1,663	1,128
Cyfanswm yr Incwm		180,870	114,312	173,871
Gwariant				
Costau staffio	7	87,832	57,606	82,082
Symudiad ar ddarpariaeth yr USS	7	23,995	23,996	2,618
Treuliau gweithredu eraill	9	72,942	41,860	66,155
Dibrisiant ac amhariadau	11	9,635	6,114	11,686
Llog a chostau cyllid eraill	8	2,781	2,249	3,125
Cyfanswm y gwariant		197,185	131,824	165,666
Gwarged/(diffyg) cyn enillion a cholledion eraill a chyfran o warged/(diffyg) gweithredu mentrau ar y cyd a chwmnïau cyswllt		(16,315)	(17,512)	5,131
Yr enillion ar ôl cael gwared ar asedau sefydlog		232	231	36
Y gostyngiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi	13	(27)	123	(1,872)
Enillion/(Colledion) ar fuddsoddiadau		(254)	(205)	811
Y gyfran o'r diffyg gweithredol mewn perthynas â chwmnïau cyswllt	14	-	-	-
		(16,364)	(17,363)	7,180
Trethiant	10	(9)	-	(46)
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn		(16,373)	(17,363)	7,134
Enillion/(colledion) actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	27	53,538	27,818	20,880
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		37,165	10,455	28,014
Cynrychiolir gan:				
Incwm cynhwysfawr y gwaddol ar gyfer y flwyddyn	22	1,257	1,253	1,366
Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig ar gyfer y flwyddyn		35,908	9,202	26,648
Gwarged ar gyfer y flwyddyn i'w briodoli i				
Y Brifysgol		(16,348)	(17,363)	7,323
Buddiant anllywodraethol		(25)	-	(189)
		(16,373)	(17,363)	7,134
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn i'w briodoli i				
Y Brifysgol		37,190	10,455	28,203
Buddiant anllywodraethol		(25)	-	(189)
		37,165	10,455	28,014

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant yn berthnasol i weithgareddau parhaus

DATGANIAD CYFUNOL A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN


Cyfunol	Gwaddol	Anghyfyngedig	Y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn	Cyfanswm heb gynnwys Buddiant Anllywodraethol	Buddiant Anllywodraethol	Cyfanswm
Balans ar 1 Awst 2020	7,673	17,830	23,967	49,470	(526)	48,945
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm a gwariant Incwm cynhwysfawr arall	1,366	5,957	-	7,323	(189)	7,134
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	1,366	26,837	-	28,203	(189)	28,014
Balans ar 1 Awst 2021	9,039	44,667	23,967	77,673	(715)	76,958
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm a gwariant Incwm cynhwysfawr arall	1,257	(17,605)	-	(16,348)	(25)	(16,373)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	1,257	35,933	-	37,190	(25)	37,165
Balans ar 1 Awst 2022	10,296	80,600	23,967	114,863	(740)	114,123
Y Brifysgol	Gwaddol	Anghyfyngedig	Y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn	Cyfanswm		
	£'000	£'000	£'000	£'000		
Balans ar 1 Awst 2020	7,233	11,474	14,454	42,706		
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm a gwariant Incwm cynhwysfawr arall	1,357	4,851	-	6,208		
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	1,357	19,854	-	21,211		
Balans ar 1 Awst 2021	8,590	31,291	14,454	54,335		
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm a gwariant Incwm cynhwysfawr arall	1,253	(18,615)	-	(17,362)		
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	1,253	9,204	-	10,457		
Balans ar 1 Awst 2022	9,843	40,495	14,454	64,792		

DATGANIAD CYFUNOL O LIFAU ARIAN PAROD


Nodiadau	Ar 31 Gorffennaf 2022		Ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
Asedau anghyfredol				
Asedau sefydlog diriaethol	11	152,464	106,814	153,248
Asedau treftadaeth	12	6,205	6,205	6,241
Eiddo buddsoddi	13	3,519	2,519	4,414
Buddsoddiadau	14	807	-	788
		162,995	115,538	164,691
				116,358
Asedau cyfredol				
Asedau a ddelir i'w gwerthu	11	1,957	1,957	-
Stoc	16	527	281	487
Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	17	34,651	41,272	26,417
Buddsoddiadau	18	5,917	5,901	5,875
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod		59,527	37,758	54,856
		102,579	87,169	87,635
				78,374
Llai: Credydwy: symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	19	(68,854)	(65,875)	(63,545)
Asedau cyfredol net/(rhwymedigaethau)		33,725	21,294	24,090
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		196,720	136,832	188,781
Credydwy: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	20	(32,529)	(32,366)	(34,677)
Darpariaethau				
Darpariaethau pensiwn	27	(47,813)	(38,775)	(74,536)
Darpariaethau eraill	21	(2,255)	(899)	(2,610)
Asedau net		114,123	64,792	76,958
				54,335
Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig				
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – cronfa gwaddol wrth gefn	22	10,296	9,843	9,039
Cronfeydd Wrth Gefn Anghyfyngedig				
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – anghyfyngedig		80,600	40,495	44,667
Y Gronfa ailbrisiwr wrth gefn		23,967	14,454	23,967
		114,863	64,792	77,673
				54,335
Buddiant anllywodraethol	25	(740)	-	(715)
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn		114,123	64,792	76,958
				54,335

Mae'r nodiadau a'r polisiâu atodol ar dudalennau 47 i 88 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu ar 24 Tachwedd 2022 a'u llofnodi ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:



Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)



Yr Athro Medwin Hughes (Is-Ganghellor)

DATGANIAD CYFUNOL O LIFAU ARIAN PAROD

Nodiadau	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Llif arian o weithgareddau gweithredol				
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		(16,373)		7,134
Addasiad ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod				
Dibrisiant ac amhariadau (Enillion)/Colledion ar werth marchnadol buddsoddiadau	11	9,635		11,686
(Enillion)/Colledion ar eiddo buddsoddi	13	254		(811)
Colledion o ran ailbrisiwr da byw	11	27		1,872
Gostyngiad/(cynnydd) yn y stoc	16	-		-
Gostyngiad/(cynnydd) yn y dyledwyr	17	(40)		60
Cynnydd/(gostyngiad) yn y credydwy	19	(8,239)		1,446
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau eraill	21	5,306		13,241
Costau pensiwn llai cyfraniadau sy'n daladwy	27	(355)		(70)
Treth a dalwyd yn ystod y flwyddyn		26,875		4,980
Cyfran o'r (gwarged)/diffyg gweithredu mewn perthynas â chwmnïau cyswllt a mentrau ar y cyd	14	-		(16)
		-		320
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu gyllido				
Incwm o fuddsoddiad	6	(1,717)		(1,128)
Llog sy'n daladwy	8	1,639		1,798
Incwm grant cyfalaf		(1,050)		(8,120)
Elw o werthu asedau sefydlog		(232)		(36)
Gwaddol a gafwyd yn ystod y flwyddyn		1,343		-
Llif arian parod net i mewn i/(allan o) weithgareddau gweithredu		17,073		32,037
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi				
Enillion o werthu asedau sefydlog		3,521		167
Derbyniadau grant cyfalaf		1,050		8,120
Incwm o fuddsoddiad		820		300
Buddsoddiadau sy'n asedau anghyfredol newydd				-
Taliadau a wnaed i brynu asedau sefydlog		(14,185)		(9,318)
		(8,793)		(732)
Llifau arian o weithgareddau ariannu				
Elfen llog taliadau rhent les cyllid		(54)		(73)
Llog a dalwyd		(1,714)		(1,634)
Lesoedd cyllido newydd		586		466
Ad-dalu benthyciadau		(2,000)		(2,000)
Elfen cyfalaf net taliadau rhent les cyllid		(426)		(249)
		(3,608)		(3,496)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn		4,671		27,808
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn		54,856		27,048
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn		59,527		54,856

Nodyn 1: DATGANIAD O'R POLISI'AU CYFRIFYDDU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022

a. Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019, ac yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol (FRS 102).

Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwysu'r gofyniad budd cyhoeddus perthnasol, sef FRS 102. Paratoir y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio mewn perthynas ag eiddo buddsoddi, buddsoddiadau sy'n asedau cyfredol ac offerynnau ariannol deilliadol sy'n cael eu cario ar werth teg.

b. Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2021, sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Caiff trafodiadau o fewn endidau eu dileu'n llwyr wrth gyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar y broses o reoli polisi, na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau ynghylch polisi.

Gwneir cyfrif am gwmnïau cysylltiedig a mentrau ar y cyd trwy ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r rhiant-gwmni yn cael ei gynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol, ac fe'i hystyrir yn endid cymwys o dan FRS 102, paragraffau 1.8 i 1.12. Cymhwyswyd yr esemptiadau canlynol sydd ar gael o dan FRS 102 mewn perthynas â datgeliadau penodol ar gyfer datganiadau ariannol y rhiant-gwmni:

- Nid oes yr un Datganiad Llif Arian ar wahân gyda nodiadau perthnasol wedi'i gynnwys ar gyfer y rhiant-gwmni;
- Nid yw iawndal i Bersonél Rheoli Allweddol wedi cael ei gynnwys am yr eilwaith; ac
- Nid yw'r datgeliadau sy'n ofynnol gan faterion FRS 102.11 Offerynnau Ariannol Sylfaenol ac FRS 102.12 Offeryn Ariannol Arall mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn dod o fewn rheolau cyfrifyddu gwerth teg paragraff 36(4) o Atodiad 1.

c. Busnes Hyfyw

Nodir gweithgareddau'r Brifysgol a'i his-gwmnïau, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei datblygiad a'i pherfformiad yn y dyfodol, yn yr adolygiad Gweithredol ac Ariannol. Cyflwynir sefyllfa ariannol y Brifysgol a'i his-gwmnïau, ei llif arian, ei hylifedd a'i benthyciadau, yn y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau ategol. Paratoir y datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw sydd, ym marn yr uwch-reolwyr a'r Cyngor, yn briodol am y rhesymau canlynol.

Ar ôl addasu ar gyfer addasiadau nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â darpariaeth gwerth £23.2 miliwn yr USS ac eitemau eraill nad ydynt yn rhai craidd (fel y nodir ar dudalen 20), mae'r Brifysgol wedi cofnodi gwarged o £8.4 miliwn yn y flwyddyn, ynghyd â llif arian positif o £4.7 miliwn. Mae'r enillion hyn yn adeiladu ar warged gwaelodol o £10.5 miliwn a mewnlif arian parod positif o £27.8 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r gyllideb ar gyfer 2022-2023 yn targedu gwarged o £5.0 miliwn cyn gwerthu tir a mewnlif arian gweithredol positif o £14.5 miliwn sydd, ar ôl ychwanegiadau cyfalaf, yn cynhyrchu all-lif arian parod net o £8.2 miliwn. O ganlyniad i hyn, mae'r uwch-reolwyr a'r Cyngor yn fodlon bod y Brifysgol yn broffidiol ac yn cynhyrchu arian, ac y bydd yr ôl-falans terfynol disgwylidig ym mis Gorffennaf 2023, sef £51.3 miliwn, ynghyd â'r buddsoddiadau a wnaed yn 2022-2023, yn sicrhau llifau arian positif yn gyflym yn 2023-2024.

Fel y nodir ar dudalen 19 o'r adolygiad ariannol, mae'r diffyg o £16.4 miliwn a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar warged gwaelodol o £8.3 miliwn, sy'n cynrychioli sefyllfa weithredu gymharol ar gyfer y Brifysgol pan gaiff gweithgarwch nad yw'n ymwneud ag arian parod ac nad yw'n greiddiol ei dynnu allan o'r gwarged neu'r diffyg a adroddir ar gyfer y flwyddyn. Mae'r sefyllfa waelodol o £8.3 miliwn yn ostyngiad o £2.2 miliwn o'r gwarged gwaelodol o £10.5 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r symudiad yn y sefyllfa waelodol i'w briodoli'n bennaf i'r Brifysgol yn buddsoddi yn ei sylfaen costau i gefnogi'r lefelau incwm cynyddol, ac mae'n cyd-fynd â'r sefyllfa arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn.

Nodyn 1: DATGANIAD O'R POLISI'AU CYFRIFYDDU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022

Ystyrir bod y lefel incwm a'r sylfaen costau cyfredol yn gynaliadwy, gyda'r gyllideb ar gyfer 2022-2023 yn dangos twf pellach yn yr incwm ac yn ei berfformiad o ran enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddio.

Yn rhan o broses y gyllideb, mae'r Brifysgol wedi symud i sefyllfa o osod targedau rhwng 10% a 15% ar gyfer enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddio, cynhyrchu llif arian o £10 miliwn cyn gweithgareddau gwariant cyfalaf a chyllido, a chymhareb cyflogau i incwm sy'n llai na 55%. Mae'r targedau hyn yn bwydo cynllun ariannol strategol sy'n adeiladu ar y mentrau newydd llwyddiannus a roddwyd ar waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynyddu'r gwarged ar y gweithgareddau craidd a darparu gwargedion arian parod yn sgil gweithrediadau. Mae i'r cynllun ariannol strategol dair rhan allweddol: Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Cydnabod effaith ffactorau demograffig a disgwyladau newidiol ar y farchnad, ac ailstrwythuro sylfaen y costau darparu o ganlyniad. Mae hyn eisoes wedi cael ei gyflawni'n sylweddol wrth i gynlluniau aildrefnu ac ailstrwythuro gael eu gweithredu ledled campysau De Cymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol;
2. Cydnabod yr angen a'r galw am fodelau dysgu mwy hyblyg, ac anghenion a disgwyladau'r oedolion hynny nad ydynt mewn Addysg Uwch a Phellach ar hyn o bryd ac a nodwyd yn adolygiad Augar, a datblygu modelau darparu i fynd i'r afael â hyn. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Canolfannau Dysgu anhraddodiadol yn Ne Cymru, Llundain a Birmingham ac iddynt fodelau darparu newydd, ac mae nifer y myfyrwyr yn cynyddu'n sylweddol yn y canolfannau hyn; a
3. Cydnabod galw cynyddol sefydliadau addysg rhyngwladol am bresenoldeb ym marchnad addysg uwch y DU, a meithrin cynghreiriau a phartneriaethau strategol i gynyddu nifer y myfyrwyr a'r incwm yn y maes hwn.

Roedd y Brifysgol a'i his-gwmnïau wedi paratoi rhagolygon ariannol pum mlynedd yn rhan o broses gyllidebol 2022-2023, sy'n sicrhau gwargedion a llif arian positif ym mhob blwyddyn yn seiliedig ar y cynlluniau uchod. Maent hefyd wedi ystyried senarios amgen o ran "gwendidau" pe na chyflawnir y cynlluniau hyn, ynghyd â'r camau lliniaru amgen a fyddai'n ofynnol o ganlyniad. Mae'r perfformiad cynnar yn 2022-2023 yn cyd-fynd â disgwyladau cyffredinol y gyllideb ar gyfer y cyfnod, ac mae gan y Brifysgol nifer o fesurau lliniaru a chyfleoedd incwm y gellir eu gweithredu os bydd y broses recriwtio a'r perfformiad yn ystod y flwyddyn yn gwyo oddi wrth sefyllfa'r gyllideb.

Yn rhan o'r asesiad o'r busnes hyfyw, mae'r Brifysgol a'r is-gwmnïau wedi paratoi rhagolygon ariannol manwl ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2023. Paratowyd y rhain ar gyfer senarios "achos sylfaenol" ac "achos â gwendidau a chamau lliniaru", fel ei gilydd. Mae'r achos â gwendidau yn adlewyrchu'r prif risgiau o ran perfformiad ariannol y mae'r Brifysgol a'i his-gwmnïau yn agored iddynt, a chredir ei fod yn asesiad teg a phwylog o'r rhain. Yn y ddau senario, mae gan y Brifysgol a'i his-gwmnïau adnoddau ariannol digonol i gynnal gweithrediadau dros gyfnod y rhagolwg, sef 12 mis o ddyddiad y cyfrifon hyn, a thu hwnt, ac i gyflawni rhwymedigaethau pan fyddant yn ddyledus. At hynny, bodlonir profion y cyfamodau bancio ar bob cam profi yng nghyfnod y rhagolwg.

Yn dilyn adolygu'r rhagolygon hyn, mae'r Cyngor o'r farn, ar ôl ystyried anfanteision difrifol ond tebygol, gan gynnwys yr amgylchedd economaidd cyfnewidiol y mae'r DU ynddo ar hyn o bryd, y bydd gan y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol ddigon o gyllid i fodloni eu rhwymedigaethau pan fyddant yn dod yn ddyledus yn ystod y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (cyfnod asesu'r busnes hyfyw).

Caiff cyfamodau bancio y Grŵp i'r HSBC eu profi ar 31 Gorffennaf 2022 a 31 Hydref 2022, a chânt eu profi nesaf ar 31 Ionawr 2023 ac yna ar ddiwedd pob chwarter dilynol. Llwyddwyd pob prawf cyfamod yn y pedwar pwynt profi yn 2021-2022 ac ym mis Hydref 2022, a hynny heb i unrhyw fater ddod i'r amlwg yn sgil y profion.

Mae'r rhagolygon y cyfeirir atynt uchod yn dangos y bydd y Brifysgol a'i his-gwmnïau yn cydymffurfio â phob cyfamod ar gyfer y senarios "achos sylfaenol" ac "achos â gwendidau a chamau lliniaru", fel ei gilydd.

O ganlyniad, mae'r Cyngor yn hyderus y bydd gan y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol ddigon o gyllid i barhau i gyflawni eu rhwymedigaethau pan fyddant yn dod yn ddyledus, a hynny am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ac felly maent wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Nodyn 1: DATGANIAD O'R POLISI'AU CYFRIFYDDU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022

ch. Cydnabod incwm

Caiff incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau ei gredydu i'r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr pan fydd y nwyddau neu wasanaethau yn cael eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol neu pan fydd telerau'r contract wedi cael eu bodloni.

Caiff incwm ffioedd ei ddatgan heb gynnwys unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt, a'i gredydu i'r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fydd y myfyrwyr yn astudio. Pan fydd swm y ffi dysgu yn cael ei leihau, trwy ddisgownt am dalu'n brydlon, dangosir yr incwm derbyniadwy heb y disgownt. Gwneir cyfrif am fwsariaethau ac ysgoloriaethau yn eu crynswth ar ffurf gwariant, ac ni chânt eu tynnu o'r incwm.

Caiff incwm o ddarparu llety ei gredydu i'r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod y mae'r llety dan contract. Cyhoeddir contractau llety yn flynyddol. Caiff bondiau a ddelir mewn perthynas â llety eu dal yn y Fantolen Gyfunol a Mantolen y Brifysgol, a'u had-dalu i'r myfyrwyr ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd ar yr amod bod telerau contract y llety wedi cael eu bodloni. Caiff unrhyw fond y mae'r Brifysgol yn dal gafael arno ei gredydu i'r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr ar ddiwedd cyfnod contract y llety, a hynny ar ffurf eitem o incwm.

Caiff incwm o fuddsoddiad ei gredydu i'r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr ar sail swm sy'n dderbyniadwy.

Caiff cyllid y mae'r Brifysgol yn ei gael a'i ddsbarthu, yn ei rôl o fod yn asiant talu ar ran corff cyllido, eu heithrio o incwm a gwariant y Brifysgol pan fo'r Brifysgol yn agored i risg fach iawn neu'n cael budd economaidd bach iawn mewn perthynas â'r trafodiad.

Cyllid Grant

Caiff grantiau'r llywodraeth, yn cynnwys: grant bloc y cyngor cyllido; grantiau ymchwil o ffynonellau'r llywodraeth; a grantiau (yn cynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau anllywodraethol, eu cydnabod ar ffurf incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r incwm, a phan fydd yr amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi cael eu bodloni.

Rhoddion a Gwaddolion

Mae trafodiadau digyfnwid heb amodau cysylltiedig â pherfformiad yn rhoddion neu'n waddolion. Caiff rhoddion a gwaddolion sydd â chyfyngiadau wedi'u gosod gan y rhoddwr eu cydnabod yn yr incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r cyllid. Caiff incwm ei gadw yn y gronfa wrth gefn gyfyngedig hyd nes y bydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r cyfryw gyfyngiadau; bryd hynny, caiff yr incwm ei ryddhau i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol trwy drosglwyddiad wrth gefn.

Caiff rhoddion heb unrhyw gyfyngiadau eu cydnabod yn yr incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r cronfeydd hyn.

Caiff incwm o fuddsoddiad ac arbrisiant gwaddolion eu cofnodi yn yr incwm yn y flwyddyn y deuant i law, a hynny ar ffurf naill ai incwm cyfyngedig neu incwm anghyfyngedig, yn unol â'r telerau neu gyfyngiadau eraill sy'n berthnasol i'r gronfa waddol unigol.

Mae yna bedwar prif fath o roddion a gwaddolion yn y cronfeydd wrth gefn:

1. Rhoddion cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi nodi bod yn rhaid i'r rhodd gael ei defnyddio ar gyfer amcan penodol.
2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i gael ei buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, ac mae gan y Brifysgol y pŵer i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i gael ei buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio ar gyfer amcan penodol.

Nodyn 1: DATGANIAD O'R POLISI'AU CYFRIFYDDU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022

Grantiau Cyfalaf

Caiff grantiau cyfalaf eu cofnodi yn yr incwm pan fydd y Brifysgol wedi bodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad, ac felly â hawl iddo.

d. Cyfrifyddu ar gyfer budd-daliadau ymddeol

Mae yna bum prif gynllun pensiwn i staff y Brifysgol; mae un o'r cynlluniau hyn, sef Cynllun Blwydd-daliadau y Prifysgolion (USS), yn agored i aelodau newydd. Mae'r pedwar arall, sef y Cynllun Pensiwn Athrawon, dau gynllun llywodraeth leol (Abertawe a Dyfed), a Chynllun Pensiwn a Sicrwydd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, 'nawr ynghau i aelodau newydd o'r Brifysgol. Mae'r cynlluniau llywodraeth leol ar gyfer Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn parhau'n agored i aelodau newydd. Mae'r cynlluniau'n gynlluniau â buddion wedi'u diffinio a ariennir yn allanol. Caiff pob cronfa ei phrisio bob tair blynedd gan actiwariaid annibynnol â chymwysterau proffesiynol.

Mae'r USS a'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynlluniau amlgyflogwr, ac nid yw'n bosibl adnabod yr asedau a'r rhwymedigaethau ynddynt sy'n berthnasol i aelodau'r Brifysgol o ganlyniad i natur ar y cyd y cynlluniau. Felly gwneir cyfrif am y cynlluniau ar ffurf cynlluniau budd-daliadau ymddeol â chyfraniadau wedi'u diffinio. Caiff rhwymedigaeth ei chofnodi mewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymadau dan contract i ariannu diffygion yn y gorffennol yng nghynllun yr USS.

Cynllun â Chyfraniadau Wedi'u Diffinio

Mae cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio yn gynllun budd-daliadau ôl-gyflogaeth lle mae'r cwmni'n talu cyfraniadau sefydlog i mewn i endid ar wahân, a lle na fydd dan rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i dalu symiau pellach. Caiff rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i gynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio eu cydnabod fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pan fydd cyflogaeth yn rhoi gwasanaeth.

Cynlluniau Amlgyflogwr

Pan na all y Sefydliad adnabod ei gyfran o'r rhwymedigaethau ac asedau gwaelodol mewn cynllun amlgyflogwr yn gyson ac mewn modd rhesymol, mae'n cyfrifyddu fel petai'r cynllun yn gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Pan fydd Sefydliad wedi ymrwymo i gytundeb â chynllun amlgyflogwr o'r fath, sy'n pennu'r modd y bydd y Sefydliad yn cyfrannu ar gynllun adfer diffyg, mae'r Sefydliad yn cydnabod atebolrwydd am y cyfraniadau sy'n daladwy yn sgil y cytundeb, a hynny i'r graddau y maent yn berthnasol i'r diffyg, a chydabyddir y gost ganlyniadol yn y gwariant.

Cynllun â Buddion Wedi'u Diffinio

Mae cynlluniau â buddion wedi'u diffinio yn gynlluniau ôl-gyflogaeth heblaw am gynlluniau â chyfraniadau wedi'u diffinio. O dan gynlluniau â buddion wedi'u diffinio, mae'n rhaid i'r Brifysgol ddarparu'r buddion y cytunwyd arnynt i'r cyflogaeth cyfredol a chyflogaeth blaenorol, a chaiff y risg actiwaraidd (y bydd y buddion yn costio mwy neu lai na'r disgwyl) a'r risg buddsoddi (y bydd yr enillion o asedau a neilltuwyd i ariannu'r buddion yn wahanol i'r disgwyl) eu hysgwyddo, yn gyffredinol, gan y Brifysgol. Dylai'r Grŵp gydnabod atebolrwydd am ei rhwymedigaethau o dan gynlluniau â buddion wedi'u diffinio nad ydynt yn cynnwys asedau'r cynllun. Mae'r rhwymedigaeth hon o ran y buddion wedi'u diffinio net yn cael ei mesur fel amcangyfrif o swm y buddion y mae'r cyflogwyr wedi'i ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnod cyfredol ac mewn cyfnodau blaenorol, wedi'i ddisgowntio i bennu ei werth presennol, llai gwerth teg (ar bris cynnig) asedau'r cynllun. Gwneir y cyfrifiad gan actiwari cymwysedig yn defnyddio'r dull credyd unedau rhagamcanol. Pan fydd canlyniad y cyfrifiad yn ased net, caiff y gydnabyddiaeth o'r ased ei chyfyngu i'r graddau y gall y Brifysgol adfer y gwaged naill ai trwy ostwng cyfraniadau yn y dyfodol neu drwy wneud ad-daliadau o'r cynllun.

dd. Buddion cyflogaeth

Cydnabyddir buddion cyflogaeth byrdymor, megis cyflogau ac absenoldebau a ddigolledir, fel cost yn y flwyddyn y mae'r cyflogaeth yn rhoi gwasanaeth i'r Brifysgol. Caiff unrhyw fuddion nas defnyddir eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawl nas defnyddiwyd.

e. Lesoedd Cyllid

Caiff lesoedd lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo, yn sylweddol, holl risgiau a buddion perchnogaeth o'r ased ar les, eu dosbarthu'n lesoedd cyllid. Caiff asedau ar les a gafwyd trwy les cyllid, ynghyd â rhwymedigaethau cyfatebol y les, eu cydnabod i gychwyn yn ôl swm sy'n hafal i'r isaf o'u gwerth teg a gwerth presennol isafswm y les ar ddechrau'r les.

Nodyn 1: DATGANIAD O'R POLISI'AU CYFRIFYDDU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022

Caiff isafsymiau'r les eu rhannu rhwng cost y cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth sydd i'w dalu. Caiff cost y cyllid ei ddosrannu i bob cyfnod yn ystod cyfnod y les fel ei fod yn cynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill.

f. Lesoedd Gweithredol

Codir tâl am gostau mewn perthynas â lesioedd gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Caiff premiymau neu gymelliadau unrhyw lesioedd eu gwasgaru dros gyfnod gofynnol y les.

ff. Arian Tramor

Yr arian cyfred gweithredol yw £ Sterling. Caiff trafodiadau ar ffurf arian tramor eu trosi'n £ Sterling ar y cyfraddau cyfnewid tramor sy'n berthnasol ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar ffurf arian cyfred tramor ar ddyddiad y fantolen eu trosi'n arian cyfred gweithredol ar y cyfraddau cyfnewid tramor sy'n berthnasol ar y dyddiad hwnnw. Caiff gwahaniaethau o ran cyfnewid arian tramor a ddaw i'r amlwg wrth drosi eu cydnabod yn y Gwarged neu'r Diffyg. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian cyfred tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sy'n weithredol ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a ddelir ar ffurf arian tramor, ac a nodir ar werth teg, eu haildrosi'n arian cyfred gweithredol ar y cyfraddau cyfnewid tramor sy'n berthnasol ar y dyddiad y pennwyd y gwerth teg.

g. Asedau Sefydlog

Caiff asedau sefydlog eu datgan yn ôl y gost/y gost dybiedig llai dibrisiant cronedig a cholledion cronedig o ganlyniad i amhariad. Caiff eitemau asedau sefydlog penodol a ailbrisiwyd yn ôl gwerth teg ar y dyddiad y pontiwyd i'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer AB ac AU 2019, neu cyn y dyddiad hwnnw, eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm newydd ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw. Lle bo gan rannau o asedau sefydlog oesoedd buddiol gwahanol, gwneir cyfrif amdanynt ar ffurf eitemau o asedau sefydlog ar wahân.

Tir ac Adeiladau

Caiff costau yr eir iddynt mewn perthynas â thir ac adeiladau ar ôl eu prynu neu eu hadeiladu i gychwyn, a chyn iddynt gael eu prisio, eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu'r buddion disgwylidig i'r Brifysgol yn y dyfodol. Ni chaiff tir rhydd-ddaliadol ei ddibrisio gan yr ystyrir bod iddo oes fuddiol amhenodol. Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes fuddiol ddisgwylidig, fel a ganlyn:

Adeiladau academaidd	50 mlynedd
Preswylfeydd	30 mlynedd
Labordai a darlithfeydd	30 mlynedd
Gwaith adnewyddu	20 mlynedd

Ni chodir tâl am ddibrisiant ar asedau tra eu bod yn cael eu hadeiladu.

Cyfarpar

Caiff cyfarpar, yn cynnwys cyfrifiaduron a meddalwedd, sy'n costio llai na'r de minimus o £5,000 fesul eitem unigol neu grŵp o eitemau, ei ddileu yn y flwyddyn y caiff ei brynu. Caiff pob cyfarpar arall ei gyfalafu. Nodir cyfarpar wedi'i gyfalafu yn ôl y gost, a chaiff ei ddibrisio dros ei oes fuddiol ddisgwylidig, fel a ganlyn:

Cyfarpar cyfrifiadurol	4 blynedd
Cyfarpar a brynwyd ar gyfer prosiectau ymchwil penodol	3-5 mlynedd
Cyfarpar arall	10 mlynedd
Cerbydau modur	4 mlynedd

Caiff dulliau dibrisio, oesoedd buddiol a gwerthoedd gweddillol eu hadolygu ar y dyddiad y caiff pob Mantolen ei pharatoi.

Costau benthycu

Caiff costau benthycu sydd i'w priodoli'n uniongyrchol i brynu, adeiladu neu gynhyrchu ased gymwys eu cyfalafu.

Nodyn 1: DATGANIAD O'R POLISI'AU CYFRIFYDDU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022

ng. Asedau Treftadaeth

Mae gweithiau celf ac arteffactau gwerthfawr eraill sy'n werth mwy na £25,000 wedi'u cyfalafu a'u cydnabod ar gost neu werth y caffaeliad, lle gellir yn rhesymol gael cost neu brisiad o'r fath. Caiff Gweithiau Celf eu cynnwys yn ôl y costau yr aed iddynt o 1 Ebrill 1981 neu yn ôl ailbrisiad dilynol. Cynhaliwyd yr ailbrisiad diweddaraf o asedau treftadaeth ar 31 Gorffennaf 2014, pan farnwyd bod rhannau penodol o asedau treftadaeth wedi cynyddu mewn gwerth. Bwriedir cynnal adolygiad ailbrisiad llawn o'r Gweithiau Celf yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Gorffennaf 2022. Ni chaiff asedau treftadaeth eu dibrisio am fod eu hoesoedd economaidd hir a'u gwerth gweddillol uchel yn golygu na fyddai unrhyw ddibrisiant yn berthnasol.

h. Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw tir ac adeiladau a ddelir ar gyfer incwm rhent neu arbrisiad cyfalaf yn hytrach nag ar gyfer eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Caiff eiddo buddsoddi eu mesur yn ôl y gost i gychwyn, ac yn dilyn hynny yn ôl gwerth teg, gyda'r symudiadau'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond cânt eu hailbrisiad neu eu hadolygu yn flynyddol, yn unol â chyflwr y farchnad ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn. Cynhelir yr adolygiad o werth teg eiddo buddsoddi gan Savills.

i. Buddsoddiadau

Delir buddsoddiadau anghyfredol ar y Fantolen ar gost wedi'i hamorteiddio llai amhariad. Caiff buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, cwmnïau cyswllt ac is-gwmnïau eu cario ar gost llai amhariad yng nghyfrifon y Brifysgol. Delir buddsoddiadau sy'n asedau cyfredol ar werth teg, gyda symudiadau'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr.

j. Stoc

Delir stoc ar yr isaf o ran y gost a'r gwerth dichonadwy net. Mae'r gost yn cynrychioli pris y stoc ar yr anfoneb.

I. Offerynnau Ariannol

Dyledwyr/credydwyr masnach a dyledwyr/credydwyr eraill

Cydnabyddir dyledwyr a chredydwyr masnach a dyledwyr a chredydwyr eraill i gychwyn ar bris y trafodiad heb gynnwys costau'r trafodiad y gelir eu priodoli. Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol, cânt eu mesur ar gostau wedi'u hamorteiddio llai unrhyw golledion o ganlyniad i amhariad yn achos dyledwyr masnach.

Benthyciadau sy'n ddarostyngedig i log

Caiff benthyciadau sy'n ddarostyngedig i log, heblaw am fenthyciadau rhatach endidau budd cyhoeddus, eu cydnabod i gychwyn ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio yn ôl cyfradd llog y farchnad. Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol, nodir benthyciadau sy'n ddarostyngedig i log ar gost wedi'i hamorteiddio, a hynny gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, llai unrhyw golledion o ganlyniad i amhariad. Caiff benthyciadau rhatach eu cydnabod i gychwyn yn ôl y swm a gafwyd neu a dalwyd, a'u mesur wedi hynny yn ôl cost, ynghyd ag unrhyw log cronedig sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy.

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuron sy'n ad-daladwy ar gais. Mae adneuron yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol cyn pen 24 awr heb gosb. Mae'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn sy'n rhwydd eu trawsnewid yn symiau hysbys o arian parod heb fawr ddim risg y byddant yn newid eu gwerth.

Offer ariannol deilliannol

Caiff offer ariannol deilliannol eu cydnabod ar werth teg. Caiff yr enillion neu'r colledion wrth ailfesur yn ôl gwerth teg eu cydnabod ar unwaith yn yr incwm neu'r gwariant.

II. Darpariaethau, rhwymedigaethau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol

Caiff darpariaethau eu cydnabod yn y datganiadau ariannol pan fydd y canlynol yn wir:

(a) mae gan y Brifysgol rwymedigaeth bresennol (gyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

Nodyn 1: DATGANIAD O'R POLISI'AU CYFRIFYDDU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022

(b) mae'n debygol y bydd all-lif o fuddiannau economaidd yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth; ac
(c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir yn ddarpariaeth trwy ddisgowntio'r llif arian disgwylidig yn y dyfodol ar gyfradd cyn treth sy'n adlewyrchu risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi yn sgil digwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi ymrwymiad posibl ar y Brifysgol, a bydd ei bodolaeth ddim ond yn cael ei chadarnhau yn sgil digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu beidio, nad ydynt o dan reolaeth lwyr y Brifysgol.

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond nid yw'n debygol y bydd all-lif o adnoddau yn ofynnol, neu ni all swm yr ymrwymiad gael ei fesur mewn modd dibynadwy.

Mae ased digwyddiadol yn codi yn sgil digwyddiad sy'n rhoi ased tebygol i'r Brifysgol, a bydd ei fodolaeth ddim ond yn cael ei gadarnhau yn sgil digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu beidio, nad ydynt o dan reolaeth lwyr y Brifysgol.

Ni chydabyddir asedau na rhwymedigaethau digwyddiadol yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu yn y nodiadau.

m. Cyfrifyddu ar gyfer mentrau ar y cyd a chwmnïau cyswllt

Mae'r Brifysgol yn gwneud cyfrif am ei rhan mewn mentrau ar y cyd a chwmnïau cyswllt trwy ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r Brifysgol yn gwneud cyfrif am ei chyfran o'r trafodiadau o fentrau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr.

n. Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen esempt mewn perthynas ag ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Felly mae'n elusen mewn perthynas ag ystyr Paragraff 1 o atodlen 6 i Ddeddf Cyllid 2010 ac, oherwydd hyn, gall y Brifysgol gael ei heithrio o dalu treth mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a geir mewn categorïau a gwmpesir gan adran 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 neu adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, a hynny i'r graddau y mae incwm neu enillion o'r fath yn cael eu cymhwyso at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn destun esemptiad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Caiff TAW anadferadwy ar fewnbynau ei chynnwys yng nghostau mewnbynau o'r fath. Caiff unrhyw TAW anadferadwy a ddyrennir i asedau sefydlog ei chynnwys yn eu costau. Mae nifer o is-gwmnïau'r Brifysgol yn ddarostyngedig i Dreth Gorfforaeth yn yr un modd ag y mae unrhyw sefydliad masnachol arall.

Darperir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau o ran amseru sy'n arwain at rwymedigaeth ar ddyddiad y fantolen i dalu rhagor o dreth, neu hawl i dalu llai o dreth, yn y dyfodol, ar y cyfraddau y disgwylir y byddant yn berthnasol pan ddeuant i fodolaeth yn seiliedig ar y gyfraith a'r cyfraddau presennol. Mae gwahaniaethau o ran amseru yn deillio o gynnwys eitemau incwm a gwariant mewn cyfrifiadau trethiant yn ystod cyfnodau sy'n wahanol i'r rheiny y cânt eu cynnwys ynddynt mewn datganiadau ariannol. Cydnabyddir asedau treth ohiriedig dim ond i'r graddau ei bod yn debygol y cânt eu hadennill yn unol â'r broses o wrthdroi rhwymedigaethau treth ohiriedig neu elw trethadwy arall yn y dyfodol. Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig eu disgowntio.

o. Cronfeydd wrth gefn

Dosberthir cronfeydd wrth gefn yn rhai cyfyngedig ac anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys balansau sydd, trwy waddol i'r Brifysgol, yn cael eu dal ar ffurf cronfa gyfyngedig barhaol y mae'n rhaid i'r Brifysgol ei dal am byth.

Mae cronfeydd wrth gefn cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi dynodi diben penodol, ac felly mae yna gyfyngiad ar y Brifysgol o ran y defnydd o'r cronfeydd hyn.

Nodyn 1: DATGANIAD O'R POLISI'AU CYFRIFYDDU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022

p. Amcangyfrifon a barn cyfrifyddu – ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif
Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r rheolwyr wedi arfer barn yn y meysydd canlynol:

Rhagdybiaethau o ran cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio

Mae gan y Brifysgol nifer o gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Caiff prisiad y rhwymedigaethau ar bob cynllun buddion ei gyfrifo trwy ddefnyddio model ariannol a demograffig i gyflwyno un senario o blith amrywiaeth eang o bosibiliadau. Mae'n anochel y bydd profiad gwirioneddol y cynlluniau yn wahanol i'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r model ariannol a demograffig. Gall y gwahaniaethau fod yn berthnasol gan fod y prisiad yn sensitif iawn i'r rhagdybiaethau a wneir dros gyfnod hir. Gweler nodyn 27 am y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth brisio asedau a rhwymedigaethau pensiwn.

Rhagdybiaethau o ran cynllun pensiwn yr USS

Am fod y Brifysgol yn rhwym trwy contract i wneud taliadau adfer diffyg i'r USS, cydnabyddir hyn yn rhwymedigaeth ar y fantolen.

Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth wedi'i seilio ar gynllun diffyg yr USS y cytunwyd arno yn dilyn prisiad actiwaraid 2020, sy'n diffinio'r taliad diffyg gofynnol fel canran o'r cyflogau yn y dyfodol. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu hailasesu ym mhob un o brisiadau tair blynedd y cynllun.

Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif y rheolwyr o'r chwyddiant cyflogau disgwylidig yn y dyfodol, newidiadau o ran nifer y staff, a'r brif gyfradd ddisgowntio.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn nodyn 27.

NODIADAU I'R CYFRIFON

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
2 Ffioedd dysgu a chontractau addysg				
Myfyrwyr llawn-amser – cartref a'r Undeb Ewropeaidd	78,103	74,265	76,554	72,593
Myfyrwyr rhyngwladol llawn-amser	7,835	7,835	5,079	5,079
Myfyrwyr rhan-amser	3,178	3,292	3,771	3,821
Contractau addysg	2,452	-	1,617	-
	91,568	85,392	87,021	81,493
	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
3 Grantiau cyrff cyllido				
Grant rheolaidd				
Cyngor Cyllido Addysg Uwch	12,941	12,941	12,671	12,286
Llywodraeth Cymru	43,439	-	39,799	-
Grantiau penodol				
Llywodraeth Cymru	7,898	-	6,433	-
	64,278	12,941	58,903	12,286
	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
4 Grantiau a chontractau ymchwil				
Cynghorau ymchwil	108	108	291	291
Elusennau ymchwil	37	37	29	29
Arall	233	233	297	297
	378	378	617	617
	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
Incwm arall				
Preswylfeydd, arlwy a chynadleddau	3,591	2,887	2,415	2,129
Grantiau referniw eraill	9,896	4,955	8,668	3,926
Grantiau cyfalaf eraill	1,050	1,050	8,120	8,120
Gweithgareddau eraill i gynhyrchu incwm	3,402	2,184	2,093	2,253
Incwm arall	4,990	2,862	4,906	3,187
	22,929	13,938	26,202	19,615
	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
Incwm o fuddsoddiad				
Incwm o fuddsoddiadau mewn gwaddolion	84	84	224	224
Incwm o fuddsoddiadau eraill	69	15	49	27
Cynnydd yng ngwerth teg deilliadau	1,564	1,564	855	855
	1,717	1,663	1,128	1,106

NODIADAU I'R CYFRIFON

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
7 Costau staffio				
Cyflogau	65,271	44,260	61,276	40,141
Costau nawdd cymdeithasol	6,449	4,367	5,820	3,873
Symudiad yn narpariaeth yr USS	23,995	23,995	2,618	2,618
Costau pensiwn eraill	15,866	8,733	14,831	8,705
Costau Ailstrwythuro	246	246	155	109
	111,827	81,601	84,700	55,445
			Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021 £'000
Enillion yr Is-ganghellor				
Cyflog			240	233
Gwerth cyllidol y buddiannau: Yswiriant Iechyd			3	3
Gwerth cyllidol y buddiannau: Llety			-	11
			243	247
Cyfraniadau pensiwn i'r USS			54	52
			297	299
			Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 Rhif	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021 Rhif
£100,000 i £104,999			1	-
£105,000 i £109,999			-	2
£110,000 i £114,999			1	-
£115,000 i £119,999			-	-
£120,000 i £124,999			-	-
£125,000 i £129,999			-	-
£130,000 i £134,999			-	-
£135,000 i £139,999			3	-
£140,000 i £144,999			-	-
£145,000 i £149,999			-	1
£150,000 i £154,999			1	-
£155,000 i £159,999			-	-
£160,000 i £164,999			1	1
£165,000 i £169,999			-	-
£170,000 i £174,999			-	1
			7	5

Taliadau cydnabyddiaeth i staff ar gyflogau uwch, ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr (yn amodol ar gyfarwyddyd cyfrifon perthnasol CCAUC), yn cael eu dangos cyn aberthu unrhyw gyflog:

£100,000 i £104,999
£105,000 i £109,999
£110,000 i £114,999
£115,000 i £119,999
£120,000 i £124,999
£125,000 i £129,999
£130,000 i £134,999
£135,000 i £139,999
£140,000 i £144,999
£145,000 i £149,999
£150,000 i £154,999
£155,000 i £159,999
£160,000 i £164,999
£165,000 i £169,999
£170,000 i £174,999

Cafodd un aelod o staff daliadau yn ystod y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2021 yn ychwanegol at ei gyflog blyneddol, a hynny yn iawndal am yr oriau ychwanegol a weithiwyd mewn blyneddol blaenorol. Canlyniad hyn oedd bod cyfanswm cyflog rhwng £170,000 a £174,999 wedi cael ei dalu. Heb y taliadau hyn, byddai ei gyflog wedi cael ei adrodd yn y band £145,000 i £149,999. Nid oedd unrhyw iawndal yn daladwy i staff ar gyflogau uwch yn ystod y flwyddyn (2021: £dim).

NODIADAU I'R CYFRIFON

Personél rheoli allweddol yw'r bobl hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Brifysgol. Mae'r costau staffio yn cynnwys cyfraniadau pensiwn ac iawndal a dalwyd i bersonél rheoli allweddol. Mae taliadau cydnabyddiaeth yn cwmpasu cyflog a budd-daliadau, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021 £'000
Taliadau cydnabyddiaeth i bersonél rheoli allweddol	1,164	1,049
Personél rheoli allweddol	Rhif 9	Rhif 8

Roedd y dyfarniad cyflog a gynigiwyd gan UCEA, ac sy'n gymwys o fis Awst 2021, yn 1.5% ar gyfer yr holl staff ar y golofn gyflog genedlaethol. Yn ogystal â hyn, ac am ei bod yn gyflogwr Cyflog Byw Go lawn, mae'r Brifysgol wedi rhoi'r cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ar waith, sy'n cynnwys pwysoliad Llundain lle bo hynny'n berthnasol. Lle roeddent yn gymwys, dyfarnwyd codiadau cyflog camu ymlaen i staff yn y modd arferol.

7 Costau staffio (parhad)

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021
Niferoedd cyfartalog y staff fesul:		Rhif
Adranau academaidd	736	698
Adranau anacademaidd	1,026	960
	1,762	1,658

Nid yw'r costau staff uchod ar gyfer personél rheoli allweddol yn cynnwys cost rheolwyr allweddol a gyflogir gan Brifysgol Cymru, ond sy'n gweithio ledled y ddau sefydliad. Mae'r costau hyn, sef cyfanswm o £55 mil (2021: £55 mil) wedi'u cynnwys mewn treuliau gweithredu eraill gan y codir tâl amdanynt trwy anfoneb gan Brifysgol Cymru.

Costau Ailstrwythuro

Lle mae cynllun i ailstrwythuro wedi cael ei gyfleu ond heb gael ei gwblhau ar ddyddiad y Fantolen, a lle bo'r symiau sydd i'w talu yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ac yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn y cafodd y cynllun ei gyfleu, mae'r Brifysgol yn gwneud cyfrif am gostau ailstrwythuro yn y cyfnod yr eir i'r gost honno.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
Talwyd i gyflogion wrth derfynu eu cyflogaeth	246	246	155	109

NODIADAU I'R CYFRIFON

Ymddiriedolwyr

Aelodau o Gyngor y Brifysgol yw'r ymddiriedolwyr at ddibenion cyfraith elusennol. Mae'r ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, a hyd at y dyddiad y llofnodwyd y datganiadau ariannol hyn, wedi'u rhestru ar dudalen 1.

Oherwydd natur gweithrediadau'r Brifysgol a chyfansoddiad y Cyngor, sy'n cynnwys aelodau o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat lleol, mae'n anochel y bydd trafodiadau'n cael eu cynnal â sefydliadau y mae gan aelod o'r Cyngor, o bosibl, fuddiant ynddynt. Caiff pob trafodiad sy'n ymwneud â sefydliadau y gallai fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt eu cynnal o hyd braich ac yn unol â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol a gweithdrefnau caffael arferol. Ac eithrio'r treuliau a dalwyd yn y flwyddyn y cyfeirir ati isod, ni chafwyd unrhyw drafodiadau ag unrhyw aelodau yn ystod y flwyddyn.

Nid oes yr un aelod o'r Cyngor wedi cael unrhyw daliad cydnabyddiaeth/daliadau wedi'u hepgor gan y grŵp yn ystod y flwyddyn (2021: £dim).

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i 23 o aelodau'r Cyngor, neu ar eu rhan, oedd £9 mil (2021: £9 mil i 23 o aelodau'r Cyngor). Mae hyn yn cynrychioli costau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt wrth fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau'r Cyngor a'r pwyllgorau yn rhinwedd eu swyddi swyddogol.

7. Costau staffio (parhad)

Datganiad Taliad Cydnabyddiaeth yr Is-ganghellor

Mae cymhareb cyflog yr Is-ganghellor o gymharu â chyfartaledd canolrifol y Brifysgol yn 6.79:1, a chymhareb cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth yr Is-ganghellor o gymharu â chyfartaledd canolrifol y Brifysgol yn 6.88:1.

Nododd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth fod cyflog presennol yr Is-ganghellor yn is na'r cyfartaledd yng ngrŵp cymharol CCAUC, a nododd hefyd nad oedd yr uwch-swyddogion, gan gynnwys yr Is-ganghellor, wedi cael codiad cyflog yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r Is-ganghellor hefyd yn Is-ganghellor Prifysgol Cymru. Codir tâl ar Brifysgol Cymru am 20% o enillion yr Is-ganghellor. Mae'r enillion a'r cymarebau a ddatgelir uchod yn cynrychioli 100% o enillion yr Is-ganghellor.

Mae gan yr Is-ganghellor ystod cyfrifoldeb sylweddol sy'n rhydwantu Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Mae hyn yn cynnwys Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Cymru, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Yn PCYDDS, mae'r cyfrifoldeb wedi'i ehangu yn Birmingham a Llundain. I gydnabod yr holl wybodaeth gyd-destunol berthnasol, gan gynnwys lefel dyfarniad cyflog y sector a'r angen i gynnal safle PCYDDS yn gyffredinol ymhlith y cymaryddion, dyfarnwyd codiad cyflog i'r Is-ganghellor yn 2021-2022. Datgelir 100% o enillion yr Is-ganghellor yn y cyfrifon hyn, ac nid ydynt yn rhoi cyfrif am unrhyw dâl a godir ar Brifysgol Cymru.

Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am sefydlu Pwyllgor Sefydlog o'r Cyngor, a elwir y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth, i bennu taliadau cydnabyddiaeth teg a phriodol ar gyfer yr Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion, y Pro Is-gangellorion, a Chlerc y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am adolygu a phennu cyflogau, telerau ac amodau, a lle bo hynny'n briodol, amodau diswyddo, deiliaid yr uwch-swyddi uchod, a hynny'n flynyddol. Cyhoeddir y cylch gorchwyl ar wefan y Brifysgol, gan sicrhau eu bod ar gael i'r staff, y myfyrwyr a'r holl randdeiliaid mewn modd agored a thryloyw: <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llywodraethu-rheolaeth/llywodraethu/> Mae aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys staff sy'n aelod o'r Cyngor a myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor. Nid yw'r Is-ganghellor yn aelod.

Mae'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yn glynu wrth God Taliadau Cydnabyddiaeth Uwch-staff Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion. Mae ei ystyriaethau yn ystyried y cyd-destun y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo. Mae'n ystyried y gwerth a ddarperir gan unigolyn sy'n gweithredu mewn rôl a seilir ar elfennau perthnasol ar gyfer cyd-destun PCYDDS. Mae'r pwyllgor yn ystyried gwybodaeth gymharol briodol am brifysgolion eraill i lywio ei benderfyniadau, yn cynnwys cyfradd y cynnydd blynyddol yn nhaliadau cydnabyddiaeth cyfartalog pob aelod arall

NODIADAU I'R CYFRIFON

o'r staff. Mae hefyd yn ystyried y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac adroddiad ar gwynion a wneir i'r Brifysgol gan fyfyrwyr, staff ac unigolion allanol. Mae'r Pwyllgor yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob argymhelliad yn deg ac yn ystyried budd y sefydliad, rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid, yn cynnwys cymuned y myfyrwyr a'r gymuned ehangach. Mae diogelu'r cronfeydd cyhoeddus hefyd yn ffurfio rhan o'i ystyriaethau. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am gyflwyno argymhellion y pwyllgor i Gyngor y Brifysgol.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
8 Llog a chostau cyllid eraill				
Lesoedd cyllid	54	23	79	36
Llog ar fenthyciadau	1,503	1,503	1,607	1,607
Y tâl net yn achos cynlluniau pensiwn	1,088	588	1,249	698
Gostyngiad yng ngwerth teg deilliadau	-	-	-	-
Arall	136	135	190	179
	2,781	2,249	3,125	2,520

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
9 Dadansoddiad o dreuliau gweithredu eraill fesul gweithgarwch				
Gwariant academaidd a gwariant cysylltiedig	35,868	19,948	32,205	19,667
Gweinyddu a gwasanaethau canolog	15,410	5,900	17,964	11,416
Safleoedd	14,376	11,851	10,660	7,675
Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau	1,382	716	1,184	838
Costau eraill	5,906	3,445	4,142	2,046
	72,942	41,860	66,155	41,642

Mae'r treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:

Tâl cydnabyddiaeth yr archwilydd allanol mewn perthynas â gwasanaethau archwilio:

Y datganiadau ariannol hyn	74	74	82	82
Datganiadau ariannol grwpiau eraill	84	-	89	-
Tâl cydnabyddiaeth yr archwilydd allanol mewn perthynas â gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio:				
Gwasanaethau sicrwydd cysylltiedig â'r archwiliad	33	33	67	67
Gwasanaethau cydymffurfio â threth	-	-	-	-
Gwasanaethau cynghori ar dreth	20	-	22	22
Rhent ar lesioedd gweithredol	2,293	2,104	2,190	2,008

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
10 Trethiant				
Cydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr				
Treth gyfredol				
Costau treth cyfredol	12	-	12	-
Addasiad y flwyddyn flaenorol	(3)	-	34	-
Costau treth cyfredol	9	-	46	-
Treth ohiriedig				
Cychwyniad a gwrthdroad gwahaniaethau o ran amseru	-	-	-	-
Gostyngiad yn y gyfradd dreth	-	-	-	-
Cydnabyddiaeth o golledion treth nas cydnabuwyd yn flaenorol	-	-	-	-
Costau treth ohiriedig	-	-	-	-
Cyfanswm treuliau treth	9	-	46	-

NODIADAU I'R CYFRIFON

10 Trethiant (parhad)

Ffactorau sy'n effeithio ar gyfanswm cost y dreth ar gyfer y cyfnod cyfredol

Mae'r dreth a asesir ar gyfer y cyfnod yn berthnasol i Eclectica Drindod Limited, Buddsoddiadau PCYDDS, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac mae'n uwch na chyfradd safonol treth gorfforaeth yn y DU, sef 19% (2021: 19%). Eglurir y gwahaniaethau isod:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
(Diffyg)/Gwaged cyn treth	(16,499)	(17,489)	7,134	6,208
Symiau nad ydynt yn ddarostyngedig i dreth	16,363	17,489	(7,069)	(6,208)
Elw Trethadwy	(136)	-	65	-
Treth ar 19% (2020: 19%)	(25)	-	12	-
Effeithiau:				
Gwariant nas caniateir	37	-	-	-
Addasiad y flwyddyn flaenorol	(3)	-	34	-
Cyfanswm y costau treth yn ystod y flwyddyn	9	-	46	-

Cyfradd safonol y dreth a gymhwysir i'r elw a adroddir yw 19% (2021: 19%).

Cafodd gostyngiad yng nghyfradd y dreth gorfforaeth yn y DU o 19% i 17% (a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2020) ei roi ar waith yn gyffredinol ar 6 Medi 2016. Roedd Cyllideb Mawrth 2020 wedi cyhoeddi y byddai cyfradd o 19% yn parhau i fod yn berthnasol, gan ddod i rym o 1 Ebrill 2020, a rhoddwyd y newid hwn ar waith yn gyffredinol ar 17 Mawrth 2020.

Ar 23 Medi 2022, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y byddai cyfradd y dreth gorfforaeth yn aros ar 19% o 1 Ebrill 2023, gan wrthdroi mesur a roddwyd ar waith yn flaenorol i gynyddu'r gyfradd i 25%. Nid yw'r gwrthdroad hwn yng nghyfradd y dreth o 1 Ebrill 2023 wedi cael ei roi ar waith, na'i roi ar waith yn gyffredinol, ac, yn unol â hynny, nid yw'n cael unrhyw effaith ar falansau'r trethi ar 31 Gorffennaf 2022.

NODIADAU I'R CYFRIFON

	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol £'000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Tir ac adeiladau lesddaliadol £'000	Cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Da byw £'000	Cyfansymiau £'000
11 Asedau sefydlog diriaethol Cyfunol							
Cost neu brisiad							
Ar 1 Awst 2021	197,358	3,736	18,532	20,780	168	372	240,946
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	1,913	5,353	-	6,871	34	14	14,185
Trosglwyddiadau	23	(2,183)	-	2,160	-	-	-
Trosglwyddiad o eiddo buddsoddi	713	-	-	-	-	-	713
Gwarediadau	(17,254)	(966)	-	(1,640)	-	-	(19,860)
Ar 31 Gorffennaf 2022	182,753	5,940	18,532	28,171	202	386	235,984
Dibrisiant cronedig							
Ar 1 Awst 2021	67,211	-	4,390	15,949	148	-	87,698
Tâl ar gyfer y flwyddyn	3,959	-	365	5,293	18	-	9,635
Gwarediadau	(14,944)	-	-	(826)	-	-	(15,769)
Ar 31 Gorffennaf 2022	56,226	-	4,755	20,416	166	-	81,563
Gwerth net ar bapur							
Ar 31 Gorffennaf 2022	126,527	5,940	13,777	7,755	36	386	154,421
Ar 31 Gorffennaf 2021	130,147	3,736	14,142	4,831	20	372	153,248

Cafodd tir ac adeiladau o eiddo Coleg Sir Gâr eu hailbriso yn 1998 yn unol â chost amnewid dibrisiedig, a hynny gan Cooke & Arkwright, sef cwmni o syrfewyr siartredig annibynnol. Wrth fabwysiadu FRS 102, cafodd eiddo a ailbrisiwyd eu trin yn ôl y gost dybiedig. Mae dadansoddiad o gost neu brisiad yr asedau sefydlog diriaethol ar 31 Gorffennaf 2022 fel a ganlyn:

	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol £'000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Tir ac adeiladau lesddaliadol £'000	Cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Da byw £'000	Cyfansymiau £'000
Cost neu brisiad							
Prisiad yn 1998	19,716	-	-	-	-	386	20,102
Cost	163,037	5,940	18,532	28,170	202	-	215,882
	182,753	5,940	18,532	28,170	202	386	235,984

NODIADAU I'R CYFRIFON

Mae'r Brifysgol wrthi'n ceisio gwerthu tir a ddelir mewn asedau sefydlog diriaethol, a disgwylir i'r gwerthiant gael ei gwblhau cyn pen 12 mis o ddyddiad y fantolen. Yn unol â hyn, mae'r tir hwn wedi cael ei ddosbarthu yn yr asedau a ddelir i'w gwerthu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Mae dadansoddiad o gost a gwerth net ar bapur yr asedau sefydlog diriaethol ar 31 Gorffennaf 2022 fel a ganlyn:

	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol £'000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Tir ac adeiladau lesddaliadol £'000	Cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Da byw £'000	Cyfansymiau £'000
Cost neu brisiad							
Asedau sefydlog diriaethol	180,796	5,940	18,532	28,171	202	386	234,027
Asedau a ddelir i'w gwerthu	1,957	-	-	-	-	-	1,957
Yn unol â'r atodlen	182,753	5,940	18,532	28,171	202	386	235,984
Gwerth net ar bapur							
Asedau sefydlog diriaethol	124,570	5,940	13,777	7,755	36	386	152,464
Asedau a ddelir i'w gwerthu	1,957	-	-	-	-	-	1,957
Yn unol â'r atodlen	126,527	5,940	13,777	7,755	36	386	154,421

	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol £'000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Tir ac adeiladau lesddaliadol £'000	Cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Da byw £'000	Cyfansymiau £'000
11 Asedau sefydlog diriaethol (parhad) Y Brifysgol							
Cost neu brisiad							
Ar 1 Awst 2021	128,777	3,232	18,532	6,621	169	-	157,331
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	1,399	5,353	-	4,586	34	-	11,372
Trosglwyddiadau	23	(2,183)	-	2,160	-	-	-
Trosglwyddiad o eiddo buddsoddi	713	-	-	-	-	-	713
Gwarediadau	(17,198)	(966)	-	(1,220)	-	-	(19,384)
Ar 31 Gorffennaf 2022	113,714	5,436	18,532	12,147	203	-	150,032
Dibrisiant Cronedig							
Ar 1 Awst 2021	40,994	-	4,390	4,909	148	-	50,441
Tâl ar gyfer y flwyddyn	2,471	-	365	3,261	18	-	6,115
Gwarediadau	(14,888)	-	-	(407)	-	-	(15,295)
Ar 31 Gorffennaf 2022	28,577	-	4,755	7,763	166	-	41,261
Gwerth net ar bapur							
Ar 31 Gorffennaf 2022	85,137	5,436	13,777	4,384	37	-	108,771
Ar 31 Gorffennaf 2021	87,783	3,232	14,142	1,712	21	-	106,889

NODIADAU I'R CYFRIFON

Mae'r Brifysgol wrthi'n ceisio gwerthu tir a ddelir mewn asedau sefydlog diriaethol, a disgwylir i'r gwerthiant gael ei gwblhau cyn pen 12 mis o ddyddiad y fantolen, ac, yn unol â hyn, mae'r tir hwn wedi cael ei ddsbarthu yn yr asedau a ddelir i'w gwerthu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Mae dadansoddiad o gost a gwerth net ar bapur yr asedau sefydlog diriaethol ar 31 Gorffennaf 2022 fel a ganlyn:

	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol £'000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Tir ac adeiladau lesddaliadol £'000	Cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Da byw £'000	Cyfansymiau £'000
Cost neu brisiad							
Asedau sefydlog diriaethol	111,757	5,436	18,352	12,147	203	-	148,075
Asedau a ddelir i'w gwerthu	1,957	-	-	-	-	-	1,957
Yn unol â'r atodlen Gwerth net ar bapur	113,714	5,436	18,532	12,147	203	-	150,032
Asedau sefydlog diriaethol	83,180	5,436	13,777	4,384	37	-	106,814
Asedau a ddelir i'w gwerthu	1,957	-	-	-	-	-	1,957
Yn unol â'r atodlen	85,137	5,437	13,777	4,384	37	-	108,771

12 Asedau treftadaeth

Cyfunol a'r Brifysgol

Mae'r asedau treftadaeth yn cynnwys casgliad o lawysgrifau, pamffledi, incwnabwla a llyfrau argraffedig prin. Cafodd yr asedau hyn eu hailbrisiu'n ffurfiol ar 31 Gorffennaf 2014 gan Bernard Quaritch Ltd; arweiniodd hyn at gynydd o £250 mil yn eu gwerth.

Mae gan ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn a Sicrwydd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan daliad arnawf gwerth £2 miliwn dros asedau treftadaeth y Brifysgol.

Cedwir asedau treftadaeth y Brifysgol mewn anecs arbenigol i'r llyfrgell, a godwyd y bwrpasol, ar Gampws Llanbedr Pont Steffan, ac fe'u rheolir gan ddau aelod o staff cymwysedig, arbenigol. Gwneir unrhyw waith cadwraeth neu warchodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr asedau hyn gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Ni chafodd unrhyw asedau treftadaeth eu prynu na'u gwerthu yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae manylion casgliad y Brifysgol i'w cael ar wefan y Brifysgol:

<https://uwtsd.ac.uk/cy/rbla/rhestr-a-z-o-gasgliadau/>

NODIADAU I'R CYFRIFON

13 Eiddo buddsoddi

Balans ar 1 Awst 2021
Gwarediadau
Trosglwyddo i asedau sefydlog
Ailbrisiad
Balans ar 31 Gorffennaf 2022

	Eiddo Rhydd-ddaliadol Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
Balans ar 1 Awst 2021	4,414	3,264
Gwarediadau	(155)	(155)
Trosglwyddo i asedau sefydlog	(713)	(713)
Ailbrisiad	(27)	123
Balans ar 31 Gorffennaf 2022	3,519	2,519

Caiff yr eiddo buddsoddi eu prisio'n flynyddol gan brisiwr annibynnol sy'n gofrestredig gyda RICS, a chynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Gorffennaf 2022. Sail y prisiad ar gyfer yr eiddo buddsoddi yw'r gwerth teg a ddiffinnir o dan IFRS, a rhagdybir bod pris gwerthu'r eiddo yn amodol ar unrhyw lesioedd sy'n bodoli. Mae swm yr ailbrisiad a gydnabuwyd yn 2022 yn berthnasol i'r broses o ailbrisiu'r eiddo buddsoddi ar werth teg yn unol â phrasiad a baratowyd gan Savilles.

Nid oes yna unrhyw gyfyngiad ar ddefnydd y Brifysgol o'r incwm a gynhyrchir o'r eiddo buddsoddi, ac, ar 31 Gorffennaf 2022, nid oedd ganddi unrhyw rwymedigaethau contractiol ar gyfer datblygu na chynnal a chadw'r eiddo yn y dyfodol.

14 Buddsoddiadau anghyfredol

Cyfunol

Ar 1 Awst 2021
Ychwanegiadau
Gwarediadau
Ar 31 Gorffennaf 2022
Cyfran o'r cronfeydd wrth gefn ar ôl prynu
Ar 1 Awst 2021
Elw argadwedig llai colledion
Ar 31 Gorffennaf 2022

Llog ar Fentrau ar y Cyd (Nodyn 15) £'000	Buddsoddiadau asedau sefydlog eraill £'000	Cyfanswm £'000
721	303	1,024
-	-	-
-	-	-
721	303	1,024
(236)	-	(236)
19	-	19
(217)	-	(217)
504	303	807
485	303	788

Balans ar 31 Gorffennaf 2022

Balans ar 31 Gorffennaf 2021

14 Buddsoddiadau anghyfredol (parhad)

Prifysgol
Ar 1 Awst 2021
Ychwanegiadau
Gwarediadau
Amhariad
Ar 31 Gorffennaf 2022

	Buddsoddiad mewn Is-gwmni £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Awst 2021	-	-
Ychwanegiadau	-	-
Gwarediadau	-	-
Amhariad	-	-
Ar 31 Gorffennaf 2022	-	-

NODIADAU I'R CYFRIFON

15 Buddsoddiad mewn menter ar y cyd

Mae un o is-gwmnïau'r Brifysgol, Buddsoddiadau PCYDDS Cyfyngedig, yn dal 50% o OSTC TSD LLP, sy'n bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Mae hon yn fenter ar y cyd dan berchnogaeth gyfartal Buddsoddiadau PCYDDS Cyfyngedig ac OSTC, sy'n Gwmni Masnachol. Mae'r buddsoddiad yn OSTC TSD LLP yn rhannol ar ffurf cyfalaf cyfranddaliadau (£300,000 (2021: £300,000)) ac yn rhannol ar ffurf benthyciad diwarant, sy'n daladwy ar gais, gyda'r gyfradd llog yn 4% dros y gyfradd sylfaenol (£420,978 (2021: £420,978)). Mae'r cynnydd yn ganlyniad i log cronedig o £18,952 a enillwyd yn y cyfnod (2021: £17,268).

Mae'r trefniant yn cael ei drin fel menter ar y cyd, a gwneir cyfrif amdano gan ddefnyddio'r dull ecwiti, fel bo'r buddsoddiad yn cael ei gofnodi i gychwyn yn ôl y gost ac yn cael ei addasu wedi hynny i adlewyrchu cyfran 50% y Brifysgol o elw neu golled net y fenter ar y cyd. Mae cyfran y Grŵp o golledion gweithredu y fenter ar y cyd yn natganiadau ariannol diweddaraf y fenter ar y cyd (dyddiedig 31 Rhagfyr 2020) yn £dim (2020: £dim). Mae buddiant y Grŵp yn y fenter ar y cyd yn £485,268 (2020: £468,000), sy'n cynnwys y benthyciad fel y'i datgelir uchod, ynghyd â buddsoddiad cyfalaf yn ei mantolen gyfunol.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
16 Stoc				
Nwyddau gorffenedig	516	281	476	317
Da byw i'w hailwerthu	11	-	11	-
	527	281	487	317

Caiff stoc ei brisio ar yr isaf o'r gost a'r gwerth dichonadwy net ar sail 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan'.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
17 Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill				
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:				
Dyledwyr masnach	26,495	25,958	20,326	19,985
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	7,490	3,583	6,091	3,199
Symiau sy'n ddyledus gan is-gwmnïau	-	11,065	-	10,506
Deilliadau	666	666	-	-
	34,651	41,272	26,417	33,690

Mae'r symiau sy'n ddyledus gan is-gwmnïau yn gydgasgliad o falansau masnachu sy'n rhydd o log ac yn ad-daladwy ar gais. Mae'r Brifysgol wedi darparu llythyrau cefnogi at ei is-gwmnïau, ac ynddynt mae'n cadarnhau na fydd balansau'r dyledwyr yn cael eu hadalw yn ystod cyfnod o 12 mis ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Gan hynny, ystyrir bod y balansau hyn yn ddyledus mewn mwy nag un flwyddyn. Trwy gymhwysu hyn, ceir y rhaniad canlynol o symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
17 Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill (parhad)				
Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill				
Yn daladwy o fewn blwyddyn	34,651	30,207	26,417	23,184
Yn daladwy ar ôl blwyddyn	-	11,065	-	10,506
Cyfanswm	34,651	41,272	26,417	33,690

Mae'r deilliadau'n ymwneud â chontract i gyfnewid cyfraddau llog a ddefnyddir i sefydlogi cyfradd benthyciad y Brifysgol ar 1.435% ynghyd â ffin benthyciad y banc. Delir hwn yn ôl gwerth teg, ac fe'i prisiwyd gan ddefnyddio marcio yn ôl y farchnad. Ar 31 Gorffennaf 2021 cofnodwyd y deilliad yn rhwymedigaeth a'i datgelu o dan nodyn 19.

NODIADAU I'R CYFRIFON

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
18 Buddsoddiadau				
Buddsoddiad byrdymor mewn cyfrannau	5,902	5,901	5,860	5,857
Adneuron byrdymor	15	-	15	-
	5,917	5,901	5,875	5,857

Mae'r Brifysgol yn dilyn polisi buddsoddi ceidwadol sydd â phwyslais ar sicrhau cynnydd yng ngwerth cyfalaf gwirioneddol pob cronfa yn y portffolio bob blwyddyn; disgwylir targed o dwf gwirioneddol o 5%, gyda 3.5% yn dwf incwm ac 1.5% yn dwf cyfalaf.

Delir y buddsoddiadau yng nghronfa waddol y Brifysgol a'r gronfa waddol gyfunol. Mae manylion y symudiad yn y gwerth teg ar y buddsoddiadau hyn i'w gweld yn Nodyn 21.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
19 Credydwy'r symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn				
Symiau sy'n ddyledus yn sgil prynu tir	2,181	2,181	2,880	2,880
Benthyciadau diogel (parhad)	2,347	2,347	2,274	2,274
Rhwymedigaethau o dan lesioedd cyllid (nodyn 20)	823	613	590	311
Credydwy'r masnach	15,467	13,766	8,960	7,285
Nawdd cymdeithasol a threthiant taladwy arall	1,955	1,497	1,672	1,249
Croniadau ac incwm gohiriedig	46,081	35,728	46,271	37,576
Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau	-	9,743	-	10,005
Deilliadau	-	-	898	898
	68,854	65,875	63,545	62,478

Mae'r symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau yn gydgasgliad o'r balansau masnachu sy'n rhydd o log ac yn ad-daladwy ar gais.

Wedi'u cynnwys gyda'r cronniadau a'r incwm gohiriedig y mae'r eitemau incwm canlynol a ohiriwyd hyd nes y bydd amodau penodol cysylltiedig â pherfformiad wedi cael eu bodloni.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
Grantiau Cyrff Cyllido	1,866	1,866	2,847	2,847
Incwm Grant Arall	4,563	4,563	4,064	2,881
Incwm Myfyrwyr	20,096	20,096	16,214	16,214
Incwm Arall	2,860	2,803	2,891	2,834
	29,385	29,328	26,016	24,776

NODIADAU I'R CYFRIFON

Mae'r swm sy'n ddyledus o ganlyniad i brynu tir yn swm sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru ac yn daladwy pan fydd y tir wedi cael ei werthu i drydydd parti. Ymddangosodd y credydwr hwn ar ffurf taliad gohiriedig pan brynwyd y tir i gychwyn. Mae gwerthiant y tir a'r taliad dilynol i Lywodraeth Cymru wedi'u gohirio o ganlyniad i faterion yn ymwneud â COVID-19, a disgwyliar eu cwblhau yn 2022-23.

Mae'r deilliadau'n ymwneud â chontract i gyfnewid cyfraddau llog a ddefnyddir i sefydlogi cyfradd benthyciad y Brifysgol ar 1.435% ynghyd â ffin benthyciad y banc. Delir hwn yn ôl gwerth teg, ac fe'i prisiwyd gan ddefnyddio marcio yn ôl y farchnad. Ar 31 Gorffennaf 2022 cofnodwyd y deilliad yn ased a'i datgelu o dan nodyn 17.

19 Credydwr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn (parhad)

Roedd gan y Brifysgol fenthyciad diwarant gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar 31 Gorffennaf 2020, a oedd yn cynrychioli blaenswm am dderbyniadau arian parod mewn perthynas â dyfarniad olaf cyllid grant y Fargen Ddinesig a oedd eto i'w dalu (£3 miliwn). Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr incwm grant ei gadarnhau. Ad-dalwyd y benthyciad i Gyngor Sir Caerfyrddin ym mis Mawrth 2021, a chydabuwyd yr incwm grant a ddyfarnwyd yn ei le.

Mae'r benthyciad diogel yn cynnwys swm cyfalaf o £2 miliwn a llog cronodig o £347 mil. Roedd taliad cyfalaf o £500 mil yn daladwy ar 1 Awst 2022, gydag ad-daliadau dilynol o £500 mil yn daladwy ar 1 Tachwedd 2022, ar 1 Chwefror 2023, ac ar 1 Ebrill 2023.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
20 Credydwr: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn				
Rhwymedigaethau o dan lesioedd cyllid	529	366	677	306
Benthyciadau diogel	32,000	32,000	34,000	34,000
	32,529	32,366	34,677	34,306

